| Caffael is-gwmni yn glir o arian parod a gaffaelwyd gyda'r is-gwmni | | **20.0** | (13.2) |
| Caffael buddiannau mewn partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | | **(0.7)** | (15.8) |
| Hawlio benthyciad i gyd-fenter | | **1.3** | (0.4) |
| Prynu asedau anniriaethol eraill | | **(100.8)** | (100.8) |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 10 | **(125.2)** | (147.5) |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | **(146.8)** | (199.1) |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Llog a dalwyd | | **(14.3)** | (15.3) |
| Enillion o gynnydd mewn symiau a fenthyciwyd | | **101.0** | 223.1 |
| Ad-daliadau symiau a fenthyciwyd | | **(174.1)** | (144.4) |
| Talu rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | | **(57.4)** | (49.1) |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau ariannu** | | **(144.8)** | 14.3 |
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | **149.6** | 42.0 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 2d | **124.3** | 78.0 |
| Effaith newidiadau yn y gyfradd gyfnewid dramor ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | | **(1.7)** | 4.3 |
| Arian parod a ddosberthir yn arian a ddelir i'w werthu | | **(8.3)** | – |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 2d | **263.9** | 124.3 |

* Gweler Nodyn 21 ar gyfer cysoni gwarged weithredu ag arian parod a gynhyrchir o weithgareddau gweithredu.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP

## Y BBC

Ymgorfforir y BBC yn y Deyrnas Unedig o dan y Siarter Frenhinol (y Siarter).

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r adran hon yn esbonio prif bolisïau cyfrifyddu'r BBC, a gymhwyswyd yn gyson yn ystod y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn flaenorol.

## SAIL Y PARATOI

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol hyn ar gyfer Grŵp y BBC (y Grŵp) wedi eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a dehongliadau a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yr IASB fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE (IFRS).

Paratoir y datganiadau ariannol yn bennaf ar sail y gost hanesyddol. Nodir meysydd lle y cymhwysir seiliau eraill yn y polisïau cyfrifyddu isod.

Lle mae eitemau yn ddigon pwysig oherwydd eu maint neu natur, cânt eu datgelu ar wahân yn y datganiadau ariannol er mwyn helpu'r darllenydd i ddeall perfformiad ariannol y Grŵp.

## MABWYSIADU SAFONAU CYFRIFYDDU NEWYDD A DIWYGIEDIG

### Mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf

Datganiadau ariannol cyfunol cyntaf y Grŵp yw'r rhain i'w paratoi o dan IFRS a rhoddir y datgeliadau sy'n ofynnol yn ôl IFRS 1 ar Fabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol am y tro cyntaf o ran newid o UK GAAP i IFRS yn Nodyn 27.

Mae IFRS 1 yn nodi'r gofynion ar gyfer mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf. Mae'n ofynnol i'r Grŵp sefydlu ei bolisïau cyfrifyddu IFRS am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ac, yn gyffredinol, gymhwyso'r polisïau hynny yn gyson ym mantolen agoriadol IFRS ar 1 Ebrill 2008 (y dyddiad newid) ac ar ôl hynny, yn amodol ar nifer o eithriadau dewisol a ganiateir gan IFRS 1.

Mae'r BBC wedi mabwysiadu **IFRS** am y tro cyntaf. Felly mae wedi ailddatgan yr holl wybodaeth ariannol hanesyddol fel petai wedi defnyddio IFRS erioed.

Mae'r Grŵp wedi mabwysiadu'r ymagwedd ganlynol tuag at yr eithriadau allweddol:

- Cyfuniadau busnes: mae'r Grŵp wedi dewis cymhwyso IFRS 3 ar Gyfuniadau busnes (fel y'u cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004), a safonau cysylltiedig, at gyfuniadau busnes a ddigwyddodd ar ôl 1 Ebrill 2007; nid yw cyfuniadau busnes a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn wedi eu hailddatgan.
- Gwerth teg neu ailbrisiad fel cost dybiedig: mae'r Grŵp wedi dewis defnyddio'r swm wedi ei ailbrisio llai dibrisiant ar gyfer eitemau o offer a chyfarpar a ddelir gan BBC World Service a BBC Monitoring fel eu cost dybiedig wrth newid i IFRS. Mae pob eitem arall o eiddo, offer a chyfarpar yn parhau i gael ei mesur ar sail y gost hanesyddol.
- Gwahaniaethau trosi cronnol: dim ond y gwahaniaethau trosi hynny sy'n codi ers 1 Ebrill 2008 a gyflwynir fel elfen ar wahân o'r cronfeydd wrth gefn.
- Prydlesau: mae'r Grŵp wedi cymhwyso IFRIC 4 ar Benderfynu p'un a yw Trefniant yn cynnwys Prydles o 1 Ebrill 2008 ac felly wedi penderfynu p'un a yw trefniant yn cynnwys prydles ai peidio ar sail ffeithiau ac amgylchiadau sy'n bodoli ar y dyddiad hwnnw.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## Busnes Gweithredol

Paratoir y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, er bod rhwymedigaethau net o £532miliwn ar 31 Mawrth 2010. Cred y cyfarwyddwyr fod hyn yn briodol am y rhesymau canlynol.

Mae'r sefyllfa rhwymedigaeth net yn deillio'n gyfan gwbl o gydnabod diffyg ychwanegol o £1.5biliwn ar gynllun pensiwn y BBC. Dangosodd prisiad cyfrifyddu'r cynllun ar 31 Mawrth 2010 ddiffyg o £1.6biliwn (31 Mawrth 2009: £0.1biliwn) a ysgogwyd yn bennaf gan newid i'r gyfradd ddisgowntio, a ddefnyddir i ddisgowntio'n ôl y rhwymedigaeth pensiwn yn y dyfodol. Penderfynir ar y gyfradd ddisgowntio drwy gyfeirio at arenillion y farchnad ar ddyddiad y fantolen ar fondiau corfforaethol gradd AA, sydd o ganlyniad i amodau cyfredol y farchnad, wedi gostwng yn sylweddol.

Mae'r prisiad bob tair blynedd ar 31 Mawrth 2010 ar y gweill ar hyn o bryd ac ni phenderfynir ar lefelau terfynol cyllid yn y dyfodol nes bod y prisiad hwn wedi ei gwblhau ac y deuir i gytundeb ag ymddiriedolwyr y gronfa bensiwn.

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagolygon llif arian parod ar gyfer cyfnod o fwy na blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ym marn y cyfarwyddwyr, y ffactorau allweddol yn y rhagolygon hyn yw: parhad y Siarter a ffi'r drwydded (y cytunwyd ar y cwantwm tan 2013), canlyniadau disgwyliedig prisiad actiwaraidd bob tair blynedd cynllun pensiwn y BBC a'r cyd-drafodaethau canlyniadol ag Ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn sy'n effeithio ar lefel y cyllid yn y dyfodol a'r arbedion cost arfaethedig o dan y rhaglen 'Gwelliant Parhaus' yn cael eu gwireddu.

Mae'r Siarter a ffi'r drwydded yn rhoi ffynhonnell sicr o incwm i'r Grŵp, fodd bynnag, mae amseriad llifau arian parod yn ffactor pwysig wrth ystyried busnes gweithredol, o gofio'r cyfyngiadau benthyca cymharol fach a osodir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar UK Public Sector Broadcasting (£200miliwn) a gweithrediadau masnachol y BBC (£350miliwn).

Mae arian ar gael i'r Grŵp: gan gynnwys cyfleuster credyd cylchol Sterling gwerth £200miliwn sydd ar waith tan fis Mehefin 2013 ac nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, a chyfleuster credyd cylchol arian cyfred gwerth £350miliwn sydd ar gael i weithrediadau masnachol y BBC, yr hawliwyd £161miliwn ohono ar 31 Mawrth 2010.

Mae cyfarwyddwyr y Grŵp wedi adolygu'r rhagolygon hyn gan ystyried yr holl ffactorau uchod, ynghyd â'r holl faterion sensitif a'r ffactorau lliniaru yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael a'r diffyg pensiwn ac maent yn disgwyl i'r Grŵp allu talu ei ddyledion fel y dônt yn ddyledus yn y dyfodol agos.

O ganlyniad, mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod sail y busnes gweithredol yn briodol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol blynyddol hyn.

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud datganiad bod y BBC yn **fusnes gweithredol** sy'n golygu y gall dalu ei ddyledion am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad llofnodi.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## SAIL Y CYFUNO

Mae cyfrifon y Grŵp yn cynnwys canlyniadau'r BBC a'r holl fusnesau a reolir gan y BBC (is-gwmnïau) ynghyd â chyfran y BBC o ganlyniadau busnesau y mae gan y BBC gryn ddylanwad ond nid rheolaeth drostynt (partneriaethau cyswllt) a'r rhai y mae'r BBC yn eu cyd-reoli (cyd-fentrau).

Mae'r Grŵp yn rhoi cyfrif am ei fuddiannau mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

**Partneriaeth gyswllt** yw endid heblaw is-gwmni neu gyd-fenter, y mae gan y Grŵp gryn ddylanwad drosto. Cryn ddylanwad yw'r pŵer i gyfranogi ym mhenderfyniadau ariannol a gweithredu endid ond nid yw'n rheolaeth nac yn gydreolaeth dros y polisïau hynny.

**Cyd-fenter** yw endid y mae gan y Grŵp fuddiant ynddo o dan drefniant cytundebol lle mae'r Grŵp ac un neu fwy o bartïon eraill yn cynnal gweithgaredd economaidd sy'n agored i gydreolaeth.

## CYFUNIADAU BUSNES

Rhoddir cyfrif am gaffael is-gwmnïau drwy ddefnyddio'r dull prynu. Mesurir cost caffael fel cyfanswm gwerthoedd teg, ar ddyddiad cyfnewid, yr asedau a roddir gan y Grŵp yn gyfnewid am reoli'r caffaelai ynghyd â chostau a briodolir yn uniongyrchol i'r caffaeliad. Cydnabyddir asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau wrth gefn penodol y caffaelai sy'n bodloni'r amodau ar gyfer cydnabyddiaeth o dan IFRS 3 (fel y'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004) ar eu gwerth teg ar y dyddiad caffael. Pan geir rheolaeth mewn pryniannau cyfranddaliadau olynol ('caffaeliad fesul cam'), rhoddir cyfrif am bob trafodyn o bwys ar wahân a nodir yr asedau, y rhwymedigaethau a'r rhwymedigaethau wrth gefn penodol ar werth teg pan geir rheolaeth.

## DADANSODDIAD RHANNOL

Yn unol ag IFRS 8 ar Safonau ar segmentau gweithredu, cyflwynir segmentau gweithredu'r Grŵp mewn modd sy'n gyson â'r adroddiadau mewnol a ddarparwyd i'r prif benderfynwr gweithredu ('CODM'). Mae'r CODM, sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segmentau gweithredu wedi ei nodi fel Bwrdd Gweithredol y BBC. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys Cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau strategol.

Endid yw **is-gwmni** a reolir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Grŵp. Mae rheolaeth yn bodoli lle mae gan y Grŵp y pŵer i reoli polisïau ariannol a gweithredu yr endid er mwyn cael buddiannau o'i weithgareddau. Wrth asesu rheolaeth, caiff hawliau pleidleisio posibl y gellir eu hymarfer neu eu trosi ar hyn o bryd eu hystyried.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## ARIAN CYFRED TRAMOR

### Trafodion arian cyfred tramor

Trosir trafodion mewn arian cyfred tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion.

Trosir asedau a rhwymedigaethau ariannol sydd mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y fantolen yn sterling ar y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Caiff enillion neu golledion arian cyfred tramor sy'n deillio o drosi asedau a rhwymedigaethau ar y cyfraddau cyfnewid hyn, ynghyd â gwahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o drafodion a setlwyd yn ystod y flwyddyn, eu cynnwys yn y datganiad incwm, heblaw am wahaniaethau sy'n codi wrth ail-drosi rhwymedigaeth ariannol a ddynodwyd yn eitem ragfantoli o'r buddsoddiad net mewn gweithrediad tramor. Trosir asedau a rhwymedigaethau anariannol a fesurir ar gost hanesyddol yn sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y gydnabyddiaeth gychwynnol.

Gan fod y datganiadau ariannol hyn yn cael eu paratoi mewn sterling, mae'n rhaid trosi **trafodion arian cyfred tramor** a balansau'r BBC, ar gyfraddau cyfnewid priodol, yn sterling.

### Datganiadau ariannol gweithrediadau tramor

Trosir asedau a rhwymedigaethau gweithrediadau tramor yn sterling ar y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y fantolen. Trosir incwm a threuliau gweithrediadau tramor yn sterling ar y cyfraddau cyfnewid misol cyfartalog sydd mewn grym yn ystod y cyfnod ariannol, sy'n fras amcan da ar gyfer y gyfradd wirioneddol. Caiff gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi wrth drosi eu cydnabod yn uniongyrchol yn y gronfa drosi wrth gefn.

Wrth waredu buddsoddiad mewn gweithrediad tramor caiff balans y gronfa drosi wrth gefn gysylltiedig ei ryddhau i'r datganiad incwm.

## INCWM

Mae incwm yn cynnwys incwm o ffi'r drwydded, refeniw allanol, incwm gweithredu arall (gan gynnwys grantiau'r llywodraeth a Chymorth Grant) (gyda'i gilydd 'cyfanswm yr incwm')

### Incwm o ffi'r drwydded

Cydnabyddir incwm sy'n deillio o drwyddedau teledu fel incwm a dderbynnir gan adran berthnasol y Llywodraeth, yn bennaf yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae hyn yn cynrychioli gwerth trwyddedau a ddosbarthwyd yn ystod y flwyddyn, yn amodol ar ddidyniadau ar gyfer ad-daliadau a wnaed a diddymiadau.

Lle mae elfen o'r incwm o ffi'r drwydded wedi ei neilltuo gan y Llywodraeth at ddiben penodol, cydnabyddir yr incwm hwnnw pan gaiff ei dderbyn, ond os daw bron yn sicr y bydd gwariant y BBC ar y dibenion a neilltuwyd yn llai na'r incwm a neilltuwyd a dderbyniwyd eisoes bydd swm perthnasol yr incwm o ffi'r drwydded, fel y cytunwyd â'r Llywodraeth, yn ad-daladwy ac yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y bydd y rhwymedigaeth i ad-dalu yn codi.

### Incwm arall

Mae incwm arall, neu refeniw, yn codi o weithgareddau megis gwerthu nwyddau, darparu gwasanaethau a rhoi trwyddedau. Mesurir refeniw ar ôl didyniadau ar gyfer treth ar werth, unrhyw drethi gwerthiannau eraill, gostyngiadau masnach a gwerthiannau rhwng cwmnïau'r Grŵp.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ffynonellau incwm amrywiol yn bwysig. Mae'r BBC yn ofalus i beidio â rhoi croesgymorthdaliadau i weithgareddau masnachol, gweithgareddau UK Public Service Broadcasting na gweithgareddau Cymorth Grant na rhai wedi eu hariannu gan grantiau. Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion a pholisïau masnachu teg y BBC yn yr adran 'Rheoli'r Busnes' yn Rhan Dau o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2009/10 y BBC.

- **Gwerthu nwyddau**

  Cydnabyddir refeniw unwaith y bydd y risgiau a'r gwobrau sylweddol sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar y nwyddau wedi eu trosglwyddo i'r cwsmer a bod y BBC wedi rhyddhau'r holl waith rheoli sydd ynghlwm wrth y nwyddau. Nodir gwerthiannau nwyddau ar ôl didynnu gwerth gwerthiannau gwirioneddol ac amcangyfrifedig nwyddau a ddychwelwyd. Mae enghreifftiau o nwyddau a werthwyd yn cynnwys cylchgronau, llyfrau a DVDs.

- **Gwerthu gwasanaethau**

  Cydnabyddir refeniw ar yr adeg y caiff y gwasanaeth ei ddarparu ac y bydd derbyn yr incwm yn debygol. Pan fydd y broses ddarparu yn digwydd dros gyfnod o amser, cydnabyddir y refeniw ar sail llinell syth. Mae enghreifftiau o wasanaethau a werthwyd yn cynnwys hysbysebu a masnachol, trwyddedau ar gyfer hawliau penodol sy'n gysylltiedig â rhaglenni teledu.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP

PARHAD

- **Breindaliadau**

  Cydnabyddir incwm breindaliadau ar sail croniadau yn unol â manylion y cytundebau perthnasol.

- **Incwm rhent**

  Cydnabyddir incwm rhent ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

- **Grantiau gan adrannau'r Llywodraeth**

  Mae BBC World Service yn cael Cymorth Grant gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad ac mae BBC Monitoring yn cael grant gan Swyddfa'r Cabinet. Hawlir y grantiau hyn i dalu'r gwariant amcangyfrifedig yn ystod y flwyddyn ond nid yw symiau nas gwariwyd am y flwyddyn, o fewn terfynau a nodwyd ymlaen llaw, yn agored i gael eu hildio. Cydnabyddir y grantiau fel incwm yn y flwyddyn ariannol y maent yn cyfeirio ati.

- **Grantiau gan sefydliadau eraill y Llywodraeth**

  Cydnabyddir grantiau eraill gan sefydliadau'r Llywodraeth fel incwm yn gyson â'r costau cysylltiedig, ar yr amod bod sicrwydd rhesymol y bydd y BBC yn cydymffurfio ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y grant ac y caiff y grant ei dderbyn.

## TALIADAU PRYDLES

Cydnabyddir taliadau a wnaed o dan brydlesau gweithredu yn y datganiad incwm ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

Caiff taliadau a wnaed o dan brydlesau cyllid eu dosrannu rhwng costau ariannu a lleihau'r rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Caiff y costau cyllido eu dyrannu i bob cyfnod er mwyn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill.

Prydles lle nad yw'r prydlesai wedi ymgymryd yn sylweddol â'r holl risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased ar brydles yw **prydles weithredu**.

**Prydles cyllid** yw prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased ar brydles i'r prydlesai, y rhoddir cyfrif amdano fel petai'n ased sy'n eiddo i'r prydlesai.

## COSTAU BENTHYCA

Caiff costau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu neu gynhyrchu asedau cymwys (y rhai sydd o reidrwydd yn cymryd cyfnod sylweddol o amser i ddod yn barod ar gyfer eu defnydd bwriadedig) eu hychwanegu at gost yr asedau hynny, hyd nes y bydd yr asedau'n barod at eu defnydd bwriadedig.

Gall rhaglenni gwreiddiol fod yn asedau cymwys, ond mae'r rhai sydd o reidrwydd yn cymryd cyfnod sylweddol o amser i ddod yn barod i'w darlledu yn cyfrif am gyfran fach o'r buddsoddiad cyffredinol mewn rhaglenni ac felly nid yw unrhyw gostau benthyca y gellid eu priodoli i'r rhaglenni hynny yn sylweddol ac ni chaiff unrhyw gostau benthyca eu cyfalafu.

Cydnabyddir yr holl incwm cyllid a chostau benthyca eraill yn y datganiad incwm a threuliau yn y cyfnod yr eir iddynt.

## TRETHIANT

Mae'r dreth a godir am y cyfnod yn cynnwys y dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd a threth ohiriedig. Cydnabyddir trethiant yn y datganiad incwm ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud ag eitemau a gydnabyddir yn uniongyrchol mewn cronfeydd wrth gefn, ac os felly fe'i cydnabyddir mewn cronfeydd wrth gefn.

Treth gyfredol yw'r dreth ddisgwyliedig sy'n daladwy am y flwyddyn, gan ddefnyddio cyfraddau treth sydd mewn grym am y flwyddyn, ac unrhyw addasiad i'r dreth sy'n daladwy mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. O ran y dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd:

- Nid yw'r BBC (UK Public Service Broadcasting, BBC World Service a BBC Monitoring) yn agored i dreth gorfforaeth ar unrhyw incwm ffi'r drwydded sydd dros ben na grantiau a dderbynnir gan adrannau'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae'n llwyr agored i dreth gorfforaeth ar enillion cyfalaf ac ar ei holl incwm allanol arall. Nid yw gwariant ar asedau cyfalaf yn gymwys ar gyfer lwfansau cyfalaf gan arwain at wahaniaethau dros dro a fyddai'n arwain at asedau neu rwymedigaethau treth ohiriedig. Mae symudiadau mewn addasiadau gwerth teg yn y datganiad incwm yn arwain at falansau treth ohiriedig.
- Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn agored i dreth gorfforaeth yn seiliedig ar elw trethadwy am y flwyddyn.

**Treth ohiriedig** yw treth gorfforaeth y disgwylir iddi fod yn daladwy (neu'n dderbyniadwy) yn y dyfodol o ganlyniad i wahaniaethau rhwng symiau cario asedau a rhwymedigaethau, at ddibenion adroddiadau

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

Darperir treth ohiriedig gan ddefnyddio dull atebolrwydd y fantolen ar unrhyw wahaniaethau dros dro rhwng symiau cario asedau a rhwymedigaethau at ddibenion adroddiadau ariannol a'r symiau a ddefnyddir at ddibenion trethiant. Mae swm y dreth ohiriedig a ddarperir yn seiliedig ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yn y cyfnod pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo neu pan gaiff yr ased ei wireddu gan ddefnyddio cyfraddau treth a gyhoeddir neu a gyhoeddir yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen.

Caiff asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig eu datgelu'n glir i'r graddau eu bod yn ymwneud â threthi a godwyd gan yr un awdurdod ac mae gan y Grŵp yr hawl i wrthgyfrif.

ariannol, a'r sylfeini treth cyfatebol a ddefnyddir i gyfrifo'r dreth gorfforaeth sy'n daladwy ar hyn o bryd.

## ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL

### Ewyllys da

Caffaeliadau ar neu wedi 1 Ebrill 2007 – yn ôl y gydnabyddiaeth gychwynnol mae ewyllys da yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng cost y caffaeliad a gwerth teg yr asedau net penodol a gaffaelwyd.

Caffaeliadau cyn 1 Ebrill 2007 – fel rhan o'r gwaith o fabwysiadu IFRS, yn unol ag IFRS 1 ar Fabwysiadu IFRS am y tro cyntaf, dewisodd y Grŵp ailddatgan y cyfuniadau busnes a ddigwyddodd ar neu wedi 1 Ebrill 2007 yn unig. Mewn perthynas â chaffaeliadau cyn 1 Ebrill 2007, cydnabyddir ewyllys da ar gost dybiedig sef y swm a gydnabuwyd yn flaenorol o dan safonau cyfrifyddu'r DU, yn amodol ar gael eu profi ar gyfer lleihad mewn gwerth ar y dyddiad hwnnw. Mae ewyllys da sy'n codi mewn cyfnodau hyd at 1 Ebrill 1998 yn parhau i gael ei wrthbwyso yn erbyn y gronfa weithredu wrth gefn, fel y caniatawyd gan UK GAAP ar y pryd.

Ewyllys da yn codi wrth gaffael cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt – cynhwysir hyn yn swm cario'r gyd-fenter neu'r bartneriaeth gyswllt ac fe'i profir ar gyfer lleihad mewn gwerth fel rhan o'r balans cyffredinol.

Mesur dilynol ewyllys da a gydnabyddir ar wahân – profir ewyllys da yn flynyddol ar gyfer lleihad mewn gwerth ac fe'i mesurir ar gost llai unrhyw golledion cronedig ar gyfer lleihad mewn gwerth. At ddibenion profi lleihad mewn gwerth dyrennir yr ewyllys da i unedau sy'n cynhyrchu arian parod ar sail y rhai y disgwylir iddynt elwa ar y cyfuniad busnes perthnasol.

**Ewyllys da** yw'r gwahaniaeth rhwng y gwerth a dalwyd am fusnes a gwerth teg ei asedau net. Mae'n cynrychioli'r premiwm y mae'r prynwr yn barod i'w dalu am y busnes.

### Asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â rhaglenni

Caiff asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â rhaglenni, sy'n cynnwys hawliau rhaglenni a hawliau rhaglenni gweddilliol, eu datgan ar gost, ar ôl dileu costau rhaglenni nad ystyrir yn adenilladwy, llai amorteiddiad cronedig. Caiff cost ac amorteiddiad cronedig asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â rhaglenni eu lleihau gan raglenni sy'n cael eu dileu yn llwyr.

### Gwariant ar ymchwil a datblygu – asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol

Caiff gwariant ar weithgareddau ymchwil ei ddileu yn y datganiad incwm pan eir iddo.

Dim ond os bodlonir yr holl amodau canlynol y cyfalafir gwariant ar weithgareddau datblygu:

- Crëir ased penodol;
- Mae'n debygol y bydd yr ased yn creu buddiannau economaidd yn y dyfodol;
- Gellir mesur costau datblygu'r ased yn ddibynadwy.

Mesurir yr asedau ar gost llai amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion cronedig o ran lleihad mewn gwerth.

Ar gyfer Grŵp UK PSB, mae'n annhebygol ar y cyfan y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol ar ffurf mewnlif arian parod yn cael eu derbyn, ac o ganlyniad, heblaw am asedau a grëir i'w defnyddio gan y busnes wrth gyflawni ei bwrpasau cyhoeddus, caiff costau datblygu ond eu cyfalafu gan fusnesau masnachol y Grŵp.

### Asedau anniriaethol eraill

Caiff asedau anniriaethol eraill a gaffaelwyd ar wahân gan y Grŵp eu datgan ar gost llai amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion cronedig o ran lleihad mewn gwerth. Dangosir yr asedau anniriaethol penodol a gaffaelwyd fel rhan o gyfuniad busnes ar werth teg ar y dyddiad caffael (yn unol ag IFRS 3 ar Gyfuniadau busnes (fel y'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2004)) llai amorteiddiad cronedig ac unrhyw golledion cronedig o ran lleihad mewn gwerth.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## Amorteiddio

Codir tâl amorteiddio ar y datganiad incwm ar sail llinell syth dros fywydau defnyddiol amcangyfrifedig asedau anniriaethol, o'r dyddiad y dônt ar gael i'w defnyddio, oni fydd bywydau o'r fath yn amhenodol. Mae bywydau defnyddiol a dulliau amorteiddio ar gyfer pob dosbarth mawr o ased anniriaethol fel a ganlyn:

- Hawliau rhaglenni a hawliau rhaglenni gweddilliol – bywyd marchnadwy cyfartalog amcangyfrifedig y genre rhaglenni, fel arfer rhwng 2 a 10 mlynedd
- Eitemau anniriaethol eraill:

| | | |
|---|---|---|
| – Teitl Lonely Planet | Llinell syth | 20 mlynedd |
| – Cytundebau cludo UK.TV | Llinell syth | 17 mlynedd |
| – Meddalwedd | Llinell syth | 2 – 5 mlynedd |
| – Arall | Llinell syth | 3 – 8 mlynedd |

Caiff dulliau amorteiddio, bywydau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar bob dyddiad mantolen a'u haddasu os yw hynny'n briodol.

## EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

### Asedau a berchenogir

Heblaw fel y nodir isod, datgelir eitemau o eiddo, offer a chyfarpar ar gost llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion cronedig o ran lleihad mewn gwerth.

Mae cost yn cynnwys gwariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael yr ased.

### Asedau ar brydles

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid eu cyfalafu o fewn eiddo, offer a chyfarpar a darperir dibrisiant fel y bo'n briodol. Yn ôl y gydnabyddiaeth gychwynnol mesurir yr ased ar yr isaf o'i werth teg a gwerth presennol y taliadau prydles gofynnol.

### Dibrisiant

Darperir dibrisiant i ddileu cost pob eitem o eiddo, offer a chyfarpar, llai ei gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, ar sail llinell syth dros ei bywyd defnyddiol amcangyfrifedig. Dibrisir prif gategorïau eiddo, offer a chyfarpar fel a ganlyn:

- **Tir ac adeiladau**

Tir rhydd-ddaliad – dim dibrisiant

Adeiladau rhydd-ddaliad ac adeiladau ar brydles hir – 50 mlynedd

Tir ac adeiladau ar brydles fer – tymor prydles annarfodedig

- **Offer a pheiriannau**

Cyfarpar cyfrifiadurol – 3 i 5 mlynedd

Seilwaith trydanol a mecanyddol – 10 i 25 mlynedd

Arall – 3 i 10 mlynedd

- **Dodrefn a ffitiadau** – 3 i 10 mlynedd

Adolygir dulliau dibrisio, bywydau defnyddiol amcangyfrifedig a gwerthoedd gweddilliol ar bob dyddiad cyflwyno adroddiadau.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## ASEDAU ANGHYFREDOL A DDELIR I'W GWERTHU

Dosberthir asedau anghyfredol (a grwpiau gwaredu sy'n cynnwys asedau a rhwymedigaethau) yn rhai a ddelir i'w gwerthu os caiff eu swm cario eu hadfer yn bennaf drwy eu gwerthu yn hytrach na pharhau i'w defnyddio, os ydynt ar gael i'w gwerthu ar unwaith ac os yw'n debygol iawn y cânt eu gwerthu.

Caiff asedau anghyfredol neu grwpiau gwaredu sydd, yn ôl y dosbarthiad cychwynnol, yn rhai a ddelir i'w gwerthu, eu mesur ar yr isaf o'u swm cario blaenorol a gwerth teg llai costau i'w gwerthu. Ni chodir tâl amorteiddio na dibrisio ar asedau anghyfredol (gan gynnwys y rhai mewn grwpiau gwaredu) a ddosberthir yn rhai a ddelir i'w gwerthu.

## ASEDAU A GWARIANT SY'N GYSYLLTIEDIG Â RHAGLENNI A STOCRESTRAU ERAILL

### Rhaglenni gwreiddiol a gwblhawyd, rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu a rhagdaliadau i gaffael hawliau sy'n gysylltiedig â rhaglenni yn y dyfodol

Nodir rhaglenni gwreiddiol, ac eithrio'r rhai a gomisiynwyd gan gynhyrchwyr annibynnol, ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net, a dilëir y gwerth llawn ar y darllediad cyntaf.

Mae'r gost yn cynnwys yr holl gostau uniongyrchol, gorbenion cynhyrchu a chyfran o orbenion priodoladwy eraill. Mae cyfran y rhaglenni sydd o reidrwydd yn cymryd cryn dipyn o amser i'w cynhyrchu yn fach ac fel y cyfryw ni chynhwysir costau benthyca yn y gost.

Mae'r gwerth gwireddadwy net yn seiliedig ar brisiau contract hyd braich a negodwyd rhwng rheolwyr y sianel a'r gwneuthurwyr rhaglenni. Os bydd eithriad na fydd rhaglen yn gallu cael ei darlledu, yna cyn gynted ag y bydd bron yn sicr mai felly y mae, caiff gwerth llawn y rhaglen ei drosglwyddo i'r datganiad incwm.

Codir costau datblygu rhaglenni ar y datganiad incwm hyd nes y ceir arwydd clir y bydd y gwaith datblygu yn arwain at gomisiynu rhaglen pan gaiff unrhyw gostau pellach eu cydnabod fel asedau sy'n gysylltiedig â rhaglenni.

Cydnabyddir rhaglenni gwreiddiol sy'n dal i gael eu cynhyrchu ar ddyddiad y fantolen fel rhaglenni sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu, ond dangosir rhagdaliadau i gaffael hawliau sy'n gysylltiedig â rhaglenni yn y dyfodol ar wahân lle mae'r BBC wedi gwneud taliadau i gynhyrchwyr annibynnol, neu ddalwyr hawliau penodol (er enghraifft, hawliau i ddarlledu digwyddiadau chwaraeon), i dderbyn y rhaglen pan gaiff ei chwblhau.

### Hawliau i ddarlledu rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd

Cydnabyddir yr hawliau i ddarlledu rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd ar gost. Dilëir costau rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd ar eu darllediad cyntaf ac eithrio i'r graddau bod darllediadau ychwanegol wedi eu trefnu'n gytundebol, ac os felly cânt eu dileu yn unol â'u proffil darlledu disgwyliedig. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â rhaglenni a gaffaelwyd ar yr adeg talu neu ar gychwyn cyfnod y drwydded, p'un bynnag sydd gyntaf. Datgelir cytundebau ar gyfer prynu rhaglenni yn y dyfodol nad yw eu cyfnod trwydded wedi cychwyn a lle na wnaed unrhyw daliad erbyn dyddiad y fantolen fel ymrwymiadau prynu.

Lle mae'r BBC wedi buddsoddi mewn cynyrchiadau annibynnol, yn ogystal â hawliau darlledu gall y BBC gael hawliau i freindaliadau yn y dyfodol o werthu hawliau sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad. Cydnabyddir y buddiannau gweddilliol hyn i ddechrau ar gost yn amodol ar amorteiddio wrth i freindaliadau gael eu derbyn a lleihad mewn gwerth os na fydd y breindaliadau rhagweledig yn cael eu gwireddu.

### Stocrestrau eraill

Nodir deunyddiau crai a stocrestrau ffisegol eraill, gan gynnwys nwyddau gorffenedig, ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

Fe'u cydnabyddir ar werth teg ar y cychwyn ac wedi hynny. Ar gyfer symiau masnach derbyniadwy gwneir hyn ar ôl pennu lwfans ar gyfer lleihad mewn gwerth amcangyfrifedig. Mae'r lwfans yn seiliedig ar dystiolaeth wrthrychol na fydd y Grŵp yn gallu adennill yr holl symiau sy'n ddyledus, drwy arolwg o'r holl gyfrifon a phrofiad blaenorol o gasglu balansau sy'n ddyledus. Cydnabyddir newidiadau yn swm cario'r lwfans yn y Datganiad Incwm Cyfunol.

## ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys balansau arian parod, adneuon prynu gydag aeddfedrwydd o dri mis neu lai.

## LLEIHAD MEWN GWERTH ASEDAU

### Asedau anariannol

Ar bob dyddiad mantolen, mae'r Grŵp yn adolygu swm cario'r asedau hynny sy'n amodol ar amorteiddio i benderfynu a oes unrhyw arwydd bod unrhyw un o'r asedau hynny wedi dioddef colled o ran lleihad mewn gwerth. Os bydd unrhyw arwydd i'w weld, amcangyfrifir swm adenilladwy yr ased er mwyn penderfynu ar raddau unrhyw golled o ran lleihad mewn gwerth.

O ran ewyllys da amcangyfrifir y swm adenilladwy bob blwyddyn ar yr un pryd.

Mae **lleihad mewn gwerth** yn digwydd pan fyddai ased yn cael ei gofnodi fel arall yn y datganiadau ariannol fel swm sy'n llai na'r swm sy'n adenilladwy o'i ddefnyddio neu ei werthu.

Swm adenilladwy ased neu uned cynhyrchu arian parod yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth mewn defnydd. Wrth asesu gwerth mewn defnydd, caiff llifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol eu disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau marchnad cyfredol o werth amser arian a'r risgiau sy'n benodol i'r ased nad addaswyd amcangyfrifon llifau arian parod yn y dyfodol ar eu cyfer. At ddibenion asesu lleihad mewn gwerth, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf y mae llifau arian parod penodol ar wahân ar eu cyfer (unedau sy'n cynhyrchu arian parod).

Cydnabyddir colled o ran lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm ar gyfer y swm y mae swm cario'r ased yn fwy na'r swm adenilladwy. Lle mae uned sy'n cynhyrchu arian parod wedi lleihau mewn gwerth bydd y golled o ran lleihad mewn gwerth wedi ei dyrannu i ddechrau i leihau ewyllys da ac wedyn i'r asedau eraill yn yr uned cynhyrchu arian parod ar sail pro rata, ond ni fydd swm cario unrhyw ased unigol yn cael ei leihau o dan ei swm adenilladwy penodol ar wahân.

Ni chaiff colledion o ran lleihad mewn gwerth mewn perthynas ag ewyllys da eu gwrthdroi. O ran asedau heblaw am ewyllys da, caiff colled o ran lleihad mewn gwerth ei wrthdroi os oes newid wedi bod yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y swm adenilladwy. Dim ond i'r graddau nad yw swm cario'r ased yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi cael ei benderfynu, yn glir o ddibrisiant neu amorteiddiad, pe na bai unrhyw golled o ran lleihad mewn gwerth wedi ei chydnabod, y caiff colled o ran lleihad mewn gwerth ei gwrthdroi.

Ni chaiff ewyllys da sy'n rhan o swm cario buddsoddiad mewn partneriaeth gyswllt ei gydnabod ar wahân, ac felly ni chaiff ei brofi ar gyfer lleihad mewn gwerth ar wahân. Yn hytrach, profir swm cyfan y buddsoddiad mewn partneriaeth gyswllt ar gyfer lleihad mewn gwerth fel ased sengl pan fo tystiolaeth wrthrychol y gallai buddsoddiad mewn partneriaeth gyswllt fod wedi lleihau mewn gwerth.

### Asedau ariannol

Asesir ased ariannol ar bob dyddiad mantolen i benderfynu a oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol fod lleihad mewn gwerth. Profir asedau ariannol sylweddol unigol ar gyfer lleihad mewn gwerth ar sail unigol. Asesir yr asedau ariannol sy'n weddill gyda'i gilydd mewn grwpiau sy'n rhannu nodweddion risg credyd tebyg.

Cydnabyddir yr holl golledion o ran lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## OFFERYNNAU ARIANNOL

Nodir offerynnau ariannol anneilliadol y Grŵp (gan gynnwys asedau megis buddsoddiadau masnach a rhwymedigaethau megis benthyciadau) ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd mewn grym, llai unrhyw golledion o ran lleihad mewn gwerth.

### Offerynnau ariannol deilliadol

Nid yw'r Grŵp yn ymrwymo i gontractau deilliadol hapfasnachol. Fodd bynnag, defnyddir rhai offerynnau ariannol deilliadol gyda'r bwriad o reoli amlygiad y BBC i amrywiadau mewn cyfraddau llog (cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog) a chyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor (blaengontractau arian cyfred tramor, opsiynau arian cyfred).

Cydnabyddir offerynnau ariannol deilliadol ar werth teg i gychwyn a chânt eu hailfesur ar ôl hynny ar werth teg ar ddyddiad y fantolen gyda symudiadau yn cael eu cofnodi yn y datganiad incwm.

Gwerth teg cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yw'r swm amcangyfrifedig y byddai'r Grŵp yn ei dderbyn neu'n ei dalu i derfynu'r cyfnewidiad, y cap neu'r coler ar ddyddiad y fantolen, gan ystyried cyfraddau llog cyfredol y cyfrif a theilyngdod cyfredol gwrthbartïon y cyfnewid, y cap neu'r coler o ran credyd.

Pennir gwerth teg blaengyfraddau contractau arian cyfred tramor drwy ddefnyddio blaengyfraddau cyfnewid y farchnad ar ddyddiad y fantolen.

### Cyfrifyddu ar sail rhagfantoli

Cydnabyddir y newidiadau gwerth teg ar offerynnau rhagfantoli (blaengyfraddau cyfnewid arian cyfred tramor) yng nghostau gweithredu'r cyfnod perthnasol. Fodd bynnag, lle y dynodir offeryn ariannol ac y bo'n effeithiol fel eitem rhagfantoli buddsoddiad net gweithrediad tramor neu eitem rhagfantoli llif arian parod pryniannau neu werthiannau mewn arian cyfred tramor, caiff unrhyw wahaniaethau cyfnewid sy'n codi wrth aildrosi'r offeryn ariannol eu cydnabod yn uniongyrchol yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr. Cydnabyddir unrhyw ran aneffeithiol ar unwaith yn y cyfrif incwm a gwariant.

### Deilliadau Sefydlog

Caiff deilliadau a ymgorfforir mewn offerynnau ariannol eraill neu gontractau cynnal eraill eu trin fel deilliadau ar wahân pan na fydd eu risgiau na'u nodweddion yn gysylltiedig iawn â rhai'r contractau cynnal, a phan na chaiff y contractau eu cario ar werth teg. Caiff deilliadau sefydlog eu cario ar werth teg yn y fantolen o adeg sefydlu'r contract cynnal. Cydnabyddir newidiadau nas gwireddwyd mewn gwerth teg fel enillion/colledion o fewn y datganiad incwm yn ystod y cyfnod y maent yn codi ynddo.

## SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL

Cydnabyddir symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill ar y dechrau ar eu gwerth teg ac wedyn ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog sydd mewn grym.

## BUDDSODDIADAU MEWN GWARANNAU ECWITI

Dosberthir buddsoddiadau mewn gwarannau ecwiti a ddelir gan y grŵp yn rhai sydd ar gael i'w gwerthu ac fe'u nodir ar werth teg gydag unrhyw ennill neu golled ganlyniadol yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti, heblaw am golledion o ran lleihad mewn gwerth. Pan ddadgydnabyddir y buddsoddiadau hyn cydnabyddir yr ennill neu'r golled a gydnabuwyd yn flaenorol yn uniongyrchol mewn ecwiti yn y datganiad incwm.

## DARPARIAETHAU

Cydnabyddir darpariaeth yn y fantolen pan fo gan y Grŵp ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol cyfredol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddiannau economaidd er mwyn setlo'r ymrwymiad. Caiff darpariaethau, heblaw treth ohiriedig, sy'n daladwy dros nifer o flynyddoedd eu disgowntio i'r gwerth presennol net ar ddyddiad y fantolen gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio sy'n briodol i'r ddarpariaeth benodol dan sylw.

Mae **offerynnau ariannol** yn cynnwys yr holl drefniadau cytundebol i gyflawni neu dderbyn arian parod. Felly maent yn cynnwys eitemau masnach derbyniadwy ac eitemau taladwy a benthyciadau yn ogystal ag offerynnau mwy cymhleth megis deilliadau.

Mae **blaengontractau cyfnewid** yn eich galluogi i brynu neu werthu arian cyfred ar gyfradd gyfnewid sefydlog a chyflwyno'r cynnyrch ar ddyddiad neu ddyddiadau penodol yn y dyfodol.

Mae **capiau cyfradd llog** yn diogelu rhag cynnydd mewn cyfraddau llog, drwy osod terfyn uchaf (cap) ar y gyfradd llog gyfnewidiol, tra'n caniatáu ar gyfer budd cyfraddau llog gostyngol o hyd.

Mae **coleri cyfradd llog** yr un peth â chapiau cyfradd llog heblaw bod terfyn is hefyd wedi ei bennu ar gyfer y gyfradd llog gyfnewidiol.

I bob diben, mae **cyfnewidiadau cyfradd llog** yn newid benthyciad cyfradd gyfnewidiol yn fenthyciad cyfradd sefydlog, neu fel arall.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## BUDDIANNAU CYFLOGEION

### Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Mae'r symiau a godir fel gwariant ar gyfer y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy gan y BBC ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu.

### Cynlluniau buddiannau diffiniedig

Mae'r cynlluniau buddiannau diffiniedig, y mae'r rhan fwyaf o staff yn aelodau ohonynt, yn darparu buddiannau yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol, neu gyflog pensiynadwy cyfartaledd gyrfa. Mae asedau prif gynllun pensiwn y BBC wedi'u dal ar wahân i asedau'r grŵp.

Pan fyddant yn ymddeol, telir pensiwn i aelodau prif **gynllun pensiwn** y BBC o gronfa a gedwir ar wahân i'r grŵp. Gwna'r BBC gyfraniadau arian parod i'r gronfa honno cyn ymddeoliad aelodau.

Mesurir asedau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio gwerthoedd cynnig cyfredol y farchnad. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio dull credyd unedau rhagamcanol a chânt eu disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaeth ansawdd uchel y mae ei gyfnod a'i arian cyfred yn cyfateb i'r rhwymedigaeth.

Y gwahaniaeth rhwng gwerth asedau'r cynllun pensiwn a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yw gwarged neu ddiffyg. Cydnabyddir gwarged cynllun pensiwn i'r graddau y mae'n adenilladwy a chydnabyddir diffyg cynllun pensiwn yn llawn. Rhennir y symudiad yng ngwarged/diffyg y cynllun rhwng taliadau gweithredu, eitemau cyllid ac, yn y datganiad o gyfanswm yr incwm cynhwysfawr, enillion a cholledion actiwaraidd. Yn gyffredinol, codir symiau ar y gwariant gweithredu ar sail cost gyfredol gwasanaeth y cyflogeion presennol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC.

### Buddiannau terfynu

Mae buddiannau terfynu yn elfen o ddarpariaethau ailstrwythuro ac fe'u cydnabyddir fel traul yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer darpariaethau.

### Buddiannau eraill cyflogeion

Cydnabyddir buddiannau cyflogeion byrdymor a hirdymor eraill, gan gynnwys tâl gwyliau a gwyliau gwasanaeth hir, fel traul dros y cyfnod y maent yn cronni ynddo.

## CRONFEYDD WRTH GEFN

Y gronfa weithredu wrth gefn yw'r warged gronedig hyd yma.

Mae cronfeydd wrth gefn eraill yn cynrychioli gwerth opsiwn gwerthu y gellir ei ymarfer gan gyfranddeiliaid lleiafrifol.

Defnyddir y gronfa ragfantoli wrth gefn i gofnodi cyfran wirioneddol y newid net cronnol yng ngwerth teg offerynnau rhagfantoli llif arian parod sy'n gysylltiedig â thrafodion rhagfantoli nad ydynt wedi digwydd eto (yn glir o dreth).

Defnyddir y gronfa drosi wrth gefn i gofnodi gwahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o aildrosi'r asedau net a chanlyniadau is-gwmnïau tramor.

## ADRODD AR DRWYDDEDAU GWASANAETH

Defnyddir trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC i reoleiddio gwasanaethau'r BBC a sicrhau bod pob gwasanaeth yn anelu at ddarparu gwerth cyhoeddus a chyfrannu at gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC. Mae Nodyn 2 yn rhoi mwy o fanylion am sut y dyrennir costau i wasanaethau unigol.

## DEFNYDDIO AMCANGYFRIFON AC ARDDEL BARN

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IFRS yn galw am ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu critigol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol arddel barn wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Grŵp. Nodir isod y meysydd lle mae angen arddel llawer mwy o farn a'r meysydd llawer mwy cymhleth, neu'r meysydd lle mae tybiaethau neu amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol cyfunol:

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## Buddiannau ôl-ymddeol

Cyfrifir costau pensiwn a rhwymedigaethau cynlluniau buddiannau diffiniedig y Grŵp ar sail ystod o dybiaethau, gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio, y gyfradd chwyddiant, twf mewn cyflogau a marwolaethau. Caiff gwahaniaethau sy'n codi o ganlyniad i brofiad gwirioneddol sy'n wahanol i'r tybiaethau, neu newidiadau yn y dyfodol i'r tybiaethau eu hadlewyrchu mewn cyfnodau dilynol. Gall newid bach mewn tybiaethau gael effaith sylweddol ar brisiad y rhwymedigaethau. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 23.

## Gwerth cario ewyllys da.

Mae penderfynu a yw ewyllys da wedi lleihau mewn gwerth yn galw am amcangyfrif gwerth y defnydd o'r unedau cynhyrchu arian parod y dyrannwyd yr ewyllys da iddynt. Mae'r cyfrifiad gwerth mewn defnydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r endid amcangyfrif y llifau arian parod yn y dyfodol y disgwylir iddynt godi o'r uned cynhyrchu arian parod a chyfradd ddisgowntio addas sy'n adlewyrchu asesiadau cyfredol y farchnad o'r risgiau sy'n benodol i'r ased a gwerth amser arian, er mwyn cyfrifo gwerth presennol. Cyfeiriwch at Nodyn 9 am ragor o fanylion am gyfrifo'r golled o ran lleihad mewn gwerth ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

## Prydlesau

Wrth asesu a yw prydles yn brydles weithredu neu'n brydles gyllid, mae angen arddel barn i benderfynu a ddelir yr holl risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased ar brydles i raddau helaeth gan y Grŵp ai peidio. O gofio bod prydlesau cyllid yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau, ond nid prydlesau gweithredu, gall hyn gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y BBC a gofnodir. Mae enghreifftiau allweddol eraill o arddel barn yn cynnwys penderfynu ar ddyddiad cychwyn prydles a'r amcangyfrif o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'w gynnwys yn y taliadau prydles gofynnol.

## Darpariaethau

Defnyddir technegau arddel barn ac amcangyfrif i gyfrifo'r amcangyfrif gorau o'r swm sy'n ofynnol i setlo rhwymedigaethau, gan gynnwys penderfynu pa mor debygol ydyw y bydd angen gwariant ar y BBC. Gall hyn fod yn gymhleth iawn, yn enwedig pan fydd ystod eang o ganlyniadau posibl.

## Safonau a dehongliadau newydd nas mabwysiadwyd eto

Ar ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn, roedd y Safonau a'r Dehongliadau canlynol nas cymhwyswyd yn y datganiadau ariannol hyn wedi eu cyhoeddi ond nid oeddent eto mewn grym.

| | |
|---|---|
| IFRS 1 (diwygiwyd)/IAS 27 (diwygiwyd) | *Cost of an Investment in a Subsidiary, Jointly Controlled Entity or Associate* |
| IFRS 3 (diwygiedig 2008) | Business Combinations |
| IFRS 5 (diwygiwyd) | Non Current Assets held for sale and discontinued operations |
| IAS 17 (diwygiedig) | Leases |
| IAS 27 (diwygiedig 2008) | Consolidated and Separate Financial Statements |
| IAS 28 (diwygiedig 2008) | Investments in Associates |
| IFRIC 17 | Distributions of Non-cash Assets to Owners |
| IFRIC 18 | Transfers of Assets From Customers |
| IFRIC 19 | Extinguishing Financial Liabilities with Equity Instruments |
| Improvements to IFRSs (Ebrill 2009) | |

Nid yw'r Grŵp yn disgwyl y bydd mabwysiadu'r Safonau na'r Dehongliadau hyn mewn cyfnodau yn y dyfodol yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 1 CYFLWYNO ADRODDIADAU AR SEGMENTAU

Mae'r Bwrdd Gweithredol, prif benderfynwyr gweithredu'r Grŵp, wedi penderfynu ar y segmentau y cyflwynir adroddiadau arnynt yn seiliedig ar yr adroddiadau y mae'n eu hadolygu'n rheolaidd ac yn eu defnyddio i wneud penderfyniadau strategol ac i ddyrannu adnoddau.

Mae'r wybodaeth am segmentau a ddarperir i Fwrdd Gweithredol y BBC yn seiliedig ar brif ffynonellau incwm Grŵp y BBC. Y segmentau y cyflwynir adroddiadau arnynt yw:

- Grŵp UK PSB – Mae hwn yn cael incwm ffi'r drwydded yn bennaf ac yn gyfrifol am weithgareddau sector cyhoeddus y gr ŵp. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ei rwymedigaethau o dan Fframwaith Gweithredu'r Drwydded Gwasanaeth a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC.
- BBC World Service a BBC Monitoring – Ariennir y rhain gan Gymorth Grant gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad.
- BBC Worldwide a'r busnesau Masnachol – Mae'r rhain yn cynhyrchu refeniw drwy ddefnyddio asedau amrywiol y BBC, er enghraifft, fformatau trwyddedu, gwerthu hawliau rhyngwladol, deunydd marchnata a chyfleusterau cynhyrchu.

Cyfunwyd gweithgareddau Masnachol Eraill y BBC at ddibenion adrodd gan eu bod yn bodloni'r trothwyon meintiol a nodir yn IFRS 8.

Penderfynir ar brisio rhwng segmentau ar sail hyd braich yn unol â pholisi masnachu teg y BBC.

Ni chyflwynir gwybodaeth am asedau na rhwymedigaethau segmentau y cyflwynir adroddiadau arnynt i'r Bwrdd Gweithredol.

Cyflwynir gwariant UK PSB fesul trwydded gwasanaeth hefyd yn Nodyn 2c.

### 1a Dadansoddiad o incwm

| 2010 | Nodyn | Grŵp UK PSB £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | BBC Worldwide £m | Busnesau Masnachol Eraill £m | Addasiadau Grŵp £m | Grŵp £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm ffi'r drwydded | 2a | 3,446.8 | – | – | – | – | 3,446.8 |
| Incwm cyd-fentrau | 11 | 4.9 | – | 185.9 | – | – | 190.8 |
| Incwm rhent | | 19.3 | – | – | – | – | 19.3 |
| Breindaliadau | | 3.9 | – | 45.3 | 0.6 | – | 49.8 |
| Refeniw arall* | | 283.8 | 7.9 | 843.0 | 122.0 | – | 1,256.7 |
| Cymorth Grant | | – | 293.0 | – | – | – | 293.0 |
| Incwm grant arall | | 5.0 | – | – | – | – | 5.0 |
| Llai incwm mewnol y Grŵp | | (219.6) | (1.5) | – | (48.9) | (10.2) | (280.2) |
| Incwm arall | | 92.4 | 299.4 | 888.3 | 73.7 | (10.2) | 1,343.6 |
| | | 3,544.1 | 299.4 | 1,074.2 | 73.7 | (10.2) | 4,981.2 |
| Llai incwm cyd-fentrau | 11 | (4.9) | – | (185.9) | – | – | (190.8) |
| **Cyfanswm incwm** | | 3,539.2 | 299.4 | 888.3 | 73.7 | (10.2) | 4,790.4 |

* Mae refeniw arall yn deillio o weithgareddau megis gwerthu nwyddau, darparu gwasanaethau a rhoi trwyddedau.

Mae Nodyn 1 yn darparu dadansoddiad o'r segmentau gwahanol o fewn y BBC. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r modd y mae'r rheolwyr yn ystyried y sefydliad.

Mae **Grŵp UK Public Service Broadcasting** yn cynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (fel y'u diffinnir yn y Cytundeb) a'r is-gwmnïau hynny a ymgorfforir i weithredu ar ran y gweithrediadau gwasanaeth cyhoeddus hynny yn unig.

Mae **BBC World Service a BBC Monitoring** yn cynnwys gweithgareddau monitro darlledu a'r cyfryngau.

Mae **BBC Worldwide a Busnesau Masnachol Eraill** yn cynnwys busnesau sy'n cynhyrchu incwm allanol wrth ddefnyddio rhaglenni'r BBC, asedau eraill a'r cyflenwad o sgiliau.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
## PARHAD

### 1a Dadansoddi incwm parhad

| 2009 | Nodyn | Grŵp UK PSB £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | BBC Worldwide £m | Busnesau Masnachol Eraill £m | Addasiadau Grŵp £m | Grŵp £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm o ffi'r drwydded | 2a | 3,494.4 | – | – | – | – | 3,494.4 |
| Incwm cyd-fentrau | 11 | 1.5 | – | 299.0 | – | – | 300.5 |
| Incwm rhent | | 15.2 | – | – | – | – | 15.2 |
| Breindaliadau | | 4.1 | – | 41.8 | 0.6 | – | 46.5 |
| Refeniw arall | | 255.3 | 7.6 | 662.8 | 128.7 | – | 1,054.4 |
| Cymorth Grant | | – | 289.6 | – | – | – | 289.6 |
| Incwm grant arall | | 5.0 | – | – | – | – | 5.0 |
| Llai incwm mewnol y Grŵp | | (185.6) | (0.7) | – | (50.5) | (7.5) | (244.3) |
| Incwm arall | | 94.0 | 296.5 | 704.6 | 78.8 | (7.5) | 1,166.4 |
| | | 3,589.9 | 296.5 | 1,003.6 | 78.8 | (7.5) | 4,961.3 |
| Llai incwm cyd-fentrau | 11 | (1.5) | – | (299.0) | – | – | (300.5) |
| **Cyfanswm incwm** | | 3,588.4 | 296.5 | 704.6 | 78.8 | (7.5) | 4,660.8 |

### 1b Dadansoddiad o incwm, gwarged/(diffyg) yn ôl gweithgaredd

| **2010** | Nodyn | **Grŵp UK PSB £m** | **BBC World Service a BBC Monitoring £m** | **BBC Worldwide £m** | **Busnesau Masnachol Eraill £m** | ***Addasiadau Grŵp £m** | **Grŵp £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
** Mae ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn flaenorol yn adlewyrchu caffael UK.TV. Dyrannwyd yr ewyllys da hwn i'r grŵp o asedau neu unedau sy'n cynhyrchu incwm arian parod o fewn segment BBC Worldwide y disgwylir iddynt gael budd o'r cyfuniad busnes.

*** Mae'r tâl o £2.9miliwn a godwyd am leihad mewn gwerth ac a gofnodwyd yn erbyn eitemau anniriaethol eraill yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ymwneud yn bennaf â therfynu'r gyd-fenter Kangaroo yn BBC Worldwide. Mae'r golled oherwydd lleihad mewn gwerth sy'n ymwneud â'r gyd-fenter Kangaroo wedi'i chynnwys yn y golled o derfynu busnesau yn y datganiad incwm ond mae'r golled oherwydd lleihad mewn gwerth sy'n weddill wedi'i chynnwys yng nghyfanswm y costau gweithredu.

### 9b Ewyllys da

Cydnabyddir pob ewyllys da yn BBC Worldwide. Mae ychwanegiadau ewyllys da yn ystod y flwyddyn gyfredol yn adlewyrchu caffael 2entertain Limited (gweler Nodyn 19a). Mae ewyllys da o £14.7miliwn a drosglwyddwyd o fuddsoddiad mewn cyd-fentrau a gododd ar adeg caffael wreiddiol y Grŵp o fudd o 60% yn 2entertain Limited wedi'i gynnwys o fewn ychwanegiadau o £25.3miliwn.

Dadansoddir ewyllys da, a ddyrennir yn ôl uned cynhyrchu incwm arian parod fel a ganlyn:

| Ewyllys da yn ôl uned cynhyrchu incwm arian parod | **2010 £m** | 2009 £m |
|---|---|---|
| Busnes Teithlyfrau Awstralaidd | **64.2** | 68.7 |
| Busnes Dosbarthu DVDs | **25.3** | – |
| Unedau eraill sy'n cynhyrchu incwm arian parod | **13.3** | 18.3 |
| | **102.8** | 87.0 |

Mae'r lleihad yng ngwerth yr ewyllys da yn ystod y flwyddyn gyfredol yn ymwneud â'r busnes Teithlyfrau Awstralaidd.

Mae swm adenilladwy pob uned sy'n cynhyrchu incwm arian parod yn seiliedig ar gyfrifiadau gwerth mewn defnydd. Cyfrifwyd gwerth presennol llifau arian parod yn y dyfodol drwy gymhwyso cyfraddau disgowntio cyn treth at lifau arian parod cyn treth.

Mae'r Grŵp yn profi ewyllys da o ran lleihad mewn gwerth yn y cyfnod cyfrifyddu y mae busnesau'n cyfuno, a bob blwyddyn wedi hynny, neu, yn amlach, os oes arwyddion bod lleihad yng ngwerth yr ewyllys da o bosibl. Ni chydnabuwyd unrhyw leihad yng ngwerth yr ewyllys da yn ystod y flwyddyn flaenorol nac ar ddyddiad trosglwyddo i IRFS.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 9 ASEDAU ANNIRIAETHOL parhad

### 9b Ewyllys da parhad

**Busnes teithlyfrau Awstralaidd**

Cododd yr ewyllys da yn yr uned hon sy'n cynhyrchu incwm arian parod o ganlyniad i gaffael Lonely Planet ar 1 Hydref 2007. Cydnabuwyd tâl lleihad mewn gwerth o £17.5miliwn yn yr uned hon yn ystod 2010, gan arwain at ostwng gwerth cario'r ewyllys da yn yr uned hon i'w swm adenilladwy. Mae'r tâl lleihad mewn gwerth yn adlewyrchu cryfder doler Awstralia o'i chymharu â doler yr UD a'r bunt ar ddyddiad profi lleihad mewn gwerth.

Mae llifau arian parod amcangyfrifedig y cynllun busnes cyfredol a ddefnyddiwyd wrth bennu swm adenilladwy yr uned yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd ar 31 Mawrth 2009 gan eu bod yn parhau i fod yn unol â disgwyliad rheolwyr o ran perfformiad yr uned. Mae'r uned yn parhau i gyflawni ei thargedau byrdymor ac i ehangu ym marchnadoedd allweddol y DU a'r UD. Fodd bynnag, ar ôl trosi'r llifau arian parod amcangyfrifedig nad ydynt yn rhai Awstralaidd i ddoler Awstralia er mwyn profi lleihad mewn gwerth ar y cyfraddau cyfnewid cymharol wan ar y pryd ar ddyddiad profi lleihad mewn gwerth, mae'r swm adenilladwy wedi mynd yn is na'r gwerth cario a bu lleihad mewn gwerth yn angenrheidiol. Pe bai'r cyfraddau cyfnewid ar 28 Chwefror 2010, pan gyflawnwyd y profion, wedi aros yn gyson â chyfraddau 31 Mawrth 2009, byddai'r gwerth adenilladwy wedi mynd y tu hwnt i'r gwerth cario ac ni fyddai unrhyw dâl lleihad mewn gwerth wedi ei gofnodi.

Wrth gyfrifo'r swm adenilladwy defnyddir rhagamcanion o lifau arian parod yn seiliedig ar y cynllun busnes cyfredol a gymeradwywyd gan reolwyr am gyfnod o ddeng mlynedd a chyfradd ddisgowntio o 12.8% (2009: 12.6%). Roedd y cyfrifiad yn gofyn am gyfnod rhagamcan o ddeng mlynedd er mwyn asesu'n llawn effaith trosglwyddo'n raddol i ddarparu cynnwys digidol y disgwylir iddo gynyddu'r busnes yn sylweddol y tu hwnt i'r dyfodol agos. Yn ogystal â darparu cynnwys digidol, mae'r busnes yn bwriadu defnyddio galluoedd ar-lein i ddarparu gwasanaeth ehangach. Y tu hwnt i'r cyfnod hwn o ddeng mlynedd cyfrifwyd gwerth terfynol gan ddefnyddio cyfradd twf o 3%. Nid yw'r gyfradd twf hon yn mynd y tu hwnt i gyfradd twf gyfartalog hirdymor y farchnad y mae Lonely Plant yn gweithredu ynddi.

Y prif dybiaethau yr oedd y rhagamcanion o lifau arian parod yn seiliedig arnynt yw twf y farchnad deithio a chyfran y Grŵp o farchnadoedd allweddol, sef yr UD, y DU ac Awstralia.

Wrth bennu gwerth i'w roi ar dwf y farchnad deithio yn y byrdymor defnyddiodd y Grŵp y Mynegai Hyder Defnyddwyr, sy'n nodi effaith ar y busnes sydd fel arfer i'w gweld ymhen 5-7 mis. Yn y tymor hwy, pennwyd gwerth yn unol â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth ('CMC') a rhagolygon ar gyfer twf economaidd.

Defnyddiwyd profiad yn y gorffennol i roi gwerth ar gyfran y Grŵp o farchnadoedd allweddol.

**Busnes dosbarthu DVDs**

Cododd yr ewyllys da yn yr uned hon o ganlyniad i gaffael 2entertain yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhagamcanion o lifau arian parod a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r swm adenilladwy yn seiliedig ar y cynllun busnes cyfredol a gymeradwywyd gan reolwyr am gyfnod o bum mlynedd a chânt eu hallosod drwy ddefnyddio cyfradd twf ddisgwyliedig o 1%. Cymhwyswyd cyfradd ddisgownt o 19.9% at y llifau arian parod. Wrth lunio'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r swm adenilladwy, mae'r Grŵp wedi defnyddio disgwyliadau tueddiadau hirdymor ar gyfer y diwydiant dosbarthu DVDs.

Cred rheolwyr na fyddai unrhyw newid sy'n bosibl yn rhesymol yn y tybiaethau allweddol y mae swm adenilladwy'r busnes dosbarthu DVDs yn seiliedig arnynt yn peri i'r swm cario fynd y tu hwnt i'w swm adenilladwy.

**Unedau eraill sy'n cynhyrchu incwm arian parod**

Mae unedau eraill yn cynnwys busnes sianelau Awstralaidd, busnes llyfrau sain a busnes cylchgronau'r DU. Nid yw'r unedau hyn yn arwyddocaol yn unigol.

Cred rheolwyr na fyddai unrhyw newid sy'n bosibl yn rhesymol yn y tybiaethau allweddol y mae'r symiau adenilladwy yn seiliedig arnynt yn peri i'r symiau cario fynd y tu hwnt i'r symiau adenilladwy.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP

PARHAD

## 10 EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

### 10a Swm cario a dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 851.2 | 956.5 | 157.5 | 64.3 | **2,029.5** |
| Ychwanegiadau | 20.7 | 54.7 | 9.1 | 57.0 | **141.5** |
| Dygwyd i wasanaeth | 1.1 | 26.2 | 3.0 | (30.3) | **–** |
| Gwarediadau | (2.7) | (61.1) | (9.1) | (0.4) | **(73.3)** |
| Trosglwyddiadau | (0.1) | 8.2 | (8.2) | 0.1 | **–** |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | (1.4) | – | – | – | **(1.4)** |
| Symudiadau cyfnewid | 0.9 | 2.1 | 0.5 | – | **3.5** |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 869.7 | 986.6 | 152.8 | 90.7 | **2,099.8** |
| Ychwanegiadau ar adeg caffael | – | 0.7 | – | – | **0.7** |
| Ychwanegiadau | 25.0 | 39.7 | 12.2 | 48.3 | **125.2** |
| Dygwyd i wasanaeth | 10.5 | 40.3 | 5.1 | (55.9) | **–** |
| Gwarediadau | (20.3) | (64.7) | (2.6) | (0.6) | **(88.2)** |
| Dileu* | – | – | – | (6.7) | **(6.7)** |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | (0.7) | (0.5) | (0.8) | – | **(2.0)** |
| Symudiadau cyfnewid | (0.1) | 2.8 | 0.8 | 0.5 | **4.0** |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **884.1** | **1,004.9** | **167.5** | **76.3** | **2,132.8** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 177.4 | 569.1 | 71.1 | – | **817.6** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 30.2 | 91.7 | 15.8 | – | **137.7** |
| Gwarediadau | (1.4) | (53.6) | (5.1) | – | **(60.1)** |
| Trosglwyddiadau | – | 3.2 | (3.2) | – | **–** |
| Lleihad mewn gwerth | 3.7 | 9.8 | 0.8 | – | **14.3** |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | (0.8) | – | – | – | **(0.8)** |
| Addasiadau cyfnewid | 0.7 | 1.8 | 0.4 | – | **2.9** |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 209.8 | 622.0 | 79.8 | – | **911.6** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 30.2 | 91.6 | 17.7 | – | **139.5** |
| Gwarediadau | (10.1) | (63.8) | (2.4) | – | **(76.3)** |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – | **–** |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | (0.4) | (0.4) | (0.7) | – | **(1.5)** |
| Addasiadau cyfnewid | (0.1) | 1.5 | 1.0 | – | **2.4** |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **229.4** | **650.9** | **95.4** | **–** | **975.7** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **654.7** | **354.0** | **72.1** | **76.3** | **1,157.1** |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 659.9 | 364.6 | 73.0 | 90.7 | 1,188.2 |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 673.8 | 387.4 | 86.4 | 64.3 | 1,211.9 |

* Cafwyd y dileu gwerth £6.7miliwn yn 'asedau sy'n cael eu hadeiladu' UK PSB o ganlyniad i ailbennu cwmpas prosiect Menter Cyfryngau Digidol (DMI) er mwyn ei ddarparu fel offeryn cynhyrchu digidol cyflawn 'o'r dechrau i'r diwedd'.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 10 EIDDO, OFFER A CHYFARPAR parhad

### 10a Eiddo, offer a chyfarpar a ddelir o dan brydlesau cyllid

| | Tir ac adeiladau £m | Offer a pheiriannau £m | Dodrefn a ffitiadau £m | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **448.7** | **28.7** | **–** | **–** | **477.4** |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 467.2 | 36.8 | – | – | 504.0 |
| Ar 31 Mawrth 2008 | 474.4 | 45.0 | 0.4 | – | 519.8 |

## 11 BUDDIANNAU MEWN PARTNERIAETHAU CYSWLLT A CHYD-FENTRAU

Rhoddir manylion am gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt arwyddocaol ynghyd â phrif is-gwmnïau, yn cynnwys eu gweithgareddau, yn Nodyn 26.

| | Cyfran y grŵp o gyd-fentrau | | | Cyfran y grŵp o bartneriaethau cyswllt | | | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
| Asedau cyfredol | **107.6** | 165.1 | 178.3 | **33.0** | 39.0 | 46.7 | **140.6** | 204.1 | 225.0 |
| Asedau anghyfredol | **24.2** | 29.2 | 19.6 | **13.0** | 18.7 | 8.9 | **37.2** | 47.9 | 28.5 |
| Cyfanswm yr asedau | **131.8** | 194.3 | 197.9 | **46.0** | 57.7 | 55.6 | **177.8** | 252.0 | 253.5 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(53.0)** | (96.5) | (110.2) | **(41.0)** | (38.5) | (41.5) | **(94.0)** | (135.0) | (151.7) |
| Rhwymedigaethau anghyfredol | **(84.0)** | (88.6) | (84.3) | **(192.3)** | (212.5) | (122.2) | **(276.3)** | (301.1) | (206.5) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau | **(137.0)** | (185.1) | (194.5) | **(233.3)** | (251.0) | (163.7) | **(370.3)** | (436.1) | (358.2) |
| Addasiad i adlewyrchu rhwymedigaeth wirioneddol | **34.6** | 22.8 | 42.5 | **185.4** | 191.4 | 107.9 | **220.0** | 214.2 | 150.4 |
| Ewyllys da | **2.6** | 19.7 | 21.5 | **13.5** | 13.6 | 4.1 | **16.1** | 33.3 | 25.6 |
| **Cyfanswm y gwerth llyfr net** | **32.0** | 51.7 | 67.4 | **11.6** | 11.7 | 3.9 | **43.6** | 63.4 | 71.3 |
| **Cyflwynir y gwerth llyfr net o fewn:** | | | | | | | | | |
| Buddiant mewn partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **46.2** | 72.0 | 67.4 | **11.6** | 11.7 | 3.9 | **57.8** | 83.7 | 71.3 |
| Darpariaethau* | **(14.2)** | (20.3) | – | **–** | – | – | **(14.2)** | (20.3) | – |
| | **32.0** | 51.7 | 67.4 | **11.6** | 11.7 | 3.9 | **43.6** | 63.4 | 71.3 |
| Incwm | **190.8** | 300.5 | 274.6 | **72.9** | 57.8 | 48.8 | **263.7** | 358.3 | 323.4 |
| **Elw/(colled) ar ôl treth** | **22.5** | 22.4 | 44.8 | **6.9** | (6.8) | (6.3) | **29.4** | 15.6 | 38.5 |
| Addasiad i adlewyrchu rhwymedigaeth wirioneddol** | **0.8** | 2.6 | 1.9 | **5.2** | 10.0 | 7.7 | **6.0** | 12.6 | 9.6 |
| Arall | **–** | 2.0 | – | **0.4** | (0.3) | (0.1) | **0.4** | 1.7 | (0.1) |
| | **23.3** | 27.0 | 46.7 | **12.5** | 2.9 | 1.3 | **35.8** | 29.9 | 48.0 |

* O ran balans darpariaethau ar gyfer cyd-fentrau, mae cyfran y Grŵp o rwymedigaethau net a gydnabuwyd (nad ydynt yn cynrychioli colledion gweithredu) ar gyfer UK Gold Holdings Limited (UKGH) ar 1 Ebrill 2008 wedi ei chofnodi yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr, gan arwain at addasiad cronfeydd wrth gefn o £19.4miliwn. Yn ystod y flwyddyn gyfredol mae'r Grŵp wedi cydnabod £7.0miliwn fel ei gyfran o elw ar gyfer UKGH, gan gario ymlaen swm o £13.0miliwn o fewn darpariaethau (Nodyn 18) fel cyfran y Grŵp o rwymedigaethau net.

** O dan delerau'r cytundebau â'r buddsoddwyr eraill yn rhai o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt y Grŵp, nid oes dyletswydd ar y Grŵp i ariannu colledion y mae'r endidau hynny yn mynd iddynt nac i ad-dalu eu rhwymedigaethau net. O ganlyniad nid oes unrhyw gyfran o unrhyw golledion perthnasol wedi'i chynnwys yn y datganiadau ariannol.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 12 BUDDSODDIADAU SYDD AR GAEL I'W GWERTHU

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ebrill | **4.0** | 4.2 |
| Addasiad cyfnewid | **–** | (0.2) |
| Ar 31 Mawrth | **4.0** | 4.0 |
| **Darpariaeth** | | |
| Ar 1 Ebrill | **4.0** | 1.5 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | **–** | 2.7 |
| Addasiad cyfnewid | **–** | (0.2) |
| Ar 31 Mawrth | **4.0** | 4.0 |
| **Gwerth Llyfr Net** | **–** | – |

Mae'r buddsoddiad sydd ar gael i'w werthu yn ymwneud â buddsoddiad y Grŵp o 20% heb ei ddyfynnu yng nghyfalaf cyfranddaliadau cyffredin Radio Mid-Day (West) India PVT. Limited, sef cwmni a gofrestrir yn India. Prif weithgaredd y cwmni yw cael a gweithredu trwyddedau radio FM yn India. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, ailasesodd y Cyfarwyddwyr werth cario buddsoddiad y Grŵp yn seiliedig ar ei gynllun busnes yn y dyfodol gan gofnodi darpariaeth ychwanegol o £2.7miliwn sy'n gwneud gwerth cario'r buddsoddiad yn £dim. Mae'r asesiad hwn yn adlewyrchu amodau anodd a heriol yn y farchnad leol a'r farchnad fyd-eang. Roedd cyfrifiadau o symiau adenilladwy yn seiliedig ar werth mewn defnydd ac fe'u cyfrifwyd drwy ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 16.1%. Adlewyrchir y golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn ystod y flwyddyn flaenorol yn segment BBC Worldwide.

Dosberthir y buddsoddiad hwn yn fuddsoddiad sydd ar gael i'w werthu gan nad oes gan y Grŵp unrhyw ddylanwad pwysig dros y cwmni, a hynny am nad oes gan y Grŵp gynrychiolaeth ar y Bwrdd ac mai cyfyngedig yw ei ddylanwad oherwydd rheoliadau yn India sy'n gymwys i fuddsoddwyr tramor.

Mae'r grŵp hefyd yn dal buddsoddiad sydd ar gael i'w werthu ar gost o £dim sy'n ymwneud â'i gyfran o 10% yng nghyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau wedi'i ddyroddi Daunus Limited. Prif weithgarwch Daunus Limited yw datblygu eiddo.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 13 ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU A DDOSBERTHIR YN RHAI A DDELIR I'W GWERTHU

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **7.2** | – | – |
| Asedau anghyfredol | | | |
| Asedau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a stocrestrau eraill | **0.2** | – | – |
| Asedau anniriaethol | **4.6** | – | – |
| Eiddo, offer a chyfarpar | **0.5** | 0.6 | 16.5 |
| Asedau cyfredol | | | |
| Asedau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a stocrestrau eraill | **2.4** | – | – |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **6.8** | – | 3.2 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **8.3** | – | – |
| Cyfanswm yr asedau a ddosberthir yn rhai a ddelir i'w gwerthu | **30.0** | 0.6 | 19.7 |

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | **(8.1)** | – | (5.1) |
| Rhwymedigaethau treth cyfredol | **(0.3)** | – | – |
| Cyfanswm yr asedau a ddosberthir yn rhai a ddelir i'w gwerthu | **(8.4)** | – | (5.1) |

Yn ystod y flwyddyn, penderfynodd y Grŵp waredu ei fuddiant o 50% yn Animal Planet Europe ac mae wedi dosbarthu'r bartneriaeth gyswllt hon yn ased a ddelir i'w werthu. Cariodd yr ased am £7.2miliwn ar 31 Mawrth 2010.

Yn sgîl penderfyniad gan reolwyr ym mis Medi 2009 fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2010, cafodd cwmni llyfrau sain y grŵp ei ddal i'w werthu.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 14 ASEDAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â RHAGLENNI A STOCRESTRAU ERAILL

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Asedau sy'n gysylltiedig â rhaglenni | | | |
| – Hawliau i ddarlledu rhaglenni a ffilmiau a gaffaelwyd | **132.2** | 139.3 | 130.0 |
| – Rhagdaliadau i gaffael hawliau sy'n gysylltiedig â rhaglenni yn y dyfodol | **285.7** | 252.1 | 243.3 |
| – Rhaglenni gwreiddiol a gwblhawyd | **71.2** | 74.1 | 79.8 |
| – Rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu | **159.8** | 130.4 | 159.3 |
| Cyfanswm yr asedau sy'n gysylltiedig â rhaglenni | **648.9** | 595.9 | 612.4 |
| Stocrestrau eraill | **33.4** | 19.6 | 20.6 |
| Cyfanswm yr asedau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a stocrestrau eraill | **682.3** | 615.5 | 633.0 |

O fewn stocrestrau eraill mae £4.9miliwn (2009: £6.7miliwn; 2008: £5.9miliwn) sy'n gysylltiedig â'r busnes teithlyfrau Awstralaidd, y disgwylir iddo gael ei werthu fwy na 12 mis ar ôl dyddiad y fantolen yn unol â chylch gweithredu arferol yr endid.

## 15 SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

### 15a Symiau derbyniadwy eraill sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy eraill | **17.1** | 43.0 | 17.0 |
| Symiau sy'n ddyledus gan bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **5.7** | 2.8 | 4.3 |
| Rhagdaliadau ac asedau eraill* | **2.9** | 385.1 | 378.1 |
| Cyfanswm | **25.7** | 430.9 | 399.4 |

* Gweler 'symiau taladwy eraill'am esboniad o'r balans.

### 15b Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | **174.4** | 141.9 | 134.4 |
| Dyledwyr ffi'r drwydded | **410.8** | 384.6 | 368.4 |
| Symiau sy'n ddyledus gan bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **30.1** | 43.3 | 36.4 |
| TAW adenilladwy | **36.1** | 30.8 | 26.2 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **32.3** | 19.7 | 13.0 |
| Rhagdaliadau ac asedau eraill* | **570.1** | 127.4 | 117.5 |
| Cyfanswm | **1,253.8** | 747.7 | 695.9 |

* Gweler 'symiau taladwy eraill'am esboniad o'r balans.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 16 SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL

### 16a Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy* | **490.6** | 396.0 | 442.5 |
| Symiau sy'n ddyledus i bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **2.3** | 7.1 | 2.6 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | **26.8** | 27.4 | 28.1 |
| Symiau taladwy eraill** | **522.6** | 45.8 | 57.3 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **393.7** | 329.6 | 360.7 |
| Adneuon stampiau cynilo trwydded a rhandaliadau debyd uniongyrchol | **68.6** | 71.5 | 73.5 |
| Cyfanswm | **1,504.6** | 877.4 | 964.7 |

* Mae symiau masnach taladwy hefyd yn cynnwys symiau taladwy sy'n gysylltiedig â rhaglenni, taliadau hawlfraint gweddilliol, a chyflogau.

** Mae symiau taladwy eraill yn cynnwys rhwymedigaeth o £382.0miliwn ar gyfer rhwymedigaeth gontract y BBC mewn perthynas â threfniant prydles y Ganolfan Ddarlledu. Mesurwyd y rhwymedigaeth hon yn ôl ei gwerth teg. Cydnabuwyd ased cyfatebol yn 'Rhagdaliadau ac asedau eraill'. Caiff y symiau hyn eu trosglwyddo i gredydwyr prydlesau cyllid ac asedau sefydlog yn y drefn honno ar adeg meddiannu adeilad y Ganolfan Ddarlledu yn unol â'r rhaglen adnewyddu arfaethedig. Yn 2009, cynhwyswyd y symiau hyn o fewn 'symiau taladwy eraill' a 'rhagdaliadau ac asedau eraill' sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn yn unol â'r amserlen feddiannu. Mae symiau taladwy eraill hefyd yn cynnwys rhwymedigaeth o £37.8miliwn (2009: £32.3miliwn) mewn perthynas ag opsiwn gwerthu dros 25% o gyfalaf cyfranddaliadau wedi'i ddyroddi Lonely Planet (gweler Nodyn 20).

### 16b Symiau taladwy eraill sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Symiau taladwy eraill | **175.1** | 513.1 | 514.7 |
| Cyfanswm | **175.1** | 513.1 | 514.7 |

Polisi'r BBC yw cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Talu'n Well mewn perthynas â thalu cyflenwyr, ar yr amod bod y cyflenwyr yn cydymffurfio â thelerau ac amodau perthnasol eu contractau. Mae'r BBC yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn telerau'r cod hwn. Gwneir taliadau am gaffael rhaglenni yn unol â thelerau cytundebol. Nifer y dyddiau a oedd yn ddyledus gan y Grŵp mewn perthynas â symiau masnach taladwy eraill ar 31 Mawrth 2010 oedd 29 diwrnod (2009: 32 diwrnod). Nid yw symiau taladwy gweddilliol a chostau cysylltiedig wedi cael eu cynnwys at ddibenion y cyfrifiad hwn, gan eu bod yn ymwneud â thaliadau i artistiaid a chyfranwyr heblaw credydwyr masnach.

## 17 SYMIAU A FENTHYCIWYD

### 17a Symiau a fenthyciwyd sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau banc a gorddrafftiau | **1.7** | 2.5 | 58.6 |
| Nodiadau benthyca nas gwarantwyd | **–** | 3.3 | 0.7 |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | **5.7** | 8.4 | 7.6 |
| Cyfanswm | **7.4** | 14.2 | 66.9 |

### 17b Symiau a fenthyciwyd sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Benthyciad banc | **211.4** | 268.0 | 140.0 |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | **603.2** | 609.5 | 610.0 |
| Cyfanswm | **814.6** | 877.5 | 750.0 |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 17 BENTHYCIADAU parhad

### 17c Rhwymedigaethau prydlesau cyllid

Mae rhwymedigaethau prydlesau cyllid yn daladwy fel a ganlyn:

| | Isafswm taliadau prydles £m | Llog £m | Prifswm £m |
|---|---|---|---|
| **2010** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | **51.0** | **45.3** | **5.7** |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | **210.2** | **175.3** | **34.9** |
| Ar ôl pum mlynedd | **1,138.4** | **570.1** | **568.3** |
| | **1,399.6** | **790.7** | **608.9** |
| **2009** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | 53.7 | 45.3 | 8.4 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 214.9 | 180.4 | 34.5 |
| Mwy na phum mlynedd | 1,193.2 | 618.2 | 575.0 |
| | 1,461.8 | 843.9 | 617.9 |
| **2008** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | 53.5 | 45.9 | 7.6 |
| Mwy na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 196.2 | 177.1 | 19.1 |
| Mwy na phum mlynedd | 1,247.1 | 656.2 | 590.9 |
| | 1,496.8 | 879.2 | 617.6 |

Prydles lle mae prydlesai wedi ymrwymo i'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased a'i weithredu **prydles cyllid**. Fel y cyfryw, cydnabyddir yr ased a'r rhwymedigaeth yn y dyfodol ar y fantolen.

O dan delerau'r cytundebau prydles, mae gan y BBC yr hawl i rannu yng ngwerth gweddilliol ei eiddo prydles cyllid allweddol (y Ganolfan Ddarlledu, Pacific Quay a White City). Caiff y gyfran hon ei throsglwyddo i'r BBC naill ai fel llif arian parod ar ddiwedd y trefniant prydlesu, neu fel lleihad mewn rhenti os ymestynnir y cytundeb prydlesu am gyfnod arall. At hynny, mae gan y BBC yr hawl i ailbrynu pob eiddo ar ddiwedd y cytundeb prydlesu perthnasol.

Wrth benderfynu ar y dull o gyfrifyddu am brydles cyllid, mae'r BBC wedi asesu a oes ganddo'r hawl i ddefnyddio'r ased a brydlesir ar ddechrau'r brydles, neu a yw'r hawl hon yn trosglwyddo iddo yn ddiweddarach ('y dyddiad cychwyn'). Yn achos prydles eiddo, mae'r BBC o'r farn y dylid cydnabod asedau a rhwymedigaethau a brydlesir pan fydd yn meddiannu'r safle oni fydd tystiolaeth sylweddol i awgrymu bod yr hawl i ddefnyddio'r ased wedi trosglwyddo'n gynharach. Lle y caiff safle mawr ei ailddatblygu, gellir ei feddiannu ar gamau gwahanol; o ganlyniad, cydnabyddir yr ased a brydlesir a'r rhwymedigaethau yn seiliedig ar gyfran y safle sydd wedi'i meddiannu ar bob dyddiad cychwyn.

At hynny, er mwyn cydnabod asedau a rhwymedigaethau prydlesau cyllid mae angen llunio barn ar faterion penodol. Mae un mater allweddol yn ymwneud â'r ffordd y trinnir unrhyw gynnydd mewn taliadau rhent blynyddol oherwydd y Mynegai Prisiau Manwerthu. Lle y caiff hyn effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir, mae'r BBC wedi cynnwys amcangyfrif o'r Mynegai Prisiau Manwerthu wrth benderfynu ar yr isafswm taliadau prydles.

Pennir cyfraddau llog ar ddyddiad y contract. Mae prydlesau â gwerth cario o £552.5miliwn (2009: £550.8miliwn, 2008: £539.8miliwn) yn cynnwys elfennau amodol yn eu contractau ac arweiniodd hynny at renti amodol o £16.3miliwn (2009: credyd £6.9miliwn 2008: £0.6miliwn) yn cael eu hadlewyrchu mewn costau gweithredu.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 18 DARPARIAETHAU A RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

| | Ar 1 Ebrill 2009 £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Dad-ddirwyn disgownt £m | **Ar 1 Ebrill 2010 £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailstrwythuro | 95.6 | 64.5 | (79.5) | (2.6) | 3.1 | **81.1** |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | 12.6 | 8.0 | (2.6) | (4.9) | – | **13.1** |
| Eiddo | 19.6 | 1.8 | – | – | – | **21.4** |
| Diddymu BBC jam | 0.3 | – | (0.3) | – | – | **–** |
| Cyfran o rwymedigaethau net cyd-fentrau | 20.3 | 0.9 | – | (7.0) | – | **14.2** |
| Arall | 2.1 | 3.5 | (0.2) | (0.8) | – | **4.6** |
| Cyfanswm | 150.5 | 78.7 | (82.6) | (15.3) | 3.1 | **134.4** |
| Cynhwyswyd mewn rhwymedigaethau cyfredol | 87.0 | | | | | **59.3** |
| Cynhwyswyd mewn rhwymedigaethau anghyfredol | 63.5 | | | | | **75.1** |
| Cyfanswm | 150.5 | | | | | **134.4** |

| | Ar 1 Ebrill 2008 £m | Tâl a godwyd am y flwyddyn £m | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £m | Rhyddhawyd yn ystod y flwyddyn £m | Dad-ddirwyn disgownt £m | Ar 1 Ebrill 2009 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ailstrwythuro | 120.0 | 44.1 | (67.4) | (3.8) | 2.7 | 95.6 |
| Ymgyfreitha ac yswiriant | 13.8 | 2.9 | (1.7) | (2.4) | – | 12.6 |
| Eiddo | 16.4 | 4.1 | (0.9) | – | – | 19.6 |
| Diddymu BBC jam | 1.5 | 0.1 | (0.9) | (0.4) | – | 0.3 |
| Cyfran o rwymedigaethau net cyd-fentrau | – | 20.3 | – | – | – | 20.3 |
| Arall | 1.3 | 1.2 | (0.1) | (0.3) | – | 2.1 |
| Cyfanswm | 153.0 | 72.7 | (71.0) | (6.9) | 2.7 | 150.5 |
| Cynhwyswyd mewn rhwymedigaethau cyfredol | 112.4 | | | | | 87.0 |
| Cynhwyswyd mewn rhwymedigaethau anghyfredol | 40.6 | | | | | 63.5 |
| Cyfanswm | 153.0 | | | | | 150.5 |

Mae'r rhan fwyaf o'r tâl ailstrwythuro am y flwyddyn yn ymwneud â diswyddiadau ar gyfer y rhaglen Gwelliant Parhaus (rhaglen pum mlynedd ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd blynyddol sy'n dod i ben 2012/13) ac ag ymrwymiad y BBC i drosglwyddo buddsoddiad allan o Lundain.

Mae darpariaethau ymgyfreitha ac yswiriant yn ymwneud â hunanyswiriant ac yswiriant sy'n gysylltiedig â chynhyrchu yn seiliedig ar brofiad blaenorol yn ogystal â hawliadau cyfreithiol posibl.

Mae darpariaethau eiddo yn ymwneud â chost dychwelyd eiddo ar brydles (y cyfrifyddir ar ei gyfer fel prydlesau gweithredu) i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y brydles. Oes gyfartalog y prydlesau hyn yw 12 mlynedd, a bydd y swm gwirioneddol sy'n daladwy yn dibynnu ar y graddau y gwneir gwelliannau lesdaliadol dros weddill y brydles.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys nifer o falansau sy'n codi ar draws y BBC wrth gynnal busnes fel arfer.

Mae cyfran o rwymedigaethau net cyd-fentrau yn cynrychioli'r swm a ddelir mewn darpariaethau sy'n ymwneud â chyfran y grŵp o gyd-fentrau gyda rhwymedigaethau net (gweler Nodyn 11).

Ar 31 Mawrth 2010, roedd gan y grŵp rwymedigaethau wrth gefn yr amcangyfrifwyd eu bod yn werth tua £0.6miliwn (2009: £1.0miliwn) mewn perthynas â gwarantau ac indemniadau.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 18 DARPARIAETHAU A RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN parhad

Mae gan y Grŵp nifer o rwymedigaethau wrth gefn sy'n deillio o ymgyfreitha. Gwna'r BBC ddarpariaeth benodol ar gyfer ei amcangyfrif gorau o unrhyw iawndal a chostau y gellir eu dyfarnu. Dim ond i'r graddau y mae'r grŵp yn ystyried ei bod yn debygol y bydd all-lif o fuddiannau economaidd ac y gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy y gwneir darpariaeth.

## 19 CAFFAEL

### 19a Caffael 2entertain Limited

Ar 6 Awst 2009, trosglwyddwyd rheolaeth dros 2entertain Limited ('2entertain') i BBC Worldwide ac o'r dyddiad hwn cyfunodd ei ganlyniadau a'i sefyllfa ariannol. Cyn 6 Awst 2009 cyfrifai BBC Worldwide ar ffurf ecwiti am 2entertain yn unol â'i berchenogaeth o 60% o'r endid a'i gyd-reolaeth drosto. Fe'i prynwyd ar ôl i bartner cyd-fenter BBC Worldwide gael ei roi yn nwylo'r gweinyddwr ac ar ôl i BBC Worldwide arfer ei opsiwn i brynu cyfranddaliadau'r partner yn y gyd-fenter. Cwblhawyd y broses brynu ar 1 Mawrth 2010 pan gaffaelodd BBC Worldwide y 40% arall o gyfranddaliadau 2entertain.

Cyfanswm yr addasiadau a oedd yn ofynnol i werthoedd llyfr asedau a rhwymedigaethau 2entertain er mwyn cyflwyno'r asedau net ar werth teg ac yn unol â pholisïau cyfrifyddu BBC Worldwide oedd £13.8miliwn. Mae'r rhain wedi eu nodi isod:

| | Gwerth llyfr £m | Addasiadau gwerth teg £m | Gwerth teg £m |
|---|---|---|---|
| **Asedau Anghyfredol** | | | |
| Buddsoddiadau rhaglenni | 13.8 | (13.8) | **–** |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 0.7 | – | **0.7** |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Stocrestrau | 13.7 | – | **13.7** |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 18.7 | – | **18.7** |
| Blaendaliadau | 15.7 | – | **15.7** |
| Asedau cyfredol eraill | 8.1 | – | **8.1** |
| Offerynnau Ariannol Deilliadol | 0.5 | – | **0.5** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 40.5 | – | **40.5** |
| **Cyfanswm yr asedau** | 111.7 | (13.8) | **97.9** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy | (6.9) | – | **(6.9)** |
| Credydwyr breindaliadau | (39.6) | – | **(39.6)** |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | (24.9) | – | **(24.9)** |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau** | (71.4) | – | **(71.4)** |
| Asedau net a gaffaelwyd | 40.3 | (13.8) | **26.5** |
| Llai: buddsoddiad mewn cyd-fenter a oedd eisoes o dan berchenogaeth | | | **(15.9)** |
| **Ewyllys da** | | | **9.9** |
| **Cydnabyddiaeth bwrcasu a chostau caffael** | | | **20.5** |
| Bodlonwyd gan: | | | |
| Cydnabyddiaeth arian parod | | | **17.0** |
| Costau caffael | | | **3.5** |
| **Cyfanswm** | | | **20.5** |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 19a Caffael 2entertain Limited parhad

Ar ôl i bartner cyd-fenter BBC Worldwide gael ei roi yn nwylo'r gweinyddwr, terfynwyd y cytundeb trwydded a oedd yn cwmpasu hawl 2entertain i ddosbarthu buddsoddiadau rhaglenni'r BBC. Heriwyd y penderfyniad hwn i derfynu'r cytundeb ac opsiwn prynu BBC Worldwide gan weinyddwyr partner cyd-fenter BBC Worldwide ac fe'i cadarnhawyd gan yr Uchel Lys a'r Llys Apêl. O ganlyniad ystyriwyd bod buddsoddiadau rhaglenni yn werth £dim ar y farchnad ac fe'u dilëwyd yn unol â hynny. Dyfarnodd y Llys hefyd y dylai'r gydnabyddiaeth a dalwyd gan BBC Worldwide am weddill y 40% o gyfranddaliadau fod yn werth teg gan adlewyrchu'r penderfyniad i derfynu'r cytundeb trwydded hwn. Ar y sail hon, cytunodd BBC Worldwide â'r gweinyddwyr i dalu pris o £17.0miliwn.

Eir ati mewn ffordd gyson bob tro y caffaelir busnes i nodi gwerth teg yr asedau a'r rhwymedigaethau gwahanadwy a gaffaelir. Yr ewyllys da gweddilliol ar adeg caffael 2entertain yw gwerth y gweithlu a gasglwyd a throsglwyddo eu gwybodaeth am y gweithrediad yn bennaf. Nid yw'n ased ar wahân o dan IFRS 3 ond eto i gyd disgwylir iddo gyfrannu at ganlyniadau'r Grŵp yn y dyfodol.

Cyfrannodd 2entertain £30.2milliwn i elw gweithredu BBC Worldwide am y cyfnod rhwng y dyddiad caffael a 31 Mawrth 2010.

Pe bai'r busnes wedi cael ei gaffael ar 1 Ebrill 2009, mae'r rheolwyr yn amcangyfrif y byddai refeniw BBC Worldwide (heb gynnwys cyfran BBC Worldwide o refeniw'r gyd-fenter) £49.0miliwn yn uwch sef £937.3miliwn. Ei gyfraniad i elw BBC Worldwide y gellid ei briodoli i ddeiliaid ecwiti am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 fyddai £10.0miliwn, gan wneud elw o £130.4miliwn cyn treth. Mae'r wybodaeth hon yn ystyried yr elw a gydnabuwyd tra bod y buddsoddiad yn gyd-fenter ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddangosol o ganlyniadau gweithrediadau a fyddai wedi digwydd pe bai'r busnes wedi cael ei gaffael mewn gwirionedd ar 1 Ebrill 2009.

## 19b Caffaeliadau eraill

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, caffaelodd BBC Worldwide gyfranddaliadau lleiafrifol hefyd mewn dau gwmni cynhyrchu am gyfanswm o £0.7miliwn. Nid oedd angen unrhyw addasiadau gwerth teg. Cododd ewyllys da gwerth £0.7miliwn ar adeg caffael a oedd yn cynrychioli sgiliau gweithlu'r endidau.

Yn unol ag IAS 28 ar Fuddsoddi mewn Partneriaethau Cyswllt aseswyd y ddau gyfranddaliad lleiafrifol a gaffaelwyd yn ymgymeriadau cysylltiedig.

## 19c Caffaeliadau'r flwyddyn flaenorol

Ar 1 Gorffennaf 2008 caffaelodd y Grŵp yr 80% arall o UK.TV, a gofrestrwyd yn Awstralia ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth arian parod o AU$31.2miliwn (£15.1miliwn). Mae UK.TV yn gweithredu sianel deledu sy'n dangos cynnwys teledu Prydeinig yn Awstralia a Seland Newydd. Cyfrifwyd am y trafodyn hwn drwy ddull prynu cyfrifyddu. Roedd gan y Grŵp fuddiant o 20% yn flaenorol yn UK.TV ac ni chydnabuwyd unrhyw ewyllys da mewn perthynas ag ef.

Caffaelwyd y busnes er mwyn cynnig llwyfan i lansio sianelau brand y BBC yn Awstralia a chymryd rhan lawn mewn sianel a oedd yn darlledu cynnwys y BBC i raddau helaeth.

Cyfanswm yr addasiadau a oedd yn ofynnol i werthoedd llyfr asedau a rhwymedigaethau UK.TV er mwyn cyflwyno asedau net y cwmnïau hynny ar werth teg ac yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Grŵp oedd £3.4miliwn.

Gellir priodoli'r ewyllys da sy'n codi i werth y gweithlu nas neilltuwyd.

Cyfrannodd UK.TV £11.2milliwn i refeniw a £2.7miliwn i elw cyn treth am y cyfnod rhwng y dyddiad caffael a 31 Mawrth 2009.

Pe bai'r busnes wedi cael ei gaffael ar 1 Ebrill 2008, mae'r rheolwyr yn amcangyfrif y byddai wedi cyfrannu £14.1miliwn i refeniw BBC Worldwide am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009. Ei gyfraniad i elw BBC Worldwide y gellid ei briodoli i ddeiliaid ecwiti am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 fyddai £3.5miliwn. Mae'r wybodaeth hon yn ystyried yr elw a gydnabuwyd tra bod y buddsoddiad yn bartneriaeth gyswllt ynghyd ag amorteiddio asedau anniriaethol a gaffaelwyd ac effeithiau treth incwm cysylltiedig ac ni ddylid ystyried ei fod yn ddangosol o ganlyniadau gweithrediadau a fyddai wedi digwydd pe bai'r busnes wedi cael ei gaffael mewn gwirionedd ar 1 Ebrill 2008.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

### 19c Caffaeliadau'r flwyddyn flaenorol parhad

Wrth bennu'r symiau hyn mae'r rheolwyr wedi tybio y byddai'r addasiadau gwerth teg a gododd ar ddyddiad caffael y busnes wedi bod yr un peth pe bai wedi cael ei gaffael ar 1 Ebrill 2008.

Roedd gan y Grŵp fuddiant o 20% yn flaenorol yn UK.TV. Yn unol ag IFRS 3 cofnodwyd addasiad o £0.6miliwn mewn enillion argadwedig er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn buddiant.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, caffaelodd y grŵp gyfranddaliadau lleiafrifol hefyd mewn sawl cwmni cynhyrchu, y rhoddwyd cyfrif amdanynt fel partneriaethau cyswllt neu gyd-fentrau. Cyfranddaliad y Grŵp o werth teg asedau a gaffaelwyd oedd £3.6miliwn a chyfranddaliad y Grŵp o werth teg rhwymedigaethau a gaffaelwyd oedd £3.2miliwn. Cydnabuwyd £10.4miliwn o ewyllys da, ar gydnabyddiaeth a oedd yn cynnwys costau o £10.4miliwn.

Gellir priodoli'r ewyllys da sy'n codi ar adeg caffael i broffidioldeb rhagweladwy'r cynnwys i'w gynhyrchu.

## 20 CRONFEYDD WRTH GEFN

### Cronfa weithredu wrth gefn

Cydnabuwyd addasiad o £0.5miliwn yn y Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Ecwiti, sef yr enillion cronnol a gydnabuwyd gan y grŵp mewn perthynas â chaffael 2entertain.

Ar 31 Mawrth 2010, gwerth yr ewyllys da cronnol a nodwyd yn y cronfeydd wrth gefn mewn perthynas â busnesau a gaffaelwyd cyn 1999 oedd £6.8miliwn. Nid yw'r swm hwn wedi newid ers y flwyddyn flaenorol ac erys mewn ecwiti ar adeg newid i IFRS fel y caniatawyd gan IFRS 1 ar Fabwysiadu IFRS am y tro cyntaf.

### Cronfa wrth gefn arall

Mae cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys opsiwn gwerthu dros 25% o gyfalaf cyfranddaliadau wedi'i ddyroddi Lonely Plant, sy'n arferadwy gan y cyfranddalwyr lleiafrifol. Ar 7 Hydref 2009, ail-negodwyd telerau'r opsiwn gwerthu. O ganlyniad i hyn mae'r rhwymedigaeth wreiddiol wedi cael ei dadgydnabod ac mae rhwymedigaeth newydd yn seiliedig ar y telerau gwerthu diwygiedig yn cael ei chydnabod. Cydnabuwyd y cofnod debyd ar gyfer y rhwymedigaeth hon o fewn ecwiti oherwydd ystyrir bod y cyfranddalwyr lleiafrifol yn parhau i gadw risgiau a gwobrwyon perchenogaeth. Caiff newidiadau i werth teg rhwymedigaeth yr opsiwn gwerthu, ac eithrio mewn perthynas â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor, eu cofnodi o hyd yn y datganiad incwm o fewn incwm ariannu a thraul.

## 21 CYSONI GWARGED WEITHREDU'R GRŴP AG ARIAN PAROD A GYNHYRCHWYD O WEITHREDIADAU

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Gwarged weithredu'r Grŵp | **522.1** | 150.9 |
| Dibrisiant, amorteiddio a lleihad mewn gwerth | **260.7** | 255.1 |
| Gwahaniaeth rhwng tâl pensiwn a godir a chyfraniad arian parod | **(387.9)** | (0.3) |
| Effaith gwerth teg deilliadau sy'n gysylltiedig â benthyciadau | **3.5** | 5.0 |
| Effaith gwerth teg deilliadau eraill | **(19.6)** | 18.5 |
| Elw o waredu asedau sefydlog diriaethol | **–** | (0.5) |
| Colled o waredu asedau sefydlog diriaethol | **7.3** | 10.4 |
| Elw o waredu gweithrediadau | **–** | (1.8) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stociau | **(54.5)** | 13.3 |
| Cynnydd mewn dyledwyr | **(67.1)** | (76.5) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr | **226.5** | (100.9) |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | **(16.1)** | (23.3) |
| **Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau** | **474.9** | 249.9 |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 22 RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR NAS ADLEWYRCHIR YN Y FANTOLEN

### 22a Contractau a osodwyd ar gyfer gwariant yn y dyfodol

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog | **50.9** | 51.7 |
| Caffaeliadau rhaglenni a hawliau chwaraeon | **1,026.2** | 1,307.5 |
| Rhaglenni annibynnol | **148.8** | 106.8 |
| Taliadau sefydlog eraill ar drefniadau contract allanol hirdymor | **3,432.7** | 3,865.2 |
| | **4,658.6** | 5,331.2 |

Symiau y mae'r BBC yn **ymrwymedig iddynt o dan gontract**, ond na ddylent gael eu cydnabod ar y fantolen am nad ydynt yn bodloni meini prawf cydnabod.

Mae'r BBC wedi gosod rhai swyddogaethau nad ydynt yn rhai craidd ar gontract allanol, gan gynnwys cymorth TG, dosbarthu a darlledu cynnwys, cyfleusterau rheoli ac elfennau o gymorth cyllid.

Yn sgîl darpariaethau a410A o Ddeddf Cwmnïau 2006 mae'r Grŵp wedi cynnwys symiau a neilltuwyd o dan gytundebau nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y fantolen, na'u datgelu mewn mannau eraill yn y datganiadau ariannol. Mae'r Grŵp wedi dehongli'r datgeliad hwn i gynnwys taliadau sefydlog sy'n ddyledus o dan drefniadau gosod ar gontract allanol a threfniadau cyffelyb tra bydd y trefniadau hynny'n parhau. Nid yw'r symiau a ddatgelwyd yn cynnwys taliadau amrywiaeth.

### 22b Prydlesau gweithredu

Mae cyfanswm isafswm taliadau yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu na ellir eu dileu yn daladwy fel a ganlyn:

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | **110.1** | 104.4 |
| Ar ôl blwyddyn a chyn pen pum mlynedd | **344.9** | 381.4 |
| Ar ôl pum mlynedd | **453.4** | 514.3 |
| | **908.4** | 1,000.1 |

Prydles lle nad yw'r prydlesai wedi ymrwymo i'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased a'i weithredu yw **prydles weithredu**. Mae'r prydlesai (y BBC) yn llogi yn hytrach na phrynu ased.

Mae cytundebau prydlesau gweithredu'r BBC yn ymwneud â swyddfeydd, tir, cyfrifiaduron a chyfarpar TG arall yn bennaf. Mae rhai contractau yn cynnwys opsiynau adnewyddu, rhenti grisiog neu gynnydd blynyddol ar sail y Mynegai Prisiau Manwerthu (y rhoddir cyfrif amdanynt ar sail llinell syth) neu arolygon cyfnodol o renti. Lluniwyd pob prydles ar delerau masnachol.

### 22c Digwyddiadau ôl-fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau o bwys i'w datgelu ar ôl dyddiad y fantolen.

## 23 CYNLLUNIAU PENSIWN

### 23a Cynlluniau pensiwn y Grŵp

Mae'r Grŵp yn gweithredu sawl cynllun pensiwn. Mae Cynllun Pensiwn y BBC, y mae'r rhan fwyaf o gyflogeion yn perthyn iddo, a chynllun bach heb ei ariannu (y Cynllun Heb ei Ariannu), sydd ar gau i aelodau newydd, yn gynlluniau buddiannau diffiniedig. Yn ogystal mae Cynllun Pensiwn Personol y Grŵp a sawl cynllun bach yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig.

Mae Nodyn 23b yn nodi'r asedau a'r rhwymedigaethau a'r taliadau am y cyfnod ar gyfer pob cynllun. Mae Nodyn 23c yn rhoi manylion pellach am Gynllun Pensiwn y BBC.

### 23b Taliadau pensiwn a balansau o fewn y datganiadau ariannol

**23b i Ased/(rhwymedigaeth) pensiwn a gynhwysir ar y fantolen**

| | Ased pensiwn | | | Rhwymedigaeth pensiwn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 £m | 2009 £m | 2008 £m | 2010 £m | 2009 £m | 2008 £m |
| Cynllun Pensiwn y BBC | **–** | – | 528.4 | **(1,640.9)** | (138.6) | – |
| Cynllun Heb ei Ariannu | **–** | – | – | **(6.2)** | (4.7) | (5.1) |
| Cyfanswm | **–** | – | 528.4 | **(1,647.1)** | (143.3) | (5.1) |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP PARHAD

## 23 CYNLLUNIAU PENSIWN parhad

### 23b Taliadau pensiwn a balansau o fewn y datganiadau ariannol parhad

#### 23b ii Incwm/(taliadau) pensiwn yn y datganiad incwm cyfunol

| | Cynlluniau buddiannau diffiniedig | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Pensiwn y BBC £m | Cynllun Heb ei Ariannu £m | Cynllun cyfraniadau diffiniedig £m | **Pob cynllun £m** |
| **2010** | | | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (128.2) | – | (3.2) | **(131.4)** |
| Costau gwasanaeth yn y gorffennol | (32.6) | – | – | **(32.6)** |
| Incwm eithriadol gwasanaeth yn y gorffennol* | 334.1 | – | – | **334.1** |
| Cyfanswm yr incwm/(tâl) gweithredu** | 173.3 | – | (3.2) | **170.1** |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 443.4 | – | – | **443.4** |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | (463.4) | (0.3) | – | **(463.7)** |
| Cost cyllid net | (20.0) | (0.3) | – | **(20.3)** |
| Incwm/(cost) net yn y datganiad incwm cyfunol | 153.3 | (0.3) | (3.2) | **149.8** |
| **2009** | | | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (161.8) | – | (2.7) | (164.5) |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol* | (24.2) | – | – | (24.2) |
| Ennill ar gwtogiad | 10.0 | – | – | 10.0 |
| Cyfanswm y tâl gweithredu** | (176.0) | – | (2.7) | (178.7) |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | 626.0 | – | – | 626.0 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | (508.4) | (0.3) | – | (508.7) |
| Incwm/(cost) cyllid net | 117.6 | (0.3) | – | 117.3 |
| Cost net yn y datganiad incwm cyfunol | (58.4) | (0.3) | (2.7) | (61.4) |

* Mae'r balans hwn yn ymwneud ag incwm gwasanaeth yn y gorffennol yn deillio o newid i delerau ac amodau ymddeol yn gynnar.

** O gyfanswm yr incwm gweithredu net o £173.3miliwn ar gyfer 2010 (2009: tâl net £176.0miliwn), cydnabuwyd £36.2miliwn (2009: £17.1miliwn o draul) fel traul mewn blynyddoedd cynharach fel rhan o gostau diswyddo yn unol ag IAS 37. Cydnabuwyd yr incwm o £209.5miliwn a oedd yn weddill (2009: tâl £158.9miliwn) yn y flwyddyn gyfredol.

Y gost sylfaenol i'r BBC o hawliau pensiwn a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn yw **cost gyfredol y gwasanaeth**.

Mae **incwm gwasanaeth yn y gorffennol** yn deillio o newidiadau i'r telerau ac amodau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol diffiniedig aelodau, sy'n arwain at gredyd am flynyddoedd o wasanaeth a roddwyd eisoes.

Mae'r **adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn** yn cynnwys amcangyfrifon yn seiliedig ar yr hyn a ragwelir ar gyfer perfformiad ac amodau economaidd yn y dyfodol.

#### 23b iii Symudiad mewn (diffyg)/gwarged yn ystod y flwyddyn

| | **Cynllun Pensiwn y BBC 2010 £m** | **Cynllun Heb ei Ariannu 2010 £m** | **Cyfanswm 2010 £m** | Cynllun Pensiwn y BBC 2009 £m | Cynllun Heb ei Ariannu 2009 £m | Cyfanswm 2009 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (Diffyg)/gwarged yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | **(138.6)** | **(4.7)** | **(143.3)** | 528.4 | (5.1) | 523.3 |
| Symudiad yn y flwyddyn: | | | | | | |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | **(128.2)** | **–** | **(128.2)** | (161.8) | – | (161.8) |
| Cyfraniadau (gan y cyflogwr)* | **214.3** | **0.3** | **214.6** | 176.0 | 0.3 | 176.3 |
| Incwm/(costau) gwasanaeth yn y gorffennol | **301.5** | **–** | **301.5** | (24.2) | – | (24.2) |
| Ennill ar setliadau a chwtogiadau | **–** | **–** | **–** | 10.0 | – | 10.0 |
| (Cost)/incwm cyllid net | **(20.0)** | **(0.3)** | **(20.3)** | 117.6 | (0.3) | 117.3 |
| (Colled)/ennill actiwaraidd a gydnabuwyd yn y datganiad cyfunol o golled gynhwysfawr | **(1,869.9)** | **(1.5)** | **(1,871.4)** | (784.6) | 0.4 | (784.2) |
| Diffyg yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | **(1,640.9)** | **(6.2)** | **(1,647.1)** | (138.6) | (4.7) | (143.3) |

* Y cyfraniad a ddangosir ar gyfer y cynllun heb ei ariannu yw'r pensiynau a dalwyd i aelodau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tybiaethau ar gyfer rhwymedigaethau cynllun pensiwn y cynllun heb ei ariannu yr un fath â'r prif gynllun. Gan nad yw'r cynllun wedi'i ariannu, nid oes unrhyw asedau ac felly ni ddisgwylir adenillion ar asedau.

Nid yw'r **cynlluniau cyfraniadau diffiniedig** yn arwain at asedau/rhwymedigaethau pensiwn ar y fantolen gan nad oes unrhyw rwymedigaeth barhaus i'r cyflogwr o'r cynlluniau hyn unwaith y bydd y cyfraniadau sy'n ddyledus am y flwyddyn wedi eu setlo.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 23 CYNLLUNIAU PENSIWN parhad

### 23c Cynllun Pensiwn y BBC

Prif gynllun pensiwn y Grŵp yw Cynllun Pensiwn y BBC ac mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r cyflogeion. Mae'r cynllun hwn yn darparu buddiannau sy'n gysylltiedig â chyflog ar sail buddiannau diffiniedig wedi eu hariannu gan asedau a ddelir mewn cronfeydd ar wahân, a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn yn rheoli'r cynllun yn y tymor byr, canolig a hir. Gwnânt benderfyniadau cyllido yn seiliedig ar brisiadau sy'n ystyried yr asedau sy'n ofynnol i gyllido rhwymedigaethau'r cynllun o safbwynt tymor hwy.

Cynhelir prisiadau'r cynllun gan Towers Watson, sy'n actiwarïaid ymgynghorol. Cynhelir prisiadau ffurfiol o leiaf bob tair blynedd.

#### 23c i Sefyllfa ariannol y Cynllun

| Prisiad IAS 19 | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m | 2007 £m | 2006 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau'r cynllun | **8,154.8** | 6,454.0 | 8,042.0 | 8,117.9 | 7,843.4 |
| Rhwymedigaethau'r cynllun | **(9,795.7)** | (6,592.6) | (7,513.6) | (7,788.6) | (7,675.9) |
| (Diffyg)/gwarged | **(1,640.9)** | (138.6) | 528.4 | 329.3 | 167.5 |
| Canran y mae asedau'r cynllun yn cwmpasu rhwymedigaethau | **83%** | 98% | 107% | 104% | 102% |

Mae **prisiad IAS 19** yn cymryd asedau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ac yn disgowntio'r rhwymedigaethau cronedig drwy gyfeirio at gyfradd ddisgowntio bond corfforaeth gradd AA.

Dangosir symudiadau allweddol yn y flwyddyn yn Nodyn 23b iii.

Ni fydd ased na rhwymedigaeth treth ohiriedig yn codi ar gyfer y Grŵp gan nad yw'r rhan fwyaf o weithgaredd gwasanaeth cyhoeddus y Grŵp yn agored i drethiant.

#### 23c ii Newidiadau yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun

Dengys y tabl isod y symudiad ar rwymedigaethau'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Y pethau allweddol sy'n effeithio ar hyn yw'r flwyddyn ychwanegol o fuddiannau pensiwn a enillwyd (a chyfraniadau cyflogeion a wnaed), llog a godwyd ar rwymedigaethau presennol, unrhyw enillion neu golledion sy'n ymwneud â chyfranogwyr yn gadael y cynllun pensiwn, newidiadau mewn tybiaethau a wnaed a buddiannau a dalwyd allan yn ystod y flwyddyn.

| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol agoriadol rhwymedigaethau'r cynllun | **6,592.6** | 7,513.6 | 7,788.6 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | **128.2** | 161.8 | 164.8 |
| (Incwm)/cost gwasanaeth yn y gorffennol | **(301.5)** | 24.2 | 21.5 |
| Enillion ar gwtogiadau | **–** | (10.0) | – |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | **463.4** | 508.4 | 413.6 |
| (Enillion)/colledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **(33.2)** | (171.3) | 149.1 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i rwymedigaethau'r cynllun | **3,266.1** | (1,138.1) | (786.0) |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | **7.2** | 14.2 | 53.1 |
| Buddiannau a dalwyd | **(327.1)** | (310.2) | (291.1) |
| Gwerth presennol terfynol rhwymedigaethau'r cynllun | **9,795.7** | 6,592.6 | 7,513.6 |

**Rhwymedigaeth y cynllun** yw'r swm disgwyliedig o arian y bydd ei angen yn y dyfodol i dalu cyflogeion am eu gwasaneth cyfredol a'u gwasanaeth yn y dyfodol i'r cwmni.

Newidiadau mewn amcangyfrifon a ddefnyddir i brisio'r rhwymedigaeth yn y dyfodol yw'r **newidiadau yn y tybiaethau sy'n sail i rwymedigaethau'r cynllun.** Mae tybiaethau allweddol yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio, cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol, marwolaethau a throsiant ymhlith cyflogeion.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 23 CYNLLUNIAU PENSIWN parhad

### 23c iii Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

Dengys y tabl isod y symudiad ar asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Y pethau allweddol sy'n effeithio ar hyn yw'r flwyddyn ychwanegol o gyfraniadau a wnaed, newidiadau yng ngwerth asedau'r cynllun pensiwn (yn cynnwys yr elw o fuddsoddiad) a buddiannau a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd trefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd ac ar 1 Tachwedd 2006 ar gyfer aelodau Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa. Mae'r cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi cael eu trin fel cyfraniadau cyflogwr.

| | 2010 £m | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun | **6,454.0** | 8,042.0 | 8,117.9 |
| Cyfradd adennill ddisgwyliedig ar asedau'r cynllun | **443.4** | 626.0 | 562.7 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar asedau'r cynllun | **1,363.0** | (2,094.0) | (584.6) |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | **214.3** | 176.0 | 184.0 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun | **7.2** | 14.2 | 53.1 |
| Buddiannau a dalwyd | **(327.1)** | (310.2) | (291.1) |
| Gwerth presennol terfynol asedau'r cynllun | **8,154.8** | 6,454.0 | 8,042.0 |

Mae'r **enillion/colledion actiwaraidd ar asedau'r cynllun** yn cynrychioli'r swm y mae'r asedau a ddelir gan y cynllun (megis ecwitïau, bondiau ac eiddo) wedi perfformio'n well neu'n waeth na'r disgwyl.

### 23c iv Asedau'r cynllun

Rheolir dyraniad yr asedau gan yr Ymddiriedolwyr gan angen i reoli risg yn erbyn y dymuniad am adenillion uchel ac unrhyw anghenion o ran hylifedd. Delir canran uchel o asedau mewn ecwitïau y mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl iddynt gynhyrchu adenillion uwch yn yr hirdymor. Y dyraniad targed, yn seiliedig ar werthoedd y farchnad, ar gyfer ecwitïau yw 50% (ecwitïau'r DU 25% ac ecwitïau dramor 25%), bondiau 30%, eiddo 10% ac eitemau amgen 10%.

| | 2010 | | 2009 | | 2008 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o ased | £m | % | £m | % | £m | % |
| Ecwitïau | **4,573** | **56** | 3,313 | 51 | 4,624 | 58 |
| Bondiau | **1,825** | **22** | 1,598 | 25 | 1,693 | 21 |
| Eiddo | **787** | **10** | 796 | 12 | 1,001 | 12 |
| Eitemau amgen* | **719** | **9** | 508 | 8 | 455 | 6 |
| Arian parod | **251** | **3** | 239 | 4 | 269 | 3 |
| Cyfanswm yr asedau | **8,155** | | 6,454 | | 8,042 | |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun pensiwn** | **1,806** | | (1,468) | | (22) | |

* Mae eitemau amgen yn cynnwys ecwiti preifat, dyledion ac arian cyfred.

** Enillion a wireddwyd yw hyn o dderbyn incwm buddsoddi (e.e. difidendau a rhent), trafodion lle y gwerthir asedau a newidiadau gwerth teg nas gwireddwyd.

### 23c v Colledion pensiwn yn y datganiad cyfunol o golled gynhwysfawr

| | 2010 £m | 2009 £m |
|---|---|---|
| Adenillion gwirioneddol llai adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | **1,363.0** | (2,094.0) |
| Enillion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau'r cynllun | **33.2** | 171.3 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | **(3,266.1)** | 1,138.1 |
| Colled net a gydnabuwyd yn y datganiad cyfunol o golled gynhwysfawr | **(1,869.9)** | (784.6) |
| Colled cronnol a gydnabuwyd yn y datganiad cyfunol o golled gynhwysfawr | **(4,395.3)** | (2,525.4) |

Mae'r **enillion a'r colledion** hyn yn deillio o'r ffaith bod perfformiad gwirioneddol yn wahanol i'r hyn a ragamcanwyd. Dim ond cynlluniau buddiannau diffiniedig sy'n esgor ar enillion a cholledion yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 23 CYNLLUNIAU PENSIWN parhad

### 23c vi Hanes enillion a cholledion profiad

| | **2010** | 2009 | 2008 | 2007 | 2006 |
|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau oherwydd profiad ar asedau'r cynllun: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **1,363.0** | (2,094.0) | (584.6) | (121.0) | 1,246.5 |
| Canran o asedau'r cynllun | **16.7%** | 32.4% | 7.3% | 1.5% | 15.9% |
| Addasiadau oherwydd profiad ar rwymedigaethau'r cynllun: | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **33.2** | 171.3 | (149.1) | (164.6) | 208.6 |
| Canran o rwymedigaethau'r cynllun | **0.3%** | 2.6% | 2.0% | 2.1% | 2.7% |
| Cyfanswm y (golled)/ennill actiwaraidd a gydnabuwyd yn y datganiad o golled gynhwysfawr | | | | | |
| Swm (£miliwn) | **(1,869.9)** | (784.6) | 52.3 | 136.1 | 658.4 |
| Canran o rwymedigaethau'r cynllun | **19.1%** | 11.9% | 0.7% | 1.7% | 8.6% |

### 23c vii Ariannu'r Cynllun

O ganlyniad i brisiad actiwaraidd 2007 gan Towers Watson, mae'r BBC ac ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn wedi cytuno y byddai cyfraniadau'r cyflogwr yn cynyddu i 19.35% o 1 Gorffennaf 2008. Cododd cyfraniadau cyflogeion ar gyfer aelodau Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd o 6% i 6.75% o 1 Ebrill 2009 a byddant yn codi i 7.5% o 1 Ebrill 2010 a gostyngodd cyfraniadau'r cyflogwr o 19.35% i 18.6% o 1 Ebrill 2009 a byddant yn gostwng i 17.85% o 1 Ebrill 2010. Pennir cyfraniadau cyflogeion ar gyfer aelodau Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa ar 4%.

Cyflwynwyd trefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd ac ar 1 Tachwedd 2006 ar gyfer aelodau Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa. Mae'r cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi cael eu trin fel cyfraniadau cyflogwr.

Cynhaliwyd prisiad interim ar 1 Ebrill 2009 a nododd fod gan y cynllun fwy o ddiffyg na'r hyn a nodwyd yn y prisiad actiwaraidd blaenorol. Disgwylir i'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf gael ei gynnal ar 1 Ebrill 2010.

| Cyfraddau cyfraniadau | Rhagamcan 2011 % | **2010 %** | 2009 % | 2008 % | 2007 % |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogwr | 17.85 | **18.6** | 18.8/19.35 | 18.8 | 7.5 |
| Cyflogai (Hen Fuddiannau a Buddiannau Newydd) | 7.5 | **6.75** | 6.0 | 6.0 | 5.5/6.0 |
| Cyflogai (Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa) | 4.0 | **4.0** | 4.0 | 4.0 | 4.0** |
| Cost sylfaenol y cynllun i'r BBC fel % o gyflogau pensiynadwy* | 17.85 | **18.6** | 18.8/19.35 | 18.8 | 19.3/18.8 |

* Yn eithrio'r gost a delir mewn gwirionedd gan y cyflogai a'r elfen aberthu cyflog.

** Dechreuodd y cynllun Budd Cyfartaledd Gyrfa ar 1 Tachwedd 2006.

Ar sail yr hyn a dybir uchod, disgwylir i gyfraniadau gwerth £179.4miliwn gael eu talu yn 2011.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 23 CYNLLUNIAU PENSIWN parhad

### 23c viii Prif dybiaethau actiwaraidd

Mae'r gwaith o gyfrifo rhwymedigaethau'r cynllun a thaliadau pensiwn, at ddibenion IAS 19, yn gofyn am wneud nifer o dybiaethau ariannol a demograffig. Y prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwarïaid ar ddyddiad y fantolen oedd:

| Prif dybiaethau ariannol | **2010 %** | 2009 % | 2008 % |
|---|---|---|---|
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **3.7** | 4.4* | 5.6 |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn: | | | |
| Hen Fuddiannau | **3.7** | 3.0 | 3.6 |
| Buddiannau Newydd | **3.5** | 2.7 | 3.4 |
| Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa | **2.4** | 2.4 | 2.5 |
| Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant | **3.7** | 2.9 | 3.6 |
| Cyfradd ddisgowntio | **5.5** | 7.2 | 6.9 |

Cymerir y **gyfradd ddisgowntio** ar gyfer prisiad IAS 19 fel y gyfradd ar gyfer bond corfforaeth gradd AA.

* Dyma'r dybiaeth o 1 Ebrill 2011. Y dybiaeth hyd at 31 Mawrth 2011 yw 3.9% y flwyddyn.

Yn dilyn gostwng y ffactor disgowntio o 7.2% yn 2009 i 5.5% yn 2010 cynyddwyd rhwymedigaethau'r cynllun £2,260miliwn.

Y tybiaethau o ran disgwyliad oes ar gyfartaledd, ar gyfer aelodau sy'n ymddeol yn 60 oed yw:

| Prif dybiaethau demograffig | **2010 Nifer y blynyddoedd** | 2009 Nifer y blynyddoedd | 2008 Nifer y blynyddoedd |
|---|---|---|---|
| Ymddeol heddiw | | | |
| Gwryw | **27.0** | 26.9 | 26.6 |
| Benyw | **29.7** | 29.6 | 29.1 |
| Ymddeol ymhen 20 mlynedd | | | |
| Gwryw | **29.0** | 28.9 | 28.1 |
| Benyw | **31.8** | 31.7 | 30.7 |

Dewiswyd y tybiaethau o ran hir oes i adlewyrchu nodweddion a phrofiad aelodau'r cynllun. Gwnaed hyn drwy addasu tablau marwolaethau safonol (PMAC07MC+0.5 a PFAC07MC+1) sy'n adlewyrchu ymchwil ddiweddar i brofiad marwolaethau yn y DU, gyda gwelliant gofynnol o 1% y flwyddyn yn cael ei ddefnyddio.

Diweddarwyd y tybiaethau demograffig o'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2007 i adlewyrchu'r tybiaethau tebygol a gaiff eu defnyddio ar gyfer prisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2010.

| Cyfradd adennill hirdymor ddisgwyliedig (y flwyddyn)* | **2010 £m** | 2009 £m |
|---|---|---|
| Ecwitïau | **8.8** | 8.6 |
| Bondiau a giltiau | **4.4** | 3.7 |
| Eiddo | **6.6** | 6.2 |
| Eitemau amgen | **8.8** | 8.6 |
| Arian parod | **4.4** | 4.4 |
| Cyfanswm y gyfradd adennill ddisgwyliedig | **7.5** | 6.9 |

* Fel ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Pennir yr adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun drwy ystyried yr adenillion disgwyliedig sydd ar gael ar y prif ddosbarthiadau o asedau a ddelir gan y Cynllun ar ddiwedd pob cyfnod cyflwyno adroddiadau. Pennir yr adenillion disgwyliedig ar fondiau drwy gyfeirio at yr arennill adbrynu ar fondiau'r Llywodraeth sy'n rhai hirdymor. Mae'r adenillion disgwyliedig ar fuddsoddiadau ecwiti ac asedau eraill yn adlewyrchu cyfraddau adennill gwirioneddol hirdymor a ddisgwylir gan y farchnad. Dewisir y gyfradd adennill ddisgwyliedig ar gyfer buddsoddiadau eiddo hanner ffordd rhwng yr adenillion ar ecwitïau a'r adenillion ar fondiau.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 23 CYNLLUNIAU PENSIWN parhad

### 23c ix Dadansoddiad o aelodaeth y cynllun a'i broffil aeddfedrwydd

| | **2010 Nifer** | 2009 Nifer | 2008 Nifer |
|---|---|---|---|
| Cyfranwyr | **17,883** | 17,774 | 18,736 |
| Pensiynwyr | **18,776** | 17,970 | 17,569 |
| Dibynyddion | **3,920** | 3,863 | 3,798 |
| Pensiynwyr gohiriedig | **18,971** | 19,137 | 18,286 |

Mae aeddfedrwydd cynllun yn arwydd o ofynion arian parod y cynllun ac agwedd debygol yr Ymddiriedolwyr at risg o fewn eu polisi buddsoddi. Po aeddfetaf fo cynllun, y mwyaf tebygol ydyw y bydd yr Ymddiriedolwyr yn ffafrio buddsoddiadau â risg fach.

Mae'r cynllun yn dod yn fwy aeddfed gyda nifer y pensiynwyr yn cynyddu. Bu ychydig o gynnydd hefyd yn nifer y cyfranwyr. Adlewyrchir y symudiadau hyn yn y gostyngiad cyffredinol mewn mewnlifau arian parod a ddangosir yn Nodyn 23cx.

### 23c x Llifau arian parod y Cynllun (hylifedd o ddydd i ddydd)

Yn 2010 gostyngodd y mewnlif arian parod net o gymharu â 2009. Arweiniodd y cynnydd yn nifer y pensiynwyr, taliadau trosglwyddo ac amodau andwyol y farchnad at fwy o all-lifau arian parod wrth i'r taliadau a wnaed o'r cynllun gynyddu ac wrth i'r enillion ar fuddsoddiadau'r cynllun leihau. Caiff yr all-lifau arian parod uwch hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd yn y cyfraniadau a wnaed i'r cynllun yn dilyn cynnydd yn nifer y cyfranwyr fel y nodir yn Nodyn 23cix.

Yn 2009 aeth mewnlifau arian parod y cynllun pensiwn y tu hwnt i'w all-lifau arian parod. Cynyddodd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr o 18.8% i 19.35% o 1 Gorffennaf 2008 ond gwrthbwyswyd hyn gan ostyngiad sylweddol yng nghyfraniadau'r aelodau. Hefyd, bu cynnydd mewn pensiynau a dalwyd a chyfandaliadau ar ymddeoliad sydd wedi cyfuno i leihau'r mewnlif arian parod o gymharu â 2008.

| | **2010 £m** | 2009 £m |
|---|---|---|
| Cyfraniadau (cyflogwr a chyflogai) | **226.9** | 196.3 |
| Incwm o fuddsoddiad | **200.2** | 225.2 |
| Mewnlifau arian parod | **427.1** | 421.5 |
| Taliadau pensiynau a throsglwyddiadau allan | **(341.9)** | (313.1) |
| Treuliau | **(33.8)** | (36.9) |
| Mewnlif arian parod net | **51.4** | 71.5 |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL

### 24a Rheoli risg ariannol

Rheolir gweithrediadau rheoli risg ariannol y grŵp gan swyddogaeth Trysorlys y Grŵp o fewn paramedrau a ddiffinnir yn ffurfiol o fewn y llawlyfr polisïau a gweithdrefnau y cytunir arno gan y Bwrdd Gweithredol. Cyflwynir adroddiad ar weithgaredd Trysorlys y Grŵp yn rheolaidd ac mae'n destun arolwg gan archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae Trysorlys y Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi cyllid ac i reoli risg ariannol sy'n codi o weithrediadau'r BBC yn unol â'i amcanion sef:

- sicrhau bod busnes y BBC, Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol, yn cael ei ariannu yn y dull mwyaf effeithlon a'i fod yn parhau i gydymffurfio â therfynau benthyca
- diogelu gwerth asedau, rhwymedigaethau a llifau arian parod y BBC, rhag effeithiau cyfraddau llog anffafriol ac amrywiadau o ran cyfraddau cyfnewid tramor
- cael yr adenillion mwyaf posibl ar gronfeydd gwarged, tra'n sicrhau y cedwir digon o arian i fodloni gofynion hylifedd rhagweladwy.

Mae offerynnau ariannol y grŵp, heblaw'r rhai a ddefnyddir at ddibenion rheoli risg y trysorlys, yn cynnwys arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod, benthyciadau ac eitemau amrywiol megis symiau masnach derbyniadwy a thaladwy sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Mae'r grŵp yn ariannu ei weithrediadau o'r offerynnau ariannol hyn. Nid yw'r grŵp yn cynnal trafodion hapfasnachol y trysorlys.

**Y risg o ran y farchnad**

**Y risg o ran arian cyfred:** Sefydliad domestig yw'r grŵp yn bennaf gyda'r rhan fwyaf o'r trafodion, asedau a rhwymedigaethau yn cael eu gwneud yn y DU ac yn rhai sterling. Fodd bynnag, mae'r Grŵp yn ymgymryd â rhai trafodion mewn arian cyfred heblaw sterling. Oherwydd symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid dros amser, gall y swm y mae'r Grŵp yn disgwyl ei gael neu ei dalu pan fydd yn ymrwymo i drafodyn fod yn wahanol i'r swm y mae'n ei gael neu'n ei dalu mewn gwirionedd pan fydd yn setlo'r trafodyn.

Gall rhai contractau gynnwys cymalau hefyd lle mae newidiadau mewn cyfraddau arian cyfred y tu allan i ystod gytûn yn effeithio ar bris y contract; yn y rhan fwyaf o achosion mae gwerth y contractau unigol a nodweddion eraill o fewn y contract yn cyfyngu'r amlygiad i risg o ran arian cyfred i lefel nad yw'n sylweddol i'r grŵp.

Yr amlygiad i risg o ran arian cyfred mwyaf sylweddol yn ôl cyfanswm gwerth trafodion yw doleri'r UD, fodd bynnag, oherwydd maint cymharol yr amlygiad hwn o gymharu â busnes y grŵp sy'n delio â sterling, nid yw'r BBC o'r farn bod y risg hon yn sylweddol i'r grŵp. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn gyffredinol yn llunio blaengontractau arian cyfred i reoli, neu ragfantoli, y risg arian cyfred hon, sy'n caniatáu iddo setlo trafodion ar gyfraddau cyfnewid hysbys, gan leihau unrhyw ansicrwydd ymhellach.

Felly mae'r incwm neu'r gwariant cyffredinol i'w gydnabod mewn perthynas â chontractau mewn arian cyfred tramor (a'r rhagfantoli cysylltiedig) yn sefydlog, fodd bynnag, lle mae'r contractau hyn yn rhychwantu blynyddoedd ariannol, mae cydnabod gwerth teg y blaengontractau arian cyfred yn arwain at enillion/colledion amseru ym mhob blwyddyn ariannol. Felly mae'r enillion/colledion amseru hyn yn codi o amodau'r farchnad yn hytrach nag amrywiannau yng ngwerth sylfaenol y contract. O ganlyniad i sicrwydd y llifau arian parod hyn mae'r grŵp wedi lleddfu ei sensitifrwydd sylfaenol i amrywiadau mewn arian cyfred i'r fath raddau fel nad oes angen cyflwyno dadansoddiad o ran sensitifrwydd.

Mae'r **risg o ran y farchnad** yn cynnwys risg o ran arian cyfred a risgiau eraill o ran prisiau.

Contract yw **blaengontract arian cyfred** i brynu neu werthu arian cyfred tramor yn gyfnewid am sterling ar gyfradd benodol ar ddyddiad penodol. Drwy ymrwymo i gyfradd gyfnewid benodol, caiff y risg o ran arian cyfred a all fod yn gysylltiedig â phryniant neu werthiant yn y dyfodol ei dileu.

**Risg o ran cyfradd llog:** Mae prif amlygiad y grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog yn codi ar fenthyciadau allanol. Ers mis Mawrth 2003 mae'r grŵp wedi benthyca ar gyfraddau llog cyfnewidiol ac yna wedi defnyddio cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog i reoli amlygiad y grŵp i amrywiadau yn y gyfradd llog a rhoi mwy o sicrwydd o lifau arian parod. Llunnir cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yn seiliedig ar ofynion benthyca rhagamcanol, felly bydd gwahaniaethau yn digwydd rhwng swm tybiannol y cyfnewidiadau, capiau a choleri a'r gofynion benthyca gwirioneddol. Effaith llunio'r cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog yw nad oes gan y grŵp, yn y tymor hwy, unrhyw sensitifrwydd sylfaenol sylweddol i amrywiadau yn y gyfradd llog ac felly ni chyflwynwyd dadansoddiad o ran sensitifrwydd.

Contract yw **cyfnewidiad cyfradd llog** rhwng dau barti i newid eu sail talu neu dderbyn o ran cyfradd llog naill ai o gyfraddau sefydlog i gyfraddau cyfnewidiol neu fel arall. Drwy bennu cyfradd llog sefydlog gellir bod yn sicr ynghylch lefel taliadau llog yn y dyfodol.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL parhad

### 24a Rheoli risg ariannol parhad

**Risg arall o ran pris asedau ariannol:** Mae'r grŵp yn buddsoddi arian parod gweddilliol mewn cronfeydd marchnad arian ac adneuon marchnad arian, felly nid yw'n agored i risgiau eraill o ran pris, megis risg o ran pris y farchnad.

**Risg arall o ran pris** yw unrhyw newid mewn pris heblaw'r hyn sy'n codi o newidiadau mewn cyfraddau arian cyfred neu gyfraddau llog.

**Y risg o ran credyd**

Mae a wnelo polisi rheoli risg credyd y Grŵp mewn perthynas â symiau masnach derbyniadwy â chynnal asesiadau rheolaidd o ddibynadwyedd ariannol cwsmeriaid, gan ystyried sawl ffactor megis eu sefyllfa ariannol a pherfformiad hanesyddol. Lle y'u nodir, mae termau credyd yn gyfnod o 30 diwrnod. Mae swm cario asedau ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol yn cynrychioli amlygiad mwyaf y Grŵp i risg o ran credyd mewn perthynas â'r asedau hyn.

**Risg o ran credyd** yw'r risg o golled ariannol i'r Grŵp os bydd cwsmer neu wrthbarti i offeryn ariannol yn methu â bodloni ei rwymedigaeth gytundebol.

**Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill:** Yr elfen fwyaf yw dyledwr ffi'r drwydded, £410.8miliwn (2009: £384.6miliwn, 2008: £368.4miliwn). Mae swm yr incwm y mae'r BBC yn ei gael yn uniongyrchol gysylltiedig â swm ffi'r drwydded a gesglir o aelwydydd yn y DU.

O'r £843.0miliwn sy'n weddill (2009: £363.1miliwn, 2008: £327.5miliwn) mae symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill, mae £43.7miliwn (2009: £40.8miliwn, 2008: £34.1miliwn) yn ddyledus ac nid yw wedi lleihau mewn gwerth.

Ar 31 Mawrth 2010 cafodd darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth o £9.1miliwn (2009: £12.5miliwn, 2008: £5.2miliwn) ei chydnabod.

**Buddsoddiadau:** Mae'r grŵp yn cyfyngu ei amlygiad i risg o ran credyd drwy ond buddsoddi mewn gwarannau hylifol a dim ond gyda gwrthbartïon sydd â gradd credyd ofynnol o A-, gyda gradd uwch hyd at AA- yn ofynnol yn dibynnu ar yr hyd a'r swm.

**Y risg o ran hylifedd**

Mae terfynau ar fenthyciadau'r BBC a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (gweler Nodyn 2dd). Er mwyn cydymffurfio â'r terfynau hyn ynghyd â thelerau unrhyw offerynnau dyled unigol, mae Trysorlys Grŵp y BBC yn rheoli benthyciadau'r grŵp drwy fonitro rhagolygon llif arian parod y grŵp yn barhaus. Deil y BBC ei hylifedd gwarged ar ffurf offerynnau ariannol y gellir eu trosi'n hawdd gyda sefydliadau ariannol uchel eu parch.

**Y risg o ran hylifedd** yw'r risg na fydd y Grŵp yn gallu bodloni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt godi.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL parhad

### 24b Gwerthoedd teg offerynnau ariannol

Mae'r tabl canlynol yn nodi gwerth teg a gwerth cario offerynnau ariannol y grŵp, mewn categorïau yn dibynnu ar sut y mesurir yr offeryn ariannol. Mae hefyd yn dangos y proffil aeddfedrwydd ar gyfer pob categori o ased a rhwymedigaeth ariannol.

| | Symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn £m | Symiau sy'n ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd £m | Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| **2010 – Gwerth cario a gwerth teg** | | | | |
| **Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 11.9 | 6.7 | – | **18.6** |
| **Benthyciadau a symiau derbyniadwy** | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 588.6 | – | – | **588.6** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 263.9 | – | – | **263.9** |
| **Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (8.9) | (13.3) | – | **(22.2)** |
| **Rhwymedigaethau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio** | | | | |
| Benthyciadau banc, gorddrafftiau a nodiadau benthyciadau | (1.7) | (211.4) | – | **(213.1)** |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | (452.8) | (3.5) | – | **(456.3)** |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | (5.7) | (34.9) | (568.3) | **(608.9)** |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL parhad

### 24b Gwerthoedd teg offerynnau ariannol parhad

| | Symiau sy'n ddyledus mewn llai na blwyddyn £m | Symiau sy'n ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd £m | Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na phum mlynedd £m | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| **2009 – Gwerth cario a gwerth teg** | | | | |
| **Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 10.9 | 12.2 | – | **23.1** |
| **Benthyciadau a symiau derbyniadwy** | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 526.2 | – | – | **526.2** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 124.3 | – | – | **124.3** |
| **Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu** | | | | |
| Buddsoddiadau eraill (nad ydynt yn gyfredol) | – | – | – | **–** |
| **Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (22.5) | (21.8) | – | **(44.3)** |
| **Rhwymedigaethau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio** | | | | |
| Benthyciadau banc, gorddrafftiau a nodiadau benthyciadau | (5.8) | (268.0) | – | **(273.8)** |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | (409.5) | – | – | **(409.5)** |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | (8.4) | (34.5) | (575.0) | **(617.9)** |
| **2008 – Gwerth cario a gwerth teg** | | | | |
| **Asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | 2.6 | 2.6 | – | **5.2** |
| **Benthyciadau a symiau derbyniadwy** | | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 504.4 | – | – | **504.4** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | 78.0 | – | – | **78.0** |
| **Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu** | | | | |
| Buddsoddiadau eraill (nad ydynt yn gyfredol) | – | – | 2.7 | **2.7** |
| **Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant** | | | | |
| Offerynnau ariannol deilliadol | (2.3) | (0.5) | (0.1) | **(2.9)** |
| **Rhwymedigaethau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio** | | | | |
| Benthyciadau banc, gorddrafftiau a nodiadau benthyciadau | (59.3) | (140.0) | – | **(199.3)** |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | (405.1) | – | – | **(405.1)** |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid | (7.6) | (19.1) | (590.9) | **(617.6)** |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL parhad

### 24b Gwerthoedd teg offerynnau ariannol parhad

Ar 31 Mawrth 2010 nid oes unrhyw wahaniaethau (2009: dim gwahaniaethau, 2008: dim gwahaniaethau) rhwng gwerth teg a gwerth cario unrhyw un o offerynnau ariannol y grŵp. Seilir gwerth teg blaengontractau arian cyfred, cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog a deilliadau sefydlog ar brisiau'r farchnad a chyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Fe'u cofnodir yn y datganiad o incwm a gwariant (gweler Nodiadau 3 a 7). Caiff yr offerynnau ariannol sy'n weddill eu cario ar gost neu gost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IAS 39 ar Gydnabod a Mesur Offerynnau Ariannol, sy'n brasamcanu yn unol â gwerth teg.

Mae'r prydlesau cyllid yn cynnwys £12.2miliwn (2009: £15.0miliwn, 2008: £18.0miliwn) yn ymwneud â Centre House Productions Limited. Mae Centre House Productions Limited yn ymrwymo i brydlesau cyllid fel ffordd o ariannu cynyrchiadau drama sy'n arwain at gostau cynhyrchu is i'r BBC. Cyfatebir y prydlesau cyllid hyn gan adneuon dirymu y gellir ond eu defnyddio i setlo'r rhwymedigaethau prydlesau cyllid ac felly nid ydynt yn cynrychioli asedau a rhwymedigaethau ar wahân. O ganlyniad, cânt eu clirio o gyfrif y credydwr prydlesau cyllid i ddangos y rhwymedigaeth net na ellir ei chyfateb ar ddiwedd y flwyddyn. Caiff yr adneuon dirymu hyn, £177.9miliwn ar 31 Mawrth 2010 (2009: £199.8miliwn, 2008: £219.0miliwn), eu strwythuro fel y bydd y prifswm ar adnau a'r llog a enillir yn ddigon i dalu'r rhwymedigaethau rhentu ar y prydlesau cyllid tan ddiwedd y brydles. Yn unol â hynny, ni chaiff ei gynnwys fel swm a fenthyciwyd at ddibenion cydymffurfio â therfynau benthyca'r BBC.

Ar 31 Mawrth 2009, roedd gan y Grŵp fenthyciadau banc gwarantedig yn ddyledus yn Worldwide Media Limited gwerth 155miliwn Rwpi (£2.1miliwn) (2008: 155miliwn Rwpi, £2.0miliwn). Ad-dalwyd y benthyciadau hyn yn llawn yn ystod y flwyddyn ac felly nid oes unrhyw warant yn ddyledus ar 31 Mawrth 2010.

**Adneuon dirymu** yw symiau a adneuir gyda banciau sy'n ennill yr union swm o log sydd ei angen i dalu ad-daliad cyfalaf ac elfen llog pob un o'r prydlesau cyllid. Caiff yr adneuon dirymu eu 'neilltuo' ac felly ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw drafodion heblaw am y taliadau cyfalaf a llog cytûn.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL parhad

### 24c Offerynnau ariannol deilliadol

Pennir gwerthoedd teg deilliadau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain gan ddefnyddio prisiau'r farchnad a chyfraddau cyfnewid ar ddyddiad y fantolen mewn marchnadoedd gweithredol sy'n eu dosbarthu fel Lefel 1. Pennir gwerth teg deilliadau sefydlog nas masnachir mewn marchnad weithredol gan ddefnyddio technegau model prisio. Mae pob mewnbwn sylweddol i'r technegau prisio yn seiliedig ar ddata marchnad arsylwadwy sy'n cyfiawnhau ei bennu fel Lefel 2. Ar 31 Mawrth 2010 a 31 Mawrth 2009 nid oes unrhyw wahaniaethau perthnasol rhwng y gwerth teg a gwerth cario unrhyw un o offerynnau ariannol eraill y Grŵp.

| | Lefel hierarchaeth gwerth teg | Asedau £m | Rhwymedigaethau £m |
|---|---|---|---|
| **2010** | | | |
| **Mwy na blwyddyn** | | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | **1** | **6.7** | **(3.7)** |
| Cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog | **1** | **–** | **(8.3)** |
| Deilliadau sefydlog | **2** | **–** | **(1.3)** |
| | | **6.7** | **(13.3)** |
| **Llai na blwyddyn** | | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | **1** | **11.9** | **(8.9)** |
| | | **11.9** | **(8.9)** |
| **2009** | | | |
| **Mwy na blwyddyn** | | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 1 | 11.8 | (10.4) |
| Cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog | 1 | 0.3 | (5.1) |
| Deilliadau sefydlog | 2 | 0.1 | (6.3) |
| | | 12.2 | (21.8) |
| **Llai na blwyddyn** | | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 1 | 10.9 | (20.3) |
| Deilliadau sefydlog | 2 | – | (2.2) |
| | | 10.9 | (22.5) |
| **2008** | | | |
| **Mwy na blwyddyn** | | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 1 | 2.2 | (0.2) |
| Cyfnewidiadau, capiau a choleri cyfradd llog | 1 | 0.3 | (0.1) |
| Deilliadau sefydlog | 2 | 0.1 | (0.3) |
| | | 2.6 | (0.6) |
| **Llai na blwyddyn** | | | |
| Blaengontractau arian cyfred tramor | 1 | 2.6 | (2.2) |
| Deilliadau sefydlog | 2 | – | (0.1) |
| | | 2.6 | (2.3) |

Ar 31 Mawrth 2010, roedd y grŵp wedi gwneud ymrwymiad net i werthu arian cyfred tramor gwerth £100.1miliwn (2009: ymrwymiad net i werthu £135.6miliwn, 2008: ymrwymiad net i brynu £17.9miliwn) sy'n aeddfeddu yn y cyfnod hyd at 2013 er mwyn pennu cost sterling ymrwymiadau drwy gydol y cyfnod hwn (Ewros a doleri'r UD yn bennaf). Ar ôl ystyried effeithiau'r blaengontractau cyfnewid arian cyfred tramor hyn, nid oedd gan y grŵp unrhyw amlygiad sylweddol i arian cyfred.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL parhad

### 24c Offerynnau ariannol deilliadol parhad

Rheolir risg o ran cyfradd llog drwy ddefnyddio cyfnewidiadau, capiau a choler cyfradd llog. Cyflawnir benthyciadau cyfradd sefydlog sterling drwy lunio trafodion cyfnewidiadau cyfradd llog; mae pob cyfnewidiad sy'n weddill yn aeddfedu erbyn mis Ebrill 2014. Gall effaith newid mewn cyfraddau llog gael ei chyfyngu hefyd drwy lunio trafodion capiau a choleri cyfradd llog.; mae pob cap a choler sy'n weddill yn aeddfedu erbyn mis Ebrill 2013. At ei gilydd, ymrwymwyd i £223.9miliwn (2009: £213.4miliwn, 2008: £80.0miliwn) o gyfnewidiadau a £212.2miliwn (2009: £209.6miliwn, 2008: £128.2miliwn) o gapiau a choleri. O'r rhain dim ond £193.9miliwn (2009: £108.4miliwn, 2008: £80.0miliwn) o gyfnewidiadau a £182.2miliwn (2009: £129.6miliwn, 2008: £128.2miliwn) o gapiau oedd yn weithredol ar 31 Mawrth 2010 gan fod cytundebau newydd yn cael eu trefnu i sicrhau bod benthyciadau wedi'u cwmpasu mewn modd addas yn y dyfodol agos. Mae hyn £164.7miliwn yn uwch (2009: £33.3miliwn yn is, 2008: £8.9miliwn yn uwch) na'r lefel gyfredol o fenthyciadau o £211.4miliwn (2009: £271.3miliwn, 2008: £199.3miliwn).

Yn unol ag IAS 39, mae'r Grŵp wedi adolygu contractau ar gyfer deilliadau sefydlog y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodir yn y safon. Mae unrhyw ddeilliadau sefydlog o'r fath wedi'u cydnabod ar werth teg.

Yn dibynnu ar y symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid a chyfraddau llog rhwng yr adeg y mae'r grŵp yn ymrwymo i'r trafodyn a diwedd y flwyddyn, gall y deilliadau hyn naill ai fod yn broffidiol ('yn gwneud arian') neu gallant fod yn colli arian ynddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, y rhesymeg wrth lunio'r deilliadau hyn yw peidio ag elwa ar farchnadoedd arian cyfred nac amrywiadau yn y gyfradd llog ond darparu sefydlogrwydd i lifau arian parod y BBC. Cymerir y symudiadau sy'n ymwneud â'r deilliadau hyn (h.y. lle maint yn gwneud elw neu'n gwneud colled) i ddatganiad o incwm a gwariant y grŵp am y flwyddyn.

### 24ch Rhagfantoli buddsoddiadau net mewn gweithrediadau tramor

Mae gan y grŵp fenthyciadau mewn doleri Awstralia (AUS$) y mae wedi eu dynodi yn eitem rhagfantoli buddsoddiad net mewn gweithrediadau tramor (Lonely Planet), er mwyn rhagfantoli rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid rhwng sterling a'r AUS$. Gwerth teg benthyciadau AUS$ ar 31 Mawrth 2008 oedd £90.3miliwn a gwerth teg y buddsoddiad ar 31 Mawrth 2008 oedd £93.7miliwn. Rhoddwyd y gorau i'r rhagfantoli buddsoddiad net o fis Medi 2008 yn dilyn setlo'r benthyciadau arian cyfred tramor cysylltiedig.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24 OFFERYNNAU ARIANNOL parhad

### 24d Risg o ran hylifedd

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar aeddfedrwydd cytundebol y Grŵp sy'n weddill ar gyfer ei rwymedigaethau ariannol nad ydynt yn rhai deilliadol (gan gynnwys rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid). Lluniwyd y tabl ar sail llifau arian parod heb eu disgowntio rhwymedigaethau ariannol yn seiliedig ar y dyddiad cynharaf y gall fod yn ofynnol i'r Grŵp dalu:

| | Llif arian parod £m | Llog £m | Prifswm £m |
|---|---|---|---|
| **2010** | | | |
| **Offerynnau cyfradd llog amrywiol** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | **163.9** | **0.8** | **163.1** |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | **51.1** | **1.1** | **50.0** |
| Mwy na phum mlynedd | **–** | **–** | **–** |
| **Offerynnau cyfradd llog sefydlog** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | **51.0** | **45.3** | **5.7** |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | **210.2** | **175.3** | **34.9** |
| Mwy na phum mlynedd | **1,138.4** | **570.1** | **568.3** |
| | **1,614.6** | **792.6** | **822.0** |
| **2009** | | | |
| **Offerynnau cyfradd llog amrywiol** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | 221.9 | 1.4 | 220.5 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 52.0 | 1.7 | 50.3 |
| Mwy na phum mlynedd | – | – | – |
| **Offerynnau cyfradd llog sefydlog** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | 53.7 | 45.3 | 8.4 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 214.6 | 180.4 | 34.2 |
| Mwy na phum mlynedd | 1,193.2 | 618.2 | 575.0 |
| | 1,735.4 | 847.0 | 888.4 |
| **2008** | | | |
| **Offerynnau cyfradd llog amrywiol** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | 154.6 | 6.0 | 148.6 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 53.4 | 2.1 | 51.3 |
| Mwy na phum mlynedd | – | – | – |
| **Offerynnau cyfradd llog sefydlog** | | | |
| Dim mwy na blwyddyn | 53.6 | 45.9 | 7.7 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na phum mlynedd | 194.8 | 177.0 | 17.8 |
| Mwy na phum mlynedd | 1,247.1 | 656.2 | 590.8 |
| | 1,703.5 | 887.2 | 816.2 |

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 24dd Cyfleusterau benthyca

| Cyfleuster | Cyfradd llog | **Cyfanswm sydd ar gael 31 Mawrth 2010 £m** | **Hawliwyd ar 31 Mawrth 2010 £m** | Cyfanswm ar gael 31 Mawrth 2009 £m | Hawliwyd ar 31 Mawrth 2009 £m | Cyfanswm ar gael 31 Mawrth 2008 £m | Hawliwyd ar 31 Mawrth 2008 £m | Dyddiad dod i ben neu adolygu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **UK Public Service Broadcasting** | | | | | | | | |
| Benthyciad yn seiliedig ar LIBOR neu orddrafft | Benthyciad – gorswm o 0.175% | **–** | **–** | – | – | 50 | – | Daeth i ben Mehefin 2008 |
| | Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol banc plws 1% | | | | | | | |
| Cytundeb cyfleuster credyd cylchol sterling | Benthyciad – gorswm o 0.45% | **200** | **–** | 200 | – | – | – | Mehefin 2013 |
| Llinellau marchnad arian heb ei neilltuo (benthyciadau byrdymor) | Gorswm o rhwng 0.125% a 0.5% dros LIBOR | **25** | **–** | 25 | – | 24 | – | |
| **BBC Commercial Holdings Limited** | | | | | | | | |
| Cytundeb cyfleuster credyd cylchol aml-arian cyfred ar gyfer benthyciadau a llythyrau credyd | LIBOR* plws 0.275% yn codi i LIBOR* plws 0.325% pan ddefnyddir mwy na 50% o'r cyfleuster. | **350**** | **161** | 350** | 218 | 350** | 145 | Mehefin 2012 |
| | Mae llythyr ffi credyd yr un peth â gorswm benthyca'r banc, ond nid yw'n cynnwys LIBOR | | | | | | | |
| Llinellau gorddrafft neu farchnad arian | Llinell marchnad arian – gorswm o 0.45% | **20** | **–** | 20 | – | 20 | 4 | Tachwedd 2010 |
| | Gorddrafft – cyfraddau sylfaenol banc plws 1% | | | | | | | |
| **BBC Worldwide Limited** | | | | | | | | |
| Benthyciad gyda Banc Buddsoddi Ewrop (50% wedi ei warantu drwy lythyrau credyd)** | Cost gyllido Banc Buddsoddi Ewrop ei hun plws gorswm o 0.09% ar fenthyciadau nas gwarantwyd | **50** | **50** | 50 | 50 | 50 | 50 | £20m Rhagfyr 2011 a £30m Mai 2012 |

* Bydd y gyfradd sylfaenol a ddefnyddir yn amrywio yn ôl yr arian cyfred a hawlir. Ar 31 Mawrth 2010 roedd £61.1miliwn (2009: £47.8miliwn, 2008: £90.3miliwn) wedi ei hawlio mewn AUS$ ac wedi ei gysylltu wedyn â BBSW yn hytrach na LIBOR. Hawlir pob swm arall mewn sterling ac fe'i cysylltir wedyn â LIBOR.

** O'r swm hwn, mae hyd at £100miliwn ar gael i roi llythyrau credyd o blaid Banc Buddsoddi Ewrop i ategu ei fenthyciadau o dan gyfleusterau i'r grŵp. Ar 31 Mawrth 2010, y cyfanswm a hawliwyd ar y cyfleuster hwn oedd £187.3miliwn a oedd yn cynnwys hawliadau arian parod o £161.7miliwn (2009: £243.5miliwn, 2008: £146.0miliwn) a £25.6miliwn (2009: £25.6miliwn, 2008: £25.6miliwn) a ddefnyddiwyd drwy gyfrwng llythyrau credyd.

Ni fu unrhyw achosion o ddiffygdalu na thorri cyfamodau mewn perthynas â'r cyfleusterau uchod yn ystod y flwyddyn (2009: dim, 2008: dim).

Yn ogystal â'r cyfleusterau uchod, mae gan y grŵp gyfleusterau llai eraill, na hawliwyd unrhyw beth arnynt ar ddiwedd y flwyddyn (2009: £3.3miliwn, 2008: £0.7miliwn) a ddefnyddir i reoli cyfalaf gweithio.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 25 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

### 25a Trafodion â phartïon cysylltiedig heb gynnwys personél rheoli allweddol

| | Cyd-fentrau, partneriaethau cyswllt a buddsoddiadau eraill | | Cynllun Pensiwn y BBC | |
|---|---|---|---|---|
| | **2010 £m** | 2009 £m | **2010 £m** | 2009 £m |
| Rhoi gwasanaethau | **83.8** | 108.1 | **–** | – |
| Derbyn gwasanaethau | **(52.0)** | (57.3) | **–** | – |
| Cyfraniadau pensiwn | **–** | – | **214.3** | 176.0 |
| Difidendau a dderbyniwyd | **10.7** | 37.0 | **–** | – |
| | **42.5** | 87.8 | **214.3** | 176.0 |

| | Symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig | | | Symiau sy'n ddyledus i bartïon cysylltiedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m | **2010 £m** | 2009 £m | 2008 £m |
| Cynllun Pensiwn y BBC | **–** | – | – | **(9.1)** | (4.0) | (2.7) |
| Cyd-fentrau, partneriaethau cyswllt a buddsoddiadau eraill | **35.8** | 46.1 | 40.7 | **(2.3)** | (7.1) | (2.6) |
| | **35.8** | 46.1 | 40.7 | **(11.4)** | (11.1) | (5.3) |

Ym mhob un o'r trafodion, negodwyd y telerau masnachu ar sail hyd braich.

Mae Grŵp y BBC hefyd yn cynnal trafodion amrywiol â'r llywodraeth ac awdurdodau lleol ar sail hyd braich. Mae'r trafodion hyn yn cynnwys cytundebau treth gyngor a thaliadau treth gorfforaeth.

### 25b Trafodion â phersonél rheoli allweddol

| Aelod o bersonél rheoli allweddol | Aelod agos o'r teulu a gyflogir ar delerau ac amodau safonol | Contractau artistiaid ag aelod agos o'r teulu | Trafodion â chwmni y mae aelod a/neu aelod agos o'r teulu yn berchen arno/rheoli | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolwyr:** | | | | |
| Diane Coyle | ✔ | | | |
| Richard Tait | ✔ | | | |
| **Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol ac aelodau eraill o bersonél rheoli allweddol:** | | | | |
| Jana Bennett | | | ✔ | Juniper Communications Limited* |
| Peter Salmon | | ✔ | | Gwraig Sarah Lancashire nid oedd y swm a gafwyd yn 2010 yn sylweddol (yn 2009 cafwyd £185,000) |
| Samir Shah | ✔ | | ✔ | Juniper Communications Limited* |

* Mae Juniper Communications Limited yn eiddo ar y cyd i gyfarwyddwr anweithredol y BBC Samir Shah (70%), ei wraig Belkis Shah (20%) a gŵr Jana Bennett (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol y BBC), Richard Clemmow (10%). Yn ystod y flwyddyn, cafodd y BBC wasanaethau gan Juniper Communications Limited gwerth £893,503 (2009: £715,261), gyda £55,757 yn ddyledus ar 31 March 2010 (2009: talwyd yn llawn). Yn ogystal â hyn, cafodd Juniper Communications Limited wasanaethau gan y BBC gwerth £109,000 (2009: £108,520), a dalwyd yn llawn ar 31 March 2010 (2009: £10,684 yn ddyledus ar 31 Mawrth 2009).

Cyhoeddir gwybodaeth am strwythur y BBC, cyflogau uwch aelodau o staff a threuliau ar wefan y BBC. Mae'r wybodaeth hon nad yw wedi'i harchwilio ar gael yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/executive/eb.

Mae **Partïon cysylltiedig** yn cynnwys personél rheoli allweddol, eu teuluoedd agos ac endidau allanol a reolir ganddynt.

**Personél rheoli allweddol** yw Ymddiriedolwyr y BBC, aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide a Chyfarwyddwr Uned yr Ymddiriedolaeth.

Eglurir y trafodion rhwng y BBC a'r partïon cysylltiedig hynny yn y nodyn hwn.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 26 BUDDIANNAU MEWN CYD-FENTRAU, PARTNERIAETHAU CYSWLLT AC IS-GWMNÏAU

Mae'r grŵp yn dal buddiannau (uniongyrchol ac anuniongyrchol) yn y cyd-fentrau, partneriaethau cyswllt ac is-gwmnïau sylweddol a restrir isod sydd, heblaw lle y nodir fel arall, wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Mae rhestr lawn o gyd-fentrau, partneriaethau cyswllt ac is-gwmnïau ar gael ar gais o'r cyfeiriad canlynol: The General Counsel and Secretary, BBC, Media Centre, 201 Wood Lane, London W12 7TQ.

### 26a Cyd-fentrau sylweddol a'u gweithgareddau

Mae gan y grŵp fuddiant ecwiti o 50% yn y cyd-fentrau canlynol sydd oll wedi eu hymgorffori ym Mhrydain Fawr ac wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr, oni nodir fel arall:

**Cyd-fentrau** yw busnesau y mae'r BBC yn eu rheoli ar y cyd â phartïon eraill.

| Enw'r endid | Gweithgaredd | Dyddiad cyfrifyddu |
|---|---|---|
| **Cyd-fentrau masnachol:** | | |
| UK Gold Holdings Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2010 |
| UK Channel Management Limited | Sianelau | 31 Mawrth 2010 |
| UK VoD LLP* | Datblygu | 31 Rhagfyr 2009 |
| JV Programmes LLC (yn gorfforedig yn UDA) | Gwerthiannau a dosbarthu | 31 Mawrth 2010 |
| Ragdoll Worldwide Holdings Limited | Cylchgronau a phlant | 31 Mawrth 2010 |
| **Cyd-fentrau UK Public Service Broadcasting** | | |
| DTV Services Limited** | Marchnata | 31 Awst 2009 |
| Freesat (UK) Limited | Darparu gwasanaeth teledu lloeren a ddarlledir am ddim | 31 Mawrth 2010 |

* 33% o fuddiant ecwiti. Rhagfyr yw diwedd blwyddyn VoD LLP gan iddo gael ei sefydlu ym mis Chwefror 2008, rhoddwyd cyfrif o ran ecwiti ar gyfer canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2009.

** 20% o ddaliant ecwiti. Awst yw diwedd blwyddyn DTV Services Limited, rhoddwyd cyfrif o ran ecwiti ar gyfer canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Awst 2009

### 26b Partneriaethau cyswllt sylweddol a'u gweithgareddau

Busnesau yw **partneriaethau cyswllt** y mae gan y BBC gryn ddylanwad drostynt ond nid rheolaeth lwyr.

| | Dal cyfranddaliadau cyffredin a ddyroddwyd | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| **Partneriaethau cyswllt masnachol:** | | |
| Frontline Limited | 23 | Cylchgronau a phlant |
| OPL Holdings Limited | 39 | Cylchgronau a phlant |
| 3sixtymedia Limited | *10 | Cynhyrchu |
| The Animal Planet (Europe) Partnership | 50 | Sianelau |
| **Partneriaethau cyswllt UK Public Service Broadcasting** | | |
| Parliamentary Broadcasting Unit Limited | 50 | Darparwr cynnwys |
| Broadcasters Audience Research Board Limited (BARB) | ** | Ymchwil cynulleidfa |
| The Commonwealth Broadcasting Association | ** | Fforwm darlledu |
| Radio Joint Audience Research Limited (RAJAR) | 50 | Ymchwil cynulleidfa |

* Mae gan y BBC ddaliant o 10% o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau 3sixtymedia Limited ond 20% o'r cyfranddaliadau cyffredin Dosbarth A.

** Mae Broadcasters Audience Research Board Limited a The Commonwealth Broadcasting Association yn gwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac mae'r BBC yn gyd-aelod ohonynt ynghyd â darlledwyr eraill.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 26 BUDDIANNAU MEWN CYD-FENTRAU, PARTNERIAETHAU CYSWLLT AC IS-GWMNÏAU parhad

### 26c Ymgymeriadau is-gwmnïau

Mae **ymgymeriadau is-gwmnïau** yn fusnesau a reolir gan y BBC.

| Enw'r endid | | Gweithgaredd |
|---|---|---|
| **Is-gwmnïau Masnachol:** | | |
| BBC Commercial Holdings Limited | * | Cwmni daliannol |
| BBC Worldwide Limited | ** | Cyhoeddi, sianelau a dosbarthu rhaglenni |
| BBC World News Limited | ** | Sianelau |
| BBC Ventures Group Limited | ** | Cwmni daliannol |
| BBC Studios and Post Production Limited | ^ ** | Cyfleusterau a gwasanaethau gwneud rhaglenni |
| Lonely Planet Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | ** | Cyhoeddwr Llyfrau Teithio |
| 2entertain Limited | ^^ ** | Adloniant cartref |
| BBC Worldwide Australia Pty Limited (yn gorfforedig yn Awstralia) | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC Magazines Limited | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC Magazines Rights Limited | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC Worldwide Americas Inc. (yn gorfforedig yn UDA) | ** | Cwmni buddsoddi |
| BBC World Distribution Limited | ** | Dosbarthu rhaglenni |
| **Is-gwmnïau a ymgorfforir i weithredu ar ran UK Public Service Broadcasting:** | | |
| BBC Property Limited | * | Eiddo |
| Centre House Productions Limited | * | Ariannu cynyrchiadau |
| Digital UK Limited*** | * | Newid i ddigidol |
| DSHS Limited | * | Newid i ddigidol |

* Yn berchen arno'n uniongyrchol.

** Yn berchen arno'n anuniongyrchol.

*** Mae'r BBC yn rheoli 56% o hawliau pleidleisio Digital UK Limited. Mae ei ganlyniadau wedi'u cyfuno yng nghyfrifon y grŵp. Mae Digital UK Limited yn gwmni sy'n gyfyngedig drwy warant y mae'r BBC yn gyd-aelod ohono. Yr aelodau eraill a'u hawliau pleidleisio yn Digital UK Limited yw: ITV plc 11%, Channel Four Television Corporation 11%, Channel Five Broadcasting Limited 8.75%, National Grid Wireless 6.25%, SON Limited 3.5%, S4C 2.25% a Teletext Limited 1.25%.

^ Newidiodd BBC Resources Limited ei enw i BBC Studios and Post Production Limited ar 1 Ebrill 2009.

^^ Perchenogwyd a chyfrifwyd am 60% o 2entertain fel cyd-fenter hyd at 5 Awst 2009.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 27 NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL

Mae'r BBC wedi mabwysiadu IFRS yn y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010. Mae'r canlyniadau a'r fantolen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 a 2008 ychydig yn wahanol i'r datganiadau ariannol IFRS enghreifftiol a gyhoeddwyd yn flaenorol, oherwydd wrth lunio fersiwn terfynol polisïau cyfrifyddu IFRS grŵp y BBC a'r dull o ymdrin â'r eithriadau a'r opsiynau sydd ar gael mewn IFRS, mireiniwyd y broses o gymhwyso'r polisïau hyn ymhellach. Mae'r cysoniadau a nodir isod yn amlygu'r effeithiau allweddol ar y warged am y flwyddyn ariannol a'r asedau net.

| Cysoni'r warged o UK GAAP i IFRS | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £m** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £m |
|---|---|---|
| Gwarged (UK GAAP) | **488.2** | 254.2 |
| IAS 17 – Lease Classification | **(1.5)** | (15.4) |
| IAS 38 – Goodwill and intangible assets | **7.4** | 5.4 |
| IAS 19 – Employee benefits | **2.6** | 1.3 |
| Arall | **(19.1)** | (1.7) |
| Gwarged (IFRS) | **477.6** | 243.8 |

| Cysoni'r golled gynhwysfawr o UK GAAP i IFRS | **Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £m** | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 £m |
|---|---|---|
| Colled (UK GAAP) | **(1,377.5)** | (528.2) |
| IAS 17 – Lease Classification | **(1.5)** | (15.4) |
| IAS 38 – Goodwill and intangible assets | **7.4** | 6.1 |
| IAS 19 – Employee benefits | **2.6** | 1.3 |
| Arall | **(19.1)** | (0.3) |
| Colled (IFRS) | **(1,388.1)** | (536.5) |

| Cysoni'r (rhwymedigaethau)/asedau net o UK GAAP i IFRS | **31 Mawrth 2010 £m** | 31 Mawrth 2009 £m | 1 Ebrill 2008 £m |
|---|---|---|---|
| (Rhwymedigaethau)/asedau net UK GAAP | **(383.3)** | 990.1 | 1,519.2 |
| IAS 17 – Lease Classification | **(160.8)** | (159.2) | (143.7) |
| IAS 38 – Goodwill and intangible assets | **25.1** | 17.2 | 13.5 |
| IAS 19 – Employee benefits | **(14.1)** | (16.7) | (18.3) |
| Arall | **0.9** | 20.9 | 18.4 |
| (Rhwymedigaethau)/asedau net IFRS | **(532.2)** | 852.3 | 1,389.1 |

### Mae'r prif addasiadau i IFRS fel a ganlyn:

**a) IAS 17 ar Ailddosbarthu prydlesau**

Dosbarthodd y BBC ei brydlesau fel naill ai prydlesau cyllid neu brydlesau gweithredu yn unol â SSAP 21 'Leases and Hire Purchase Contracts'. Mae Prydlesau IAS 17 yn cynnwys diffiniadau tebyg ar gyfer prydlesau cyllid a gweithredu. Fodd bynnag, mae'n nodi gwahanol ofynion o ran pennu a oes gan brydles unigol nodweddion prydles cyllid. Yn arbennig, mae fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i rannu prydlesau eiddo'n gydrannau sy'n cynnwys prydles tir a phrydles yr adeilad; nid oes angen gwneud hyn o dan SSAP 21.

O ganlyniad ailddosbarthwyd elfennau adeiladau rhai prydlesau eiddo (yn benodol Broadcasting House, White City a Pacific Quay), a ddosberthir fel prydlesau gweithredu o dan SSAP 21, fel prydlesau cyllid o dan IFRS, O ran y prydlesau hyn cydnabuwyd yr adeilad fel ased eiddo (sy'n dibrisio yn ystod bywyd y brydles) a chofnodwyd rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer y taliadau prydles, heb gynnwys taliadau ariannu a gydnabyddir dros gyfnod y brydles. Hefyd, dilëwyd y gyfran berthnasol o rent y brydles weithredu a gynhwyswyd fel traul yn flaenorol.

Mae elfennau tir y prydlesau hyn yn parhau i gael eu dosbarthu a'u cyfrif fel prydlesau gweithredu.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP PARHAD

## 27 NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL parhad

Gwelodd y trafodion eiddo hyn y BBC, sy'n berchen ar rydd-ddaliad y safleoedd, yn mynd ati'n gyntaf i roi prydles hir i drydydd parti ac yna'n adlesu'r eiddo ar brydles fer, gan felly barhau i feddiannu'r eiddo. Yn unol â UK GAAP, fel rheol ystyrir bod rhoi prydles hir yn gyfystyr â gwerthu'r eiddo gydag unrhyw warged ar y gwerthiant yn cael ei chydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant ar adeg gwerthu'r eiddo. O dan IFRS, rhaid ystyried elfennau tir ac adeiladau'r prydlesau hyn ar wahân; caiff yr elfen tir ei thrin fel prydles weithredu a'r elfen adeiladau fel prydles cyllid. Hefyd, ystyriwyd bod yr elw yn deillio o roi'r prydlesau hir, o dan drefniadau gwerthu ac adlesu, yn incwm gohiriedig i'w ryddhau i'r datganiad incwm dros gyfnod y brydles (hyd at 150 mlynedd) a bod unrhyw warged a nodwyd yn wreiddiol o dan UK GAAP yn cael ei gwrthdroi.

Nid effeithiwyd ar brydlesau nad ydynt yn ymwneud ag eiddo.

**b) IAS 38 ar Ewyllys da ac asedau anniriaethol**

Ewyllys da a brynwyd

Yn unol ag FRS 10 ar Ewyllys Da ac Asedau Anniriaethol, amorteiddiodd y BBC ewyllys da a brynwyd ac a gyfalafwyd yn ystod ei fywyd disgwyliedig amcangyfrifedig, sef 20 mlynedd fel arfer. O dan IFRS ni chaiff ewyllys da a brynwyd ei amorteiddio ac yn hytrach mae'n destun prawf blynyddol o leihad mewn gwerth. O ganlyniad cafodd y gwaith o amorteiddio ewyllys da am y flwyddyn ei wrthdroi ac ni nodwyd unrhyw leihad mewn gwerth ar adeg newid. Yn unol â'r eithriad mabwysiadu am y tro cyntaf, nid adferwyd ewyllys da a amorteiddiwyd, neu a ddilëwyd yn erbyn cronfeydd wrth gefn, cyn dyddiad y newid.

Asedau anniriaethol

Er bod y diffiniadau o asedau anniriaethol yn FRS 10 ac IAS 38 yn debyg, mae IFRS yn ei gwneud yn ofynnol i roi cyfrif am rai asedau fel asedau anniriaethol a fyddai'n cael eu trin fel asedau sefydlog diriaethol o dan UK GAAP, er enghraifft costau meddalwedd cyfrifiadurol. Yn yr un modd mae buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol yn bodloni diffiniad IAS 38 o asedau anniriaethol. Nid yw'r ailddosbarthiadau hyn yn effeithio ar y broses o fesur yr asedau (gan gynnwys amorteiddio dros eu bywyd economaidd defnyddiol).

**c) IAS 19 ar Fuddiannau cyflogeion**

O dan UK GAAP, ni ddarparodd y BBC ar gyfer tâl gwyliau, h.y. gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn. I'r gwrthwyneb, mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol i gydnabod cost absenoldebau byrdymor a delir pan fydd cyflogeion yn rhoi gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawliad. O ganlyniad gwnaed croniad ychwanegol i adlewyrchu hyn.

# NODIADAU I DDATGANIADAU ARIANNOL Y GRŴP
PARHAD

## 27 NEWID I SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL parhad

**ch) Arall**

Caiff yr addasiadau canlynol eu cynnwys gyda'r addasiadau eraill.

Mae un yn ymwneud â grwpiau gwaredu asedau a rhwymedigaethau (sy'n ffurfio unedau busnes gyda'i gilydd) a fyddai, yn unol ag IFRS 5 ar Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu a Gweithrediadau a Derfynwyd, yn cael eu dosbarthu fel asedau i'w gwerthu. O dan IFRS 5, o'r dyddiad y bydd grŵp gwaredu yn bodloni'r diffiniad o a ddelir i'w gwerthu, ni cheir dibrisio (nac amorteiddio) unrhyw asedau yn y grŵp gwaredu mwyach a chaiff y grŵp gwaredu ei brisio ar yr isaf o'i werth cario neu ei werth teg llai costau i werthu gyda'r asedau a'r rhwymedigaethau a gyflwynwyd ar wahân ar y fantolen. Gwrthdrowyd amorteiddio ers y dyddiad y bodlonodd y grŵp gwaredu'r meini prawf i'w gwerthu, ond ni fu angen addasu mesur ymhellach a chaiff yr asedau a'r rhwymedigaethau yn y grŵp gwaredu eu hailgyflwyno fel rhai a ddelir i'w gwerthu.

Er bod UK GAAP ac IFRS yn ei gwneud yn ofynnol i roi cyfrif am bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau, neu'n caniatáu hynny, gan ddefnyddio fersiynau o'r dull ecwiti, mae rhai gwahaniaethau yn y broses o roi'r dulliau ar waith. Yn arbennig, lle y mabwysiedir y dull ecwiti, mae IAS 28 ar Fuddsoddiadau mewn Partneriaethau Cyswllt (sy'n disgrifio'r dull ecwiti p'un a gaiff ei gymhwyso i fuddsoddiadau mewn partneriaethau cyswllt neu gyd-fentrau) ac IAS 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyfran o warged weithredu partneriaethau cyswllt (a chyd-fentrau) a gynhwysir yn y datganiad o incwm fod yn seiliedig ar gyfran y buddsoddwyr o elw ar ôl treth a buddiannau lleiafrifol. I'r gwrthwyneb mae FRS 9 ar Bartneriaethau Cyswllt a Chyd-fentrau yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddwr gynnwys ei gyfran o ganlyniadau gweithredu ac yna ychwanegu ei gyfran o unrhyw eitemau dilynol (ee trethiant) i'r llinell berthnasol.

Mae UK GAAP yn ei gwneud yn ofynnol i arolwg o leihad mewn gwerth ewyllys da gael ei gynnal lle y nodir bod bywyd economaidd defnyddiol yn fwy na blwyddyn, neu lle mae amgylchiadau'n dynodi na fydd modd adennill y swm cario efallai. I'r gwrthwyneb, mae IAS 36 ar Leihad mewn gwerth asedau yn ei gwneud yn ofynnol i bob ewyllys da gael ei adolygu unwaith y flwyddyn er mwyn gweld a oes unrhyw leihad, neu yn amlach os bydd arwyddion y gallai fod lleihad. Yn sgîl arolwg blynyddol 2010 nodwyd lleihad mewn gwerth ewyllys da (gweler Nodyn 9) oherwydd amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid rhwng doler Awstralia, Doler yr UD a Sterling.

# CYSONI SAFONAU CYFRIFYDDU UK GAAP
## NID YW HYN YN RHAN O'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae Siarter a chytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i 'ddatganiad o gyfrifon' gael ei baratoi.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cwmnïau a restrir a'r sector cyhoeddus wedi dechrau cyflwyno adroddiadau yn unol ag IFRS, ac mae safonau cyfrifyddu'r DU yn cael eu huno ag IFRS. Eleni bydd Trysorlys EM yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ddarparu gwybodaeth ariannol fanwl ar sail IFRS at ddiben cysoni yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2009/10.

Cyflwynwyd prif wybodaeth ariannol y BBC o dan IFRS ar gyfer 2009/10, sy'n cynnig mwy o dryloywder i ddarllenwyr o ran gofynion safonau cyfrifyddu'r DU, ac felly mae'n gyson â'r gofyniad cyffredinol i'r BBC fod yn agored ac yn dryloyw.

Mae'r BBC wedi cwblhau'r cysoniadau canlynol rhwng y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a ddangosir yn y datganiadau ariannol ar dudalennau blaenorol, a'r canlyniadau a baratowyd o dan safonau cyfrifyddu'r DU i helpu'r darllenwyr i ddeall y newidiadau.

Mae safonau cyfrifyddu'r DU a ddefnyddiwyd yn gyson â'r rhai a gyhoeddwyd yn natganiadau ariannol 31 Mawrth 2009.

# DATGANIAD INCWM CYFUNOL
## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

| 2010 | UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm y Gr ŵp** | **4,789.8** | 0.6 | – | – | – | – | **4,790.4** |
| Costau gweithredu ac eithrio costau eithriadol | **(4,603.5)** | 38.2 | 4.9 | 1.8 | (18.6) | 36.7 | **(4,540.5)** |
| Incwm pensiwn eithriadol | **334.1** | – | – | – | – | – | **334.1** |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | **(25.2)** | – | – | – | – | (36.7) | **(61.9)** |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | **(4,294.6)** | 38.2 | 4.9 | 1.8 | (18.6) | – | **(4,268.3)** |
| **Gwarged weithredu'r Grŵp** | **495.2** | 38.8 | 4.9 | 1.8 | (18.6) | – | **522.1** |
| Cyfran o warged weithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **44.1** | – | 1.7 | – | (0.5) | (8.4) | **36.9** |
| **Gwarged weithredu: grŵp a chyfran o bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau** | **539.3** | 38.8 | 6.6 | 1.8 | (19.1) | (8.4) | **559.0** |
| Elw o werthu a therfynu gweithrediadau | **2.0** | – | – | – | – | – | **2.0** |
| Elw o waredu asedau sefydlog | **39.0** | – | – | – | – | – | **39.0** |
| **Gwarged cyn llog a threthiant** | **580.3** | 38.8 | 6.6 | 1.8 | (19.1) | (8.4) | **600.0** |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | **2.8** | – | – | – | – | 443.0 | **445.8** |
| Llog taladwy ac eitemau tebyg | **(32.3)** | (40.3) | – | – | – | (460.9) | **(533.5)** |
| Cost ariannu net arall (o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig) | **(20.3)** | – | – | – | – | 20.3 | **–** |
| **Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | **530.5** | (1.5) | 6.6 | 1.8 | (19.1) | (6.0) | **512.3** |
| Trethiant | **(42.3)** | – | 0.8 | 0.8 | – | 6.0 | **(34.7)** |
| **Gwarged ar ôl trethiant a chyn buddiant lleiafrifol** | **488.2** | (1.5) | 7.4 | 2.6 | (19.1) | – | **477.6** |
| Buddiant lleiafrifol | **(3.5)** | – | (0.8) | – | – | – | **(4.3)** |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | **484.7** | (1.5) | 6.6 | 2.6 | (19.1) | – | **473.3** |

# DATGANIAD INCWM CYFUNOL
## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| 2009 | UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm y Grŵp** | **4,605.7** | 1.7 | – | – | 0.6 | 52.8 | **4,660.8** |
| Costau gweithredu ac eithrio costau eithriadol | **(4,461.8)** | 26.8 | 2.3 | 1.3 | – | (38.2) | **(4,469.6)** |
| Costau ailstrwythuro | **(29.9)** | – | – | – | – | (10.4) | **(40.3)** |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | **(4,491.7)** | 26.8 | 2.3 | 1.3 | – | (48.6) | **(4,509.9)** |
| **Gwarged weithredu'r Grŵp** | **114.0** | 28.5 | 2.3 | 1.3 | 0.6 | 4.2 | **150.9** |
| Cyfran o warged weithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **49.3** | – | 2.3 | – | 1.8 | (23.6) | **29.8** |
| **Gwarged weithredu: grŵp a chyfran o bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau** | **163.3** | 28.5 | 4.6 | 1.3 | 2.4 | (19.4) | **180.7** |
| Colled o werthu a therfynu gweithrediadau | **(1.1)** | – | – | – | (1.8) | – | **(2.9)** |
| Elw o waredu asedau sefydlog | **15.9** | – | – | – | – | – | **15.9** |
| **Gwarged cyn llog a threthiant** | **178.1** | 28.5 | 4.6 | 1.3 | 0.6 | (19.4) | **193.7** |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | **9.1** | – | – | – | – | 624.8 | **633.9** |
| Llog taladwy ac eitemau tebyg | **(26.3)** | (43.9) | – | – | – | (506.1) | **(576.3)** |
| Incwm ariannu net arall (o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig) | **117.3** | – | – | – | – | (117.3) | **–** |
| **Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | **278.2** | (15.4) | 4.6 | 1.3 | 0.6 | (18.0) | **251.3** |
| Trethiant | **(24.0)** | – | 0.8 | – | (2.3) | 18.0 | **(7.5)** |
| **Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | **254.2** | (15.4) | 5.4 | 1.3 | (1.7) | – | **243.8** |
| Buddiant lleiafrifol | **(0.5)** | – | (0.6) | – | – | – | **(1.1)** |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | **253.7** | (15.4) | 4.8 | 1.3 | (1.7) | – | **242.7** |

# DATGANIAD CYFUNOL O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG

| 2010 | UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged y Grŵp am y flwyddyn ariannol | **484.7** | (1.5) | 6.6 | 2.6 | (19.1) | **473.3** |
| Gwahaniaethau cyfnewid wrth drosi gweithrediadau tramor | **3.9** | – | – | – | – | **3.9** |
| Cydnabod a throsglwyddo eitemau rhagfantoli llifau arian parod | **1.0** | – | – | – | – | **1.0** |
| Treth ar eitemau a gymerir yn uniongyrchol i ecwiti | **(0.3)** | – | – | – | – | **(0.3)** |
| Colledion actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | **(1,871.4)** | – | – | – | – | **(1,871.4)** |
| Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n ymwneud â'r flwyddyn | **(1,382.1)** | (1.5) | 6.6 | 2.6 | (19.1) | **(1,393.5)** |

| 2009 | UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged y Grŵp am y flwyddyn ariannol | **253.7** | (15.4) | 4.8 | 1.3 | (1.7) | **242.7** |
| Gwahaniaethau cyfnewid wrth drosi gweithrediadau tramor | **22.9** | – | 0.7 | – | – | **23.6** |
| Colledion actiwaraidd ar gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig | **(784.2)** | – | – | – | – | **(784.2)** |
| Cydnabod cyfran o rwymedigaethau cyd-fentrau | **(19.4)** | – | – | – | – | **(19.4)** |
| Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig sy'n ymwneud â'r flwyddyn | **(527.0)** | (15.4) | 5.5 | 1.3 | (1.7) | **(537.3)** |

# MANTOLEN GYFUNOL
## AR 31 MAWRTH 2010

| Ar 31 Mawrth 2010 | UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | | | |
| Asedau anniriaethol | **117.7** | – | 90.0 | – | (4.9) | 87.2 | **290.0** |
| Asedau diriaethol | **745.8** | 470.3 | (58.9) | – | 0.4 | (0.5) | **1,157.1** |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **106.1** | – | – | – | – | (106.1) | **–** |
| Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau | **44.8** | – | 2.5 | – | (1.1) | – | **46.2** |
| Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt | **18.3** | – | 0.5 | – | – | (7.2) | **11.6** |
| | **1,032.7** | 470.3 | 34.1 | – | (5.6) | (26.6) | **1,504.9** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | | | |
| Stociau | **551.8** | – | (0.1) | – | 0.2 | 130.4 | **682.3** |
| Dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **125.0** | (49.7) | 0.5 | 0.8 | (6.4) | (16.3) | **53.9** |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **941.0** | 447.9 | 0.5 | – | (0.2) | (123.5) | **1,265.7** |
| **Cyfanswm y dyledwyr** | **1,066.0** | 398.2 | 1.0 | 0.8 | (6.6) | (139.8) | **1,319.6** |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | **–** | – | – | – | – | 30.0 | **30.0** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | **272.2** | – | – | – | – | (8.3) | **263.9** |
| | **1,890.0** | 398.2 | 0.9 | 0.8 | (6.4) | 12.3 | **2,295.8** |
| **Rhwymedigaethau a ddelir i'w gwerthu** | **–** | – | – | – | – | (8.4) | **(8.4)** |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **(1,178.5)** | (353.4) | (1.9) | (12.6) | (10.0) | 22.7 | **(1,533.7)** |
| **Asedau cyfredol net** | **711.5** | 44.8 | (1.0) | (11.8) | (16.4) | 26.6 | **753.7** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | **1,744.2** | 515.1 | 33.1 | (11.8) | (22.0) | – | **2,258.6** |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | **(320.3)** | (675.9) | – | (2.3) | (4.5) | – | **(1,003.0)** |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | **(160.1)** | – | (8.0) | – | 27.4 | – | **(140.7)** |
| **Asedau net ac eithrio rhwymedigaeth pensiwn** | **1,263.8** | (160.8) | 25.1 | (14.1) | 0.9 | – | **1,114.9** |
| Rhwymedigaeth pensiwn | **(1,647.1)** | – | – | – | – | – | **(1,647.1)** |
| **Rhwymedigaethau net** | **(383.3)** | (160.8) | 25.1 | (14.1) | 0.9 | – | **(532.2)** |
| **Cynrychiolir gan** | | | | | | | |
| Cronfa weithredu wrth gefn | **(357.1)** | (160.8) | 18.4 | (14.1) | (1.5) | (32.5) | **(547.6)** |
| Cronfa arall wrth gefn | **(36.3)** | – | – | – | – | – | **(36.3)** |
| Cronfa ragfantoli wrth gefn | **0.5** | – | – | – | – | – | **0.5** |
| Cronfa drosi wrth gefn | **–** | – | 0.7 | – | 2.4 | 32.5 | **35.6** |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | **(392.9)** | (160.8) | 19.1 | (14.1) | 0.9 | – | **(547.8)** |
| Buddiant lleiafrifol | **9.6** | – | 6.0 | – | – | – | **15.6** |
| | **(383.3)** | (160.8) | 25.1 | (14.1) | 0.9 | – | **(532.2)** |

# MANTOLEN GYFUNOL

## AR 31 MAWRTH 2009

| Ar 31 Mawrth 2009 | UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | | | |
| Asedau anniriaethol | **95.7** | – | 85.3 | – | (11.6) | 86.5 | **255.9** |
| Asedau diriaethol | **728.0** | 523.2 | (62.3) | – | (0.1) | (0.6) | **1,188.2** |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **99.7** | – | – | – | – | (99.7) | **–** |
| Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau | **68.8** | – | 3.9 | – | (0.7) | – | **72.0** |
| Buddiannau mewn partneriaethau cyswllt | **11.2** | – | 0.5 | – | – | – | **11.7** |
| | **1,003.4** | 523.2 | 27.4 | – | (12.4) | (13.8) | **1,527.8** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | | | |
| Stociau | **491.0** | – | (0.1) | – | 11.9 | 112.7 | **615.5** |
| Dyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **122.2** | 385.3 | 0.5 | – | – | (37.8) | **470.2** |
| Dyledwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | **831.3** | 2.2 | – | – | – | (74.9) | **758.6** |
| **Cyfanswm y dyledwyr** | **953.5** | 387.5 | 0.5 | – | – | (112.7) | **1,228.8** |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | **–** | – | – | – | – | 0.6 | **0.6** |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | **124.3** | – | – | – | – | – | **124.3** |
| | **1,568.8** | 387.5 | 0.4 | – | 11.9 | 0.6 | **1,969.2** |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **(952.4)** | 25.6 | (1.8) | (14.4) | 0.6 | 13.2 | **(929.2)** |
| **Asedau cyfredol net** | **616.4** | 413.1 | (1.4) | (14.4) | 12.5 | 13.8 | **1,040.0** |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | **1,619.8** | 936.3 | 26.0 | (14.4) | 0.1 | – | **2,567.8** |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | **(314.6)** | (1,095.5) | – | (2.3) | – | – | **(1,412.4)** |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | **(171.8)** | – | (8.8) | – | 20.8 | – | **(159.8)** |
| **Asedau net ac eithrio rhwymedigaeth pensiwn** | **1,133.4** | (159.2) | 17.2 | (16.7) | 20.9 | – | **995.6** |
| Rhwymedigaeth pensiwn | **(143.3)** | – | – | – | – | – | **(143.3)** |
| **Asedau net** | **990.1** | (159.2) | 17.2 | (16.7) | 20.9 | – | **852.3** |
| **Cynrychiolir gan** | | | | | | | |
| Cronfa weithredu wrth gefn | **1,015.7** | (159.2) | 11.3 | (16.7) | 19.3 | (20.4) | **850.0** |
| Cronfa arall wrth gefn | **(32.3)** | – | – | – | – | – | **(32.3)** |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | **0.8** | – | – | – | – | (0.8) | **–** |
| Cronfa drosi wrth gefn | **–** | – | 0.7 | – | 1.7 | 21.2 | **23.6** |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | **984.2** | (159.2) | 12.0 | (16.7) | 21.0 | – | **841.3** |
| Buddiant lleiafrifol | **5.9** | – | 5.2 | – | (0.1) | – | **11.0** |
| | **990.1** | (159.2) | 17.2 | (16.7) | 20.9 | – | **852.3** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

| | 2010 UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | 2010 IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | | | | | |
| Arian parod a gynhyrchir o weithgareddau gweithredu | **426.6** | 47.4 | – | – | 1.7 | (0.8) | **474.9** |
| Trethiant a dalwyd | **–** | – | – | – | – | (33.7) | **(33.7)** |
| **Arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **426.6** | 47.4 | – | – | 1.7 | (34.5) | **441.2** |
| **Difidendau a dderbyniwyd gan gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | **10.7** | – | – | – | – | – | **10.7** |
| **Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | | | | | |
| Llog a dderbyniwyd | **2.4** | – | – | – | – | – | **2.4** |
| Llog a dalwyd | **(14.3)** | – | – | – | – | – | **(14.3)** |
| Llog a dalwyd ar brydlesau cyllid | **(1.0)** | – | – | – | – | 1.0 | **–** |
| Difidendau a dalwyd i fuddiannau lleiafrifol | **(0.8)** | – | – | – | – | – | **(0.8)** |
| **All-lif arian parod net o elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | **(13.7)** | – | – | – | – | 1.0 | **(12.7)** |
| **Trethiant** | | | | | | | |
| Trethiant a dalwyd | **(33.7)** | – | – | – | – | 33.7 | **–** |
| **Gwariant cyfalaf ar fuddsoddiadau ariannol** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | **(125.2)** | – | – | – | – | – | **(125.2)** |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **(100.8)** | – | – | – | – | – | **(100.8)** |
| Hawlio benthyciad i gyd-fenter | **1.3** | – | – | – | – | – | **1.3** |
| Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol | **44.3** | – | – | – | – | – | **44.3** |
| **All-lif arian parod net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | **(180.4)** | – | – | – | – | – | **(180.4)** |
| **Caffael a gwarediadau** | | | | | | | |
| Prynu is-gwmni | **(20.5)** | – | – | – | – | 20.5 | **–** |
| Arian parod a gaffaelwyd gydag is-gwmni | **40.5** | – | – | – | – | (40.5) | **–** |
| Caffael is-gwmni yn glir o arian parod a gaffaelwyd gydag is-gwmni | **–** | – | – | – | – | 20.0 | **20.0** |
| Prynu buddiannau mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | **(0.7)** | – | – | – | – | – | **(0.7)** |
| Enillion o werthu gweithrediadau | **2.0** | – | – | – | – | – | **2.0** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL PARHAD

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

| | 2010 UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | 2010 IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o gaffaeliadau a gwarediadau** | **21.3** | – | – | – | – | – | **21.3** |
| **Mewnlif arian parod net cyn defnyddio adnoddau hylifol ac ariannu** | **230.8** | 47.4 | – | – | 1.7 | 0.2 | **280.1** |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | | | | | | | |
| Gwerthu adnoddau hylifol | **5,732.6** | – | – | – | – | (5,732.6) | **–** |
| Prynu adnoddau hylifol | **(5,732.6)** | – | – | – | – | 5,732.6 | **–** |
| **Mewnlif arian parod net o reoli adnoddau hylifol** | **–** | – | – | – | – | – | **–** |
| **Ariannu** | | | | | | | |
| Cynnydd mewn benthyciadau | **104.3** | – | – | – | – | (104.3) | **–** |
| Cynnydd mewn symiau a fenthyciwyd | **–** | – | – | – | – | 101.0 | **101.0** |
| Ad-dalu benthyciadau | **(174.1)** | – | – | – | – | – | **(174.1)** |
| Elfen gyfalaf taliadau prydlesau cyllid | **(9.0)** | (47.4) | – | – | – | (1.0) | **(57.4)** |
| Ad-dalu nodiadau benthyca | **(3.3)** | – | – | – | – | 3.3 | **–** |
| **All-lif arian parod net o ariannu** | **(82.1)** | (47.4) | – | – | – | (1.0) | **(130.5)** |
| **Cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | **148.7** | – | – | – | 1.7 | (0.8) | **149.6** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | **121.8** | – | – | – | – | 2.5 | **124.3** |
| Effaith newidiadau yn y gyfradd gyfnewid dramor ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **–** | – | – | – | (1.7) | – | **(1.7)** |
| Arian parod a ddosberthir yn arian a ddelir i'w werthu | **–** | – | – | – | (8.3) | – | **(8.3)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **270.5** | – | – | – | (8.3) | 1.7 | **263.9** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | 2009 UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | 2009 IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | | | | | |
| Arian parod a gynhyrchir o weithgareddau gweithredu | **215.2** | 39.0 | – | – | (4.3) | – | **249.9** |
| Trethiant a dalwyd | **–** | – | – | – | – | (23.1) | **(23.1)** |
| **Arian parod net o weithgareddau gweithredu** | **215.2** | 39.0 | – | – | (4.3) | (23.1) | **226.8** |
| **Difidendau a dderbyniwyd gan gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt** | **37.0** | – | – | – | – | – | **37.0** |
| **Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | | | | | |
| Llog a dderbyniwyd | **7.7** | – | – | – | – | – | **7.7** |
| Llog a dalwyd | **(15.3)** | – | – | – | – | – | **(15.3)** |
| Llog a dalwyd ar brydlesau cyllid | **(0.4)** | – | – | – | – | 0.4 | **–** |
| Difidendau a dalwyd i fuddiannau lleiafrifol | **(0.8)** | – | – | – | – | – | **(0.8)** |
| **All-lif arian parod net o elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | **(8.8)** | | | | | 0.4 | **(8.4)** |
| **Trethiant** | | | | | | | |
| Trethiant a dalwyd | **(23.1)** | – | – | – | – | 23.1 | **–** |
| **Gwariant cyfalaf ar fuddsoddiadau ariannol** | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | **(147.5)** | – | – | – | – | – | **(147.5)** |
| Buddsoddi mewn rhaglenni i'w gwerthu yn y dyfodol | **(100.8)** | – | – | – | – | – | **(100.8)** |
| Hawlio benthyciad i gyd-fenter | **(0.4)** | – | – | – | – | – | **(0.4)** |
| Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol | **20.5** | – | – | – | – | – | **20.5** |
| **All-lif arian parod net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol** | **(228.2)** | – | – | – | – | – | **(228.2)** |
| **Caffael a gwarediadau** | | | | | | | |
| Prynu is-gwmni | **(15.1)** | – | – | – | – | 15.1 | **–** |
| Arian parod a gaffaelwyd gydag is-gwmni | **1.9** | – | – | – | – | (1.9) | **–** |
| Caffael is-gwmni yn glir o arian parod a gaffaelwyd gydag is-gwmni | **–** | – | – | – | – | (13.2) | **(13.2)** |
| Prynu buddiannau mewn cyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | **(15.8)** | – | – | – | – | – | **(15.8)** |
| Talwyd wrth derfynu gweithrediadau | **(0.9)** | – | – | – | – | – | **(0.9)** |
| Enillion o werthu gweithrediadau | **15.1** | – | – | – | – | – | **15.1** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL PARHAD
## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | 2009 UK GAAP £m | IAS 17 ar Brydlesau £m | IFRS 3 ar Gyfuniadau Busnes ac IAS 38 ar Asedau Anniriaethol £m | IAS 19 ar Fuddiannau Cyflogeion £m | Arall £m | Ailddosbarthu £m | 2009 IFRS £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **All-lif arian parod net o gaffaeliadau a gwarediadau** | **(14.8)** | – | – | – | – | – | **(14.8)** |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net cyn defnyddio adnoddau hylifol ac ariannu** | **(22.7)** | 39.0 | – | – | (4.3) | 0.4 | **12.4** |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | | | | | | | |
| Gwerthu adnoddau hylifol | **526.3** | – | – | – | – | (526.3) | **–** |
| Prynu adnoddau hylifol | **(526.3)** | – | – | – | – | 526.3 | **–** |
| **Mewnlif arian parod net o reoli adnoddau hylifol** | **–** | – | – | – | – | – | **–** |
| **Ariannu** | | | | | | | |
| Cynnydd mewn benthyciadau | **218.0** | – | – | – | – | (218.0) | **–** |
| Cynnydd mewn symiau a fenthyciwyd | **–** | – | – | – | – | 223.1 | **223.1** |
| Ad-dalu benthyciadau | **(144.4)** | – | – | – | – | – | **(144.4)** |
| Elfen gyfalaf taliadau prydlesau cyllid | **(9.7)** | (39.0) | – | – | – | (0.4) | **(49.1)** |
| Cynnydd mewn nodiadau benthyca | **2.6** | – | – | – | – | (2.6) | **–** |
| **Mewnlif arian parod net o ariannu** | **66.5** | (39.0) | – | – | – | 2.1 | **29.6** |
| **Cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | **43.8** | – | – | – | (4.3) | 2.5 | **42.0** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | **78.0** | – | – | – | – | – | **78.0** |
| Effaith newidiadau yn y gyfradd gyfnewid dramor ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **–** | – | – | – | 4.3 | – | **4.3** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **121.8** | – | – | – | – | 2.5 | **124.3** |

# FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y BBC

## DIFFINNIR FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y BBC YN Y SIARTER FRENHINOL (Y SIARTER).

Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn asesu perfformiad rheolwyr y BBC a'i wasanaethau. Mae ei harolwg a'i hasesiad ar gyfer 2009/10 ar gael yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol hwn a Chyfrifon.

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Felly, er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, mae wedi dewis dilyn darpariaethau perthnasol Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Chod Cyfunol 2008 y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol (Cod FRC 2008), er mwyn bod yn gyson â chwmnïau a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cydymffurfio â gofynion y Siarter, gan greu trefniadau llywodraethu priodol ac effeithiol ar gyfer y BBC. Mae hyn hefyd wedi sicrhau cydymffurfiaeth â Chod FRC 2008 i raddau helaeth er nad yw Cod FRC 2008 yn briodol i amgylchiadau'r BBC mewn nifer o feysydd. Mae cydymffurfio â'r Siarter wedi arwain at nifer fach o feysydd lle na chydymffurfiwyd â Chod FRC 2008, er bod y Bwrdd Gweithredol yn credu nad yw hyn yn peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith, fel y dangosir isod.

Nid yw rhai o ddarpariaethau Cod FRC 2008 yn briodol i amgylchiadau'r BBC fel corff cyhoeddus nad yw'n gweithredu er elw ac nad oes ganddo gyfranddalwyr. Yn benodol, nid yw darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddalwyr yn amlwg yn gymwys i'r BBC, er ei bod, o dan rai amgylchiadau, yn bosibl ystyried, drwy gyfatebiaeth, y ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwneud â thalwyr ffi'r drwydded. Nodir hyn yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae un o ddarpariaethau eraill Cod FRC 2008 sy'n gysylltiedig â chyfranddalwyr yn ymwneud â chysoni cydnabyddiaeth aelodau gweithredol â gwella gwerth cyfranddalwyr ac felly

| EGWYDDOR COD FRC 2008 | SEFYLLFA'R BBC | ESBONIAD |
|---|---|---|
| A.2 – Dylai fod rhaniad clir o ran cyfrifoldebau ar lefel uchaf y cwmni rhwng y gwaith o redeg y bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am gynnal busnes y cwmni. Ni ddylai fod gan un unigolyn bwerau dilyffethair i wneud. | Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, prif swyddog gweithredol y BBC. | Mae'r Siarter yn nodi y gall y Cyfarwyddwr Cyffredinol weithredu fel Cadeirydd Gweithredol y Bwrdd Gweithredol.<br>Hefyd, mae goruchwyliaeth strategol gan Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau nad oes gan un unigolyn bwerau dilyffethair. |
| A.3 – Dylai'r bwrdd gynnwys cydbwysedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol (ac yn arbennig gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol) fel na all un unigolyn na grŵp bach o unigolion reoli gwaith y bwrdd o wneud penderfyniadau. | Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys 16 o gyfarwyddwyr, y mae deg ohonynt yn gyfarwyddwyr gweithredol a chwech yn gyfarwyddwyr anweithredol. O ganlyniad, nid yw'r Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth (A.3.2) y dylai o leiaf hanner y bwrdd, ac eithrio'r Cadeirydd, fod yn annibynnol.<br>Ystyrir bod pob Cyfarwyddwr anweithredol yn annibynnol at ddibenion Cod FRC 2008, ar ôl cydnabod yr angen am gyfranogiad gan sector y cyfryngau yn y DU. | Mae'r Siarter yn nodi na all nifer y Cyfarwyddwyr anweithredol fod yn llai na thraean ac na all fod yn hafal i hanner aelodau'r Bwrdd Gweithredol neu'n fwy na hynny.<br>Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys cydbwysedd o Gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol ac ni all unigolyn na grŵp bach o unigolion reoli'r gwaith o wneud penderfyniadau. |

gwneud elfennau o gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn rhan sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth (darpariaeth B.1.1). Mae strategaeth y BBC ar gyfer cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr gweithredol, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth a Phwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, yn cydymffurfio ag egwyddor B.1 Cod FRC 2008 sy'n nodi y dylai lefelau cydnabyddiaeth fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymell cyfarwyddwyr o'r ansawdd sydd ei angen i redeg y BBC yn llwyddiannus. Fodd bynnag, o ystyried pwrpasau cyhoeddus y BBC, mae swm y gydnabyddiaeth amrywiol (neu'r gydnabyddiaeth sy'n ymwneud â pherfformiad) y gellir ei ennill yn gyfyngedig. Yn ystod 2008/09, penderfynodd y Bwrdd Gweithredol atal y trefniadau bonws yn ôl disgresiwn ar gyfer pob aelod o staff (ar wahân i staff a gyflogir mewn rhai busnesau masnachol); talwyd unrhyw daliadau bonws a oedd yn ymrwymiadau cytundebol.

## COST CYDYMFFURFIO

Er mwyn sicrhau ein bod wedi cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a oedd yn berthnasol i'r BBC yn 2009/10, aethom i gostau cydymffurfiaeth amcangyfrifedig o £17.6miliwn (2009: £17.3miliwn), sy'n cynnwys tanysgrifiad blynyddol o £3.5miliwn gan y BBC i Ofcom.

## BWRDD GWEITHREDOL

### Rôl y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am reoli pob un o weithrediadau'r BBC, heblaw Uned Ymddiriedolaeth y BBC. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- darparu gwasanaethau'r BBC yn unol â chylchoedd gwaith diben, trwyddedau gwasanaeth a strategaethau busnes eraill;
- cyfeirio allbwn golygyddol a chreadigol;
- sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol (gan gynnwys cam cychwynnol ymdrin â chwynion am y BBC), ac eithrio lle mae'r meysydd hyn yn ymwneud yn benodol ag Ymddiriedolaeth y BBC neu Uned Ymddiriedolaeth y BBC;
- penodi timau rheoli'r BBC a'i is-gwmnïau a'u dwyn i gyfrif;
- cynnal materion ariannol y BBC er mwyn sicrhau gwerth am arian
- bod yn atebol i Ymddiriedolaeth y BBC am ei berfformiad ei hun, yn ogystal â pherfformiad y BBC a'i is-gwmnïau, a chydymffurfio ag unrhyw benderfyniadau gan Ymddiriedolaeth y BBC.

Tabl 2

**Presenoldeb y Bwrdd Gweithredol a Phwyllgorau**

| | Bwrdd Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio | | Pwyllgor Masnachu Teg | Pwyllgor Enwebiadau[1] | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyffredin | Eithriadol | Aelod | Yn bresennol | | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol |
| Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod | 11 | 6 | 4 | | 3 | 2 | | 7 | |
| Mark Thompson | 10 | 6 | | 3 | | 2 | | | 6 |
| Mark Byford | 11 | 4 | | | | 0 | 0 | | |
| Lucy Adams[2] | 7/9 | 3/4 | | | | | | | 5/5 |
| Sharon Baylay[3] | 10/10 | 4/5 | | | | | | | |
| Jana Bennett | 10 | 4 | | | | | | | |
| Tim Davie | 10 | 3 | | | | | | | |
| Erik Huggers | 10 | 6 | | | | | | | |
| Zarin Patel | 11 | 6 | | 4 | 3 | | | | |
| Peter Salmon[4] | 5/5 | 0/1 | | | | | | | |
| John Smith[5] | 5/5 | 2/3 | | | | | | | |
| Caroline Thomson | 10 | 5 | | | 3 | | | | |
| Marcus Agius *Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth* | 10 | 5 | | | 1 | 1/1 | | 7 | |
| Val Gooding *Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg o fis Medi 2009* | 9 | 4 | | | 1/1 | | | 6/6 | |
| Dr Mike Lynch | 9 | 5 | 4 | | | 2 | | 0/1 | |
| David Robbie *Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio* | 11 | 2 | 4 | | | | | | |
| Dr Samir Shah | 11 | 6 | 4 | | 3 | | | | |
| Robert Webb *Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg tan fis Medi 2009* | 11 | 6 | | | 2/2 | 1/1 | | 5 | |

Ar gyfer y cyfarwyddwyr hynny a wasanaethodd ar gyfer rhan o'r flwyddyn yn unig, nodir cyfanswm nifer y cyfarfodydd y gallent fod wedi mynd iddynt ochr yn ochr â'r nifer yr oeddent yn bresennol ynddynt (nifer a fynychwyd/cyfanswm posibl).

[1] Mae aelodaeth o'r Pwyllgor yn amrywio yn dibynnu ar y penodiad (anweithredol neu weithredol) a wneir. Mae Marcus Agius, Mark Thompson a Dr Mike Lynch yn aelodau ar gyfer pob penodiad. Mae Mark Byford yn aelod ar gyfer penodiadau gweithredol a chaiff ei wahodd fel arfer i fynychu cyfarfodydd ar gyfer penodiadau anweithredol. Mark Thompson yw'r cadeirydd ar gyfer penodiadau gweithredol a Marcus Agius yw'r cadeirydd ar gyfer penodiadau anweithredol. Fodd bynnag, yn un o'r cyfarfodydd eleni trafodwyd adnewyddu penodiad Marcus Aguis ac felly ni fu'n bresennol. Er mwyn cadw cydbwysedd priodol o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac anweithredol, ymunodd Robert Webb â'r Pwyllgor Enwebiadau ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

[2] Penodwyd Lucy Adams yn Gyfarwyddwr BBC People ym mis Mehefin 2009.

[3] Penodwyd Sharon Baylay yn Gyfarwyddwr Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd ym mis Mai 2009.

[4] Ymunodd Peter Salmon, Cyfarwyddwr BBC North â'r Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd 2009.

[5] Yn sgîl cyhoeddiad Ymddiriedolaeth y BBC ynglŷn â newidiadau i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer BBC Worldwide, ymddiswyddodd John Smith o'r Bwrdd Gweithredol o 1 Hydref 2009.

**Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**

Yn ystod y flwyddyn, roedd llawer o agenda Bwrdd Gweithredol y BBC yn ystyried ymateb y BBC i'r dirwasgiad economaidd a barhaodd i gael effaith ar holl weithgareddau'r BBC. Yn y cyd-destun hwn daeth gwariant cyhoeddus yn bwnc trafod mawr ac fel sefydliadau cenedlaethol eraill bu craffu ar weithgareddau'r BBC a hynny'n gwbl briodol.

Ymatebodd y BBC yn gyflym i'r heriau gweithredol a gododd oherwydd yr amgylchedd economaidd sydd ohoni. Ar gais Ymddiriedolaeth y BBC, cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol gynigion ynglŷn â pholisi tâl i uwch reolwyr, sydd wrthi'n cael ei roi ar waith. Roeddem yn ystyriol o hyd o'r pwysau ar gystadleuwyr y BBC oherwydd yr argyfwng ariannol byd-eang, a datblygiad technoleg newydd, ac rydym wedi ystyried cyfleoedd a phartneriaethau lle y gallai'r BBC ddefnyddio ei sefyllfa'n briodol i fod o fudd i sector ehangach y cyfryngau.

Ym mis Mawrth, cyflwynwyd ein strategaeth newydd, *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*. Cred fy nghyd-Gyfarwyddwyr anweithredol a minnau y bydd ei chynigion i leihau cwmpas cynyrchiadau ac allbwn y BBC yn y dyfodol tra'n gwella ansawdd ei raglenni, yn lliniaru rhai o'r risgiau i fusnes a wynebai'r BBC ar hyn o bryd ac yn ei roi mewn sefyllfa gadarnach ar gyfer y dyfodol. Ansawdd sydd wrth wraidd y BBC ac fel bwrdd mae'n gyfrifoldeb arnom i sicrhau ei fod yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd. Yng nghyd-destun setliad aml-flwyddyn ffi'r drwydded, golyga hyn wneud llai o bethau, ond eu gwneud hyd yn oed yn well na chynt.

Newidiodd aelodaeth y Bwrdd eleni hefyd, ac ychwanegwyd swydd newydd – Cyfarwyddwr BBC North – tra rhoddodd Prif Weithredwr BBC Worldwide y gorau i'w swydd. Yn y byd sydd ohoni, erys safbwynt annibynnol y Cyfarwyddwyr anweithredol yn hollbwysig, ac mae'r sylw ychwanegol a gawsom wedi arwain at ymagwedd gliriach a mwy penodol, er mwyn i ni ddod i'r casgliadau cywir i dalwyr ffi'r drwydded a chynulleidfaoedd.



**Marcus Agius**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
16 Mehefin 2010

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod bob mis (heblaw am fis Awst); mae cofnodion cryno o'r cyfarfodydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/info/running/executive/minutes.shtml

Yn ymarferol, mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i grwpiau rheoli eraill. Nodir unrhyw ddirprwyaeth o'r Bwrdd Gweithredol yn rheolau sefydlog perthnasol pob grŵp a phennir fframwaith ar gyfer adrodd ac adolygu.

Dechreuwyd ar werthusiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Gweithredol, ei Bwyllgorau a'i ymwneud â'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2009. Cynhaliwyd y gwerthusiad gan ymgynghorwyr allanol ac roedd yn cynnwys cyfweliadau ag aelodau o'r Bwrdd Gweithredol, rhai gweithredol ac anweithredol, asesiad o'r protocolau llywodraethu a'r cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Gweithredol. Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad ar gasgliadau'r Arolwg a nodwyd, er bod cymariaethau uniongyrchol neu feincnodi â byrddau corfforaethol yn anodd o gofio strwythur llywodraethu anarferol y BBC, fod y Bwrdd, yn ôl yr asesiad, yn gweithio'n dda yn unol â'r meini prawf pwysicaf. Ystyriwyd argymhellion a ddeilliodd o'r arolwg mewn gwaith sy'n mynd rhagddo er mwyn sicrhau effeithiolrwydd prosesau llywodraethu'r BBC.

Yn unol â gofynion a darpariaethau'r Siarter parhaodd y Pwyllgorau canlynol i weithredu y llynedd:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Masnachu Teg
- Pwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth

## SEFYDLU, PERFFORMIAD A DATBLYGIAD

Pan fyddant yn ymuno â'r BBC, bydd pob cyfarwyddwr newydd yn cael rhaglen sefydlu ac ystod eang o wybodaeth am y BBC. Bydd cynnwys y rhaglen sefydlu yn amrywio yn dibynnu ar ba un a yw'r penodiad yn un gweithredol neu anweithredol ac a oedd y cyfarwyddwr newydd yn ymgeisydd allanol ai peidio. Mae'r wybodaeth bob amser yn cynnwys manylion am weithdrefnau'r Bwrdd a chyfrifoldebau Cyfarwyddwyr. Gall pob Cyfarwyddwr gael cyngor annibynnol allanol os bydd yn dymuno hynny.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu perfformiad y Bwrdd Gweithredol wrth ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau'r BBC, yn unol â'r Siarter. Mae hyn yn cynnwys arolygu cynnydd yn barhaus a diwrnod perfformiad blynyddol, a fynychir gan y Bwrdd Gweithredol ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC hefyd yn cyfarfod ar wahân â'r Cyfarwyddwyr anweithredol bob blwyddyn.

Mae prosesau arolygu perfformiad Pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i ddatblygu ac mae pob un yn arolygu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd ei hun. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys.

Mae gan bob cyfarwyddwr gweithredol ei amcanion personol ac adrannol ei hun, a chaiff ei berfformiad yn eu herbyn ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol bob blwyddyn, a chan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

## PWYLLGOR ENWEBIADAU

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio'r broses o gynnig, penodi ac – os bydd angen – diswyddo aelodau o'r Bwrdd. Yr unig eithriad yw'r Cadeirydd, a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC. Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn ddibynnol ar ba un a yw'n delio â phenodiadau gweithredol neu anweithredol.

### Penodiadau gweithredol

Ni wnaed unrhyw benodiadau gweithredol eleni, er i Sharon Baylay, Cyfarwyddwr, Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd, a Lucy Adams, Cyfarwyddwr, BBC People a benodwyd yn ystod 2008/09 ymgymryd â'u swyddi eleni. At hynny: ymunodd Peter Salmon, Cyfarwyddwr BBC North â'r Bwrdd Gweithredol ym mis Tachwedd 2009.

### Penodiadau anweithredol

Roedd disgwyl i ddau Gyfarwyddwr anweithredol roi'r gorau i'w swyddi yn 2009/10. Ar ôl cynnal arolwg trylwyr o aelodaeth ac anghenion y Bwrdd Gweithredol, yn ogystal â sgiliau, profiad a gwybodaeth y cyfarwyddwyr unigol, ailbenododd y Pwyllgor Enwebiadau Marcus Agius fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol am gyfnod arall o dair blynedd o 1 Rhagfyr 2009 a Val Gooding fel Cyfarwyddwr anweithredol am gyfnod arall o ddwy flynedd o 1 Ionawr 2010.

## ATEBOLRWYDD A RHEOLAETH FEWNOL

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli gweithredol y BBC (ar wahân i Uned yr Ymddiriedolaeth), sy'n cynnwys diogelu ei asedau a chael gwerth am arian drwy sicrhau bod proses ar waith ar gyfer rheoli risgiau sylweddol i'r BBC, a chynnal system ddigonol o reolaeth fewnol ac arolygu ei heffeithiolrwydd.


### Nodi a rheoli risgiau a pherchenogaeth ohonynt

Yn ein barn ni, y ffordd fwyaf effeithiol o reoli risg yn gyffredinol yn y BBC, sy'n rhan annatod o'r broses o gyflawni amcanion busnes, yw drwy gynnwys y Bwrdd cyfan ac felly ni ddirprwyir y gwaith o reoli risg i isbwyllgor. Mae proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso, rheoli, monitro a rhoi adroddiad ar risgiau sylweddol i'r BBC, sy'n unol â chanllawiau Turnbull (Rheolaeth Fewnol: Canllawiau Diwygiedig i Gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfunol), wedi bod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 a hyd at ddyddiad cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC eleni.

### Rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd, wedi ei gefnogi gan uwch dimau rheoli, yn gyfrifol am sefydlu, cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC ac am sicrhau y cymerir y camau angenrheidiol i wella diffygion neu wendidau sylweddol a nodir. Cynllunnir ein system rheolaeth i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes. Er na all unrhyw system rheolaeth fewnol ddarparu sicrwydd llwyr yn erbyn camddatganiad perthnasol neu golled, cynllunnir rheolaethau'r BBC i roi sicrwydd rhesymol bod asedau'n cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi'n briodol a bod gwallau perthnasol neu unrhyw achosion o afreoleidd-dra yn cael eu hatal neu eu canfod yn amserol. Mae elfennau allweddol ein system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- prosesau adrodd misol, chwarterol a blynyddol cynhwysfawr, o fewn grwpiau busnes a hyd at lefel y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys y system monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol i'r Bwrdd, yn seiliedig ar gyllideb flynyddol, adroddiadau misol ar ganlyniadau gwirioneddol, ail-lunio rhagolygon yn rheolaidd a dadansoddiad o amrywiannau a ffactorau allweddol. Mae hefyd yn cynnwys arolygon perfformiad sy'n olrhain cyflawniadau yn erbyn strategaeth.
- adroddiadau rheolaidd ar faterion trysorlys ac arian parod, sy'n dadansoddi gofynion ariannu a hylifedd.
- terfynau a phrosesau awdurdodi ffurfiol sy'n cwmpasu pob trafodyn ariannol.
- prosesau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfau a rheoliadau cymwys, yn cynnwys gofynion Ofcom.



- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol yn ymwneud â phob proses fusnes berthnasol, i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli a bod gwybodaeth amserol, perthnasol a dibynadwy ar gael ym mhob rhan o'r busnes.
- prosesau i sicrhau bod ein staff yn broffesiynol ac yn gymwys, megis polisïau recriwtio, arfarniadau o berfformiad a rhaglenni hyfforddiant.

Mae'r Bwrdd, gan ddibynnu ar waith manwl y Pwyllgor Archwilio a thrwy adolygu a thrafod adroddiadau chwarterol ar risg a chydymffurfio, yn cadarnhau ei fod wedi ystyried effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

## ARCHWILIAD MEWNOL

Mae ein Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Rheoli Risg ac Ymchwilio yn cyfuno i ffurfio ein swyddogaeth Sicrwydd Busnes, o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd. Caiff awdurdod ac annibyniaeth Archwiliad Mewnol eu sicrhau gan gysylltiad annibynnol ac uniongyrchol y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio. Mae Archwiliad Mewnol yn profi ein systemau rheolaeth a'n prosesau busnes craidd yn rheolaidd, gan werthuso eu digonolrwydd a'u heffeithiolrwydd a sicrhau y cânt eu cymhwyso'n gyson ym mhob rhan o'r BBC. Cytunir ar y cynllun gwaith, sy'n seiliedig ar asesiad parhaus o'r risgiau allweddol, yn flynyddol gyda'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n cwmpasu rheolaethau ariannol, gweithredol a chydymffurfio, yn cynnwys arfer hawl y BBC i gynnal archwiliad o bartïon allanol, megis cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chyflenwyr gwasanaethau busnes allweddol ar gontract allanol. Hysbysir y lefelau rheoli priodol o unrhyw fethiannau neu wendidau o bwys ym maes rheolaeth a nodir. Hysbysir y Pwyllgor Archwilio o statws camau unioni a gymerir i fynd i'r afael â hwy.

## PWYLLGOR ARCHWILIO'R BWRDD GWEITHREDOL

Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, y penodwyd pob un ohonynt ym mis Ionawr 2007, yw'r Cyfarwyddwyr anweithredol David Robbie (Cadeirydd), Dr Mike Lynch a Dr Samir Shah. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan David Robbie brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. Mae'r pwyllgor yn ychwanegu at yr ystod eang o sgiliau sydd gan ei dri aelod, a gafodd eu meithrin o ganlyniad i gryn brofiad mewn uwch swyddi gyda sefydliadau eraill, gyda chyngor fel y bo angen gan unigolion proffesiynol mewnol ac allanol, ar faterion perthnasol yn cynnwys datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol a chyfraith cwmnïau. Mynychir cyfarfodydd hefyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Ariannol, Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, a chynrychiolwyr Archwilio Mewnol, Rheoli Risg a'r archwilwyr allanol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu ei Gylch Gorchwyl ac wedi cymeradwyo ei gymhwysiad parhaus, gan dybio ei fod yn briodol i sicrhau effeithiolrwydd parhaus y pwyllgor.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod â'r archwilwyr allanol heb unrhyw reolwyr yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, ar ei ben ei hun neu gyda'r archwilwyr allanol, heb reolwyr yn bresennol, ac yn cyfarfod yn breifat hefyd gyda'r partner arweiniol archwilio allanol.

Mae cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, pan gânt eu cymeradwyo, ar gael i'r Bwrdd Gweithredol ac i Ymddiriedolaeth y BBC. Adroddir yn ôl i'r Bwrdd ar

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu ac yn goruchwylio prosesau adrodd ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg yn y BBC. Canolbwyntio gwariant y BBC ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ym Mhrydain – ysgogi gwell gwerth am arian ac ailfuddsoddi arbedion mewn cynnwys o safon uchel – yw ein cyd-destun ar gyfer barnu a yw'r amgylchedd rheoli yn addas at y diben.

Rydym yn gwerthuso materion a godir gan Archwilwyr Mewnol, a'r graddau y mae rheolwyr wedi mynd i'r afael â hwy, a hynny'n ddi-oed. Rydym hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan ein harchwilwyr allanol, sy'n amlinellu'r ffordd y bwriadant gynnal eu harchwiliad ac unrhyw faterion y dymunant eu tynnu at ein sylw.

Rydym yn adolygu'r risgiau mwyaf a wynebir gan y busnes yn rheolaidd, gan gomisiynu papurau a chyflwyniadau gan reolwyr ar faterion o bwys ac ar broffiliau risg o bob rhan o'r BBC, gyda'r nod o sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir i reoli a lliniaru risg yn briodol ac yn ddigonol. Lle nad ydynt yn briodol nac yn ddigonol, rydym yn herio rheolwyr i wneud yn well ac ailystyried blaenoriaethau.

Ymhlith y materion a wynebwyd gan y BBC, neu'r diwydiant ehangach, ac a ystyriwyd gennym eleni, mae: goblygiadau newidiadau cymdeithasol a thechnolegol, yn enwedig o ran incwm ffi'r drwydded; diogelwch gwybodaeth gyfrinachol; cadernid cyffredinol cynnwys; a goblygiadau mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol i'r BBC.

Mae cwmpas y pwyllgor hwn yn cwmpasu pob rhan o grŵp y BBC; felly rydym hefyd yn cael ac yn trafod diweddariadau gan y Pwyllgorau Archwilio eraill sy'n goruchwylio ein busnesau masnachol.



**David Robbie**
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol
16 Mehefin 2010

argymhellion y pwyllgor ar unrhyw faes o fewn ei gylch gwaith lle mae angen cymryd camau neu wneud gwelliannau drwy ba lwybr bynnag y tybir sydd fwyaf priodol i natur ac amgylchiadau'r mater. Mae Cadeirydd y pwyllgor yn cyflwyno adroddiad yn ffurfiol i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn ar bob mater o fewn dyletswyddau a chyfrifoldebau'r pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer y flwyddyn; mae wedi:

- adolygu effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol, gan gynnwys rheolaethau dros adroddiadau ariannol. Wrth wneud hynny, mae wedi ystyried canfyddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol ac wedi ceisio sicrwydd gan reolwyr yr ymdrinnir ag unrhyw faterion rheoli y tynnir sylw atynt. Mae hefyd wedi ystyried adroddiadau gan reolwyr ar brosesau i reoli risgiau sylweddol.
- adolygu trefniadau'r BBC ar gyfer mabwysiadu IFRS a datganiadau ariannol ei grŵp, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoliadol a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol.
- goruchwylio perthynas y BBC â'r archwilwyr allanol, gan gynnwys eu penodiad, cwmpas eu gwaith a sut maent yn cyflawni eu gwaith, eu ffioedd, eu perfformiad a'u hannibyniaeth, gan gynnwys cymeradwyo a chydymffurfio â'r polisi ar waith nad yw'n waith archwilio.
- cymeradwyo cynllun gwaith Archwiliad Mewnol.
- adolygu'r prosesau sydd ar waith ar gyfer canfod twyll a threfniadau chwythu'r chwiban.
- ystyried arolygon ôl-fuddsoddi o fuddsoddiadau mawr.
- monitro'r ffordd y cymerwyd pob un o'r camau yr oedd angen eu cymryd o ganlyniad i arolygon y rhaglen gwerth am arian a gynhaliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Annibyniaeth archwilwyr allanol

Rydym yn cydymffurfio â chanllawiau Cod FRC 2008 ar gynnal cydberthynas briodol ag archwilwyr allanol. Ailbenodwyd KPMG LLP yn archwilwyr allanol gan y BBC yn ystod 2008 am gyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2008/09 ar ôl proses dendro ffurfiol. Gellir ymestyn y cyfnod hwn ddwywaith am flwyddyn bob tro, yn amodol ar broses arolwg ffurfiol a arweinir gan y Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i fodloni bod KPMG wedi cymryd camau diogelu digonol i osgoi'r posibilrwydd y câi ei wrthrychedd a'i annibyniaeth archwilio eu peryglu, gan gynnwys cylchdroi ei dîm yn briodol, yn ogystal â rhaglen sicrwydd ansawdd briodol.

Er mwyn diogelu a chefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi pennu polisi clir sy'n diffinio'r trothwy y mae'n rhaid i unrhyw waith arfaethedig nad yw'n waith archwilio a wneir gan KPMG LLP sydd y tu hwnt i'r trothwy hwn gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y pwyllgor, ac mae'r polisi hefyd yn diffinio pryd y mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno am dendr cystadleuol. Ym mhob achos, nid ystyrir KPMG LLP ar gyfer gwaith a allai beryglu ei allu i fynegi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC.

Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ymlaen llaw cyn recriwtio o KPMG LLP i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC.

## CHWYTHU'R CHWIBAN

Mae gennym bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgeliad wedi ei ddiogelu), i hwyluso'r gwaith o roi gwybod yn gyfrinachol drwy nifer o ffyrdd am unrhyw ddigwyddiad lle mae amheuaeth fod codau'r BBC wedi cael eu torri. Er mwyn cydnabod y gallai digwyddiadau gwirioneddol neu ddigwyddiadau a amheuir fod yn sensitif eu natur, rydym yn darparu llinell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau anhysbysrwydd. Ymchwilir i unrhyw ddigwyddiadau neu amheuon y rhoddir gwybod amdanynt mewn ffordd gyfrinachol, rhoddir ateb a chymerir y camau gweithredu priodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau yr ymchwilir i faterion a gofnodir yn gymesur ac yn annibynnol ac y cymerir camau dilynol priodol.

## ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu harchwilio gan KPMG LLP.

### Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu'r strategaeth gydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr anweithredol.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae ei aelodau'n Gyfarwyddwyr anweithredol: Marcus Agius (Cadeirydd), Robert Webb a Val Gooding.

Mynychir cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr BBC People hefyd, drwy wahoddiad, i gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC. Nid yw Cyfarwyddwr BBC People yn bresennol pan ystyrir materion ynghylch ei gydnabyddiaeth. Gall Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Gyfarwyddwr Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Gan gydymffurfio â Chod Cyfunol FRC 2006 ar Lywodraethu Corfforaethol, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn derbyn cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cyngor annibynnol gan PricewaterhouseCoopers.

## Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

Mae cydnabyddiaeth aelodau gweithredol wedi cael sylw cynyddol yn ystod y misoedd diwethaf a mynegwyd pryderon bod cyflogau, bonysau a chymelldaliadau hirdymor i uwch aelodau o staff yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn ymddangos yn ormodol yn erbyn cefndir o ddirwasgiad economaidd dwfn. Yn unol â hynny, ym mis Chwefror 2009, gofynnodd Ymddiriedolaeth y BBC i Fwrdd Gweithredol y BBC gynnal arolwg trwyadl o'i bolisi cydnabyddiaeth i uwch reolwyr a gofynnodd i'r Bwrdd Gweithredol ystyried sut y gallem ymaddasu er mwyn ymateb i'r hinsawdd economaidd. Ymatebwyd drwy roi ar waith gyfres o fesurau i fynd i'r afael â lefel cydnabyddiaeth uwch reolwyr unigol a chyfanswm cyflogau uwch reolwyr y BBC. Drwy'r mesurau hyn caiff y swm a werir ar uwch reolwyr ei leihau 25% dros y tair blynedd nesaf. I grynhoi:

- mae tâl Aelodau Gweithredol y BBC wedi cael ei rewi am bedair blynedd.
- mae bonysau Aelodau Gweithredol y BBC wedi cael eu hatal am gyfnod amhenodol.
- mae tâl uwch reolwyr wedi cael ei rewi ac mae bonysau pob uwch reolwr wedi cael eu hatal am ddwy flynedd.
- mae'r BBC wedi addo lleihau nifer yr uwch reolwyr 18% dros gyfnod o bedair blynedd.

Nod y Bwrdd Gweithredol wrth gynnal yr arolwg hwn oedd sicrhau'r cydbwysedd anodd rhwng denu a chadw'r staff talentog sydd eu hangen i arwain y BBC a pharhau i ddarparu cynnwys rhagorol, a'r angen i sicrhau bod y BBC yn parhau i gynnig gwerth am arian i dalwyr Ffi'r Drwydded mewn cyfnod pan fydd llawer ohonynt yn profi effeithiau negyddol y dirwasgiad.

Roedd yr arolwg yn un eang ei gwmpas ac edrychodd ar ein strategaeth a'n polisi cydnabyddiaeth cyfredol, yn ogystal â chynnal astudiaeth fanwl o'n Huwch Reolwyr cyfredol, gan gynnwys o ble cawsant eu recriwtio, hyd eu gwasanaeth, oedran, profiad a'r rhai a oedd wedi gadael y BBC, ble roeddent wedi mynd i weithio. Roedd strategaeth gyfredol cydnabyddiaeth aelodau gweithredol y BBC yn gogwyddo'n bennaf tuag at farchnadoedd llafur y sector preifat lle mae'r BBC yn recriwtio ar y cyfan, yn hytrach na thuag at y sector cyhoeddus. Roedd y strategaeth hefyd yn cydnabod y cyfyngiadau angenrheidiol ar allu'r BBC i dalu'r bonysau arian parod sylweddol a'r dyfarndaliadau ar sail cyfranddaliadau a geir yn y sector preifat. Cadarnhaodd yr arolwg, er bod y strategaeth a oedd ar waith wedi llwyddo i raddau helaeth i ddenu a chadw unigolion o'r safon gywir, fod rhai meysydd lle roedd tâl cymharu mewnol a'r awydd i sicrhau bod cyflog uwch aelodau o staff yn cymharu'n fras â gwahanol rannau o'r sefydliad, wedi arwain at gyflog yn mynd yn uwch na chanolrif y farchnad lafur benodol. Gwelwyd darlun o ymatal ar y cyfan, lle roedd uwch reolwyr y BBC yn cael setliadau cyflog cyfartalog a oedd yn adlewyrchu'r sector preifat a'r sector cyhoeddus a lle roedd uwch reolwyr yn y maes creadigol a'r maes rheoli busnes yn ymuno â'r BBC ac yn aros am lai o gydnabyddiaeth nag y gallent ddisgwyl ei gael mewn sefydliadau eraill – a llai o gydnabyddiaeth o dipyn mewn rhai enghreifftiau.

Ystyriodd yr arolwg hefyd y pwysau masnachol ar y BBC, sydd wrth wraidd newid sydd ar gyflymder ac ar raddfa na welwyd mo'u tebyg yn sector y cyfryngau. Er ein bod wedi meithrin rhai o'r sgiliau sydd eu hangen i ailwampio'r sefydliad ar gyfer yr oes ddigidol, cynyddu a wna'r angen i ddenu sgiliau technegol arbenigol a sgiliau eraill. Felly mae'n hollbwysig bod y BBC yn gallu denu staff hyfedr y mae'n rhaid talu cyflogau mawr am eu medr. Ar yr un pryd gwelsom dystiolaeth bod y dirwasgiad economaidd wedi arwain at newid sylfaenol yn arferion y farchnad o ran bonysau neu gymelldaliadau hirdymor ac roeddem yn rhagweld y byddai gwerth pecynnau cydnabyddiaeth aelodau gweithredol unwaith eto yn mynd yn uwch na thwf chwyddiant yn yr hirdymor cyn hir.

Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, gwnaed nifer o argymhellion ychwanegol gennym o ran cydnabyddiaeth aelodau gweithredol. Roeddent yn cynnwys:

- ffactor disgownt i'r BBC o 50-80% o gyfanswm cydnabyddiaeth gymharol y sector masnachol o ran cyfarwyddwyr gweithredol a disgownt o 20-40% o ran uwch reolwyr. Bydd hyn yn golygu, mewn termau real, y gall uwch reolwr sy'n ymuno â'r BBC neu sy'n dewis aros yn y BBC ddisgwyl cael swm sylweddol lai o gydnabyddiaeth na'i gymheiriad masnachol.
- polisi llenwi rôl ddiwygiedig, lle y byddem yn ystyried a oes angen llenwi swydd wag o gwbl, a oes modd gostwng gradd y swydd neu a allwn dalu cyflog is.
- rydym wedi cael gwared ar y broses gymharu fewnol lle roeddem yn cymharu ar draws Is-adrannau fel ystyriaeth allweddol i bennu lefel cyflogau a bydd gennym strategaethau cydnabyddiaeth a fydd yn cydnabod y marchnadoedd gwahanol rydym yn gweithredu ynddynt, (hy: newyddiaduraeth, cyfryngau digidol, cynhyrchu teledu, disgyblaethau busnes, ac ati)
- rydym am gynyddu cyfradd y dyrchafu mewnol o 65% i 70% o fewn tair blynedd, gan arwain at lai o wariant ar recriwtio allanol.

Wrth roi'r mesurau sylweddol hyn ar waith, rydym yn gobeithio y bydd brand y BBC a'r boddhad sy'n gysylltiedig â gweithio yn y gwasanaeth cyhoeddus yn ein galluogi i barhau i recriwtio a chadw'r unigolion allweddol hynny sy'n arwain gallu'r BBC i gynhyrchu allbwn o safon uchel a rheoli'r sefydliad yn effeithiol ac yn effeithlon. Os canfyddwn yr amherir ar y gallu hwn ac na allwn ddenu na chadw'r bobl sy'n arwain ansawdd gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd mwyach, byddem yn adolygu priodoldeb ein hargymhellion gyda'r Ymddiriedolaeth.

Mae'n bleser gennyf nodi yn yr ychydig fisoedd ers cyhoeddi ein hadroddiad a diwedd y flwyddyn ariannol ein bod eisoes wedi gwneud cynnydd. Rydym wedi lleihau nifer yr uwch reolwyr o 15 (2.3%) ac rydym wedi lleihau cyfanswm y cyflogau am y cyfnod o fis Hydref 2009 i fis Ebrill 2010 £6.78miliwn (8.6%). Bydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn parhau i arolygu cynnydd yn rheolaidd. At hynny, mae penderfyniad y BBC i gyhoeddi cyflogau'r 107 o reolwyr ar y lefel uchaf yn y sefydliad, yn ychwanegol at gyhoeddi datganiadau cydnabyddiaeth am gyfarwyddwyr gweithredol yn dangos ein hymrwymiad i barhau i fod yn dryloyw yn y maes hwn.

Cyfrifoldeb Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yw sicrhau bod cydnabyddiaeth uwch aelodau o staff y BBC yn sensitif ac yn ymateb i'r hinsawdd economaidd sy'n newid, gan roi gwerth am arian i dalwyr Ffi'r Drwydded a galluogi'r BBC i ddenu a chadw'r bobl a fydd yn darparu'r gwasanaethau o'r radd flaenaf y mae ein cynulleidfaoedd yn eu haeddu. Erys hon yn dasg gymhleth a heriol ond credaf ein bod wedi adolygu'r holl ffactorau mewnol ac allanol perthnasol yn drwyadl ac wedi llunio strategaeth gydnabyddiaeth a chyfres o fesurau tymor canolig a fydd yn rhoi hyder y cyflawnir ein cyfrifoldebau.



**Marcus Agius**
Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol
16 Mehefin 2010

## Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr anweithredol

Pennir ffioedd Cyfarwyddwyr anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth. Penodir Cyfarwyddwyr anweithredol am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd, ac eithrio'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, a benodir am gyfnod cychwynnol o dair blynedd.

## Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol

Lluniwyd y strategaeth gan yr Ymddiriedolaeth i roi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r talentau allweddol sydd eu hangen i arwain y BBC ac i ddarparu darlledu cyhoeddus o'r radd flaenaf, tra'n cydnabod statws y BBC fel corfforaeth a ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded.

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn adolygu data ar daliadau'r farchnad a ddarperir yn annibynnol i ategu ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth, a sicrhau bod lefelau tâl yn gyson â'r strategaeth y cytunwyd arni. Gan fod y cyflogau sylfaenol i bob cyfarwyddwr gweithredol wedi cael eu rhewi yn 2009, ni chynhaliwyd ymarfer cymharu â'r farchnad.

Rhoddir manylion pellach ar bob elfen o gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol yn y paragraffau canlynol.

## Cyflog sylfaenol

Wrth bennu cyflog sylfaenol mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn ystyried cyflog sylfaenol prif gystadleuwyr y BBC a'r sefydliadau eraill y mae'n cystadlu â hwy am dalent; fforddiadwyedd y BBC i wobrwyo ei aelodau gweithredol; a pherfformiad yr aelodau gweithredol. Caiff cyflog sylfaenol ei gysoni â lefel ganolrifol y farchnad ar gyfer cyfanswm y gydnabyddiaeth, wedi'i disgowntio 50-80% gan sicrhau nad yw'r BBC yn arwain y farchnad o ran cyflogau aelodau gweithredol yn sector y cyfryngau.

## Tâl amrywiadwy

Darperir elfen gyfyngedig o dâl amrywiadwy, sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion allweddol a chyfraniad cyffredinol at berfformiad y BBC. Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol yn gymwys i gael bonws blynyddol o hyd at 10% o'r cyflog sylfaenol, y mae hyd at 6% ohono am gyflawni targedau gwerth am arian is-adrannol, a hyd at 4% am gyflawni amcanion gweddnewid is-adrannol. Yn ystod y flwyddyn ataliwyd cynllun bonws blynyddol y cyfarwyddwyr gweithredol (ac eithrio Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide) am gyfnod amhenodol. O ganlyniad ni thalwyd unrhyw fonysau yn ôl disgresiwn yn 2010.

O ran Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide, mae strategaeth cydnabyddiaeth y BBC yn cydnabod, fel busnes a ariennir yn fasnachol, ei bod yn briodol bod y Prif Swyddog Gweithredol yn cyfranogi yng nghynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide.

## Buddiannau

Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat ac aswiriant bywyd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yn gymwys i gael car â gyrrwr o dan drefniadau cynharach. Nid oes gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gar personol na lwfans tanwydd.

## Pensiwn

Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig.

Ar gyfer cyflogai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1 rhan o 60 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth a'r cyflog pensiynadwy yw'r cyflog sylfaenol, yn cynnwys Pwysoliad Llundain, ond nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau bonws na thaliadau eraill. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 60. Ar gyfer cyflogai a ymunodd ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1.67% o'i gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth, wedi ei haddasu yn unol â chwyddiant. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 65.

Mae gan y rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr gweithredol oedran pensiynadwy arferol o 60 ond gallant barhau yn y swydd nes eu bod yn cyrraedd 65 oed. Yr oedran ymddeol arferol i Erik Huggers, Sharon Baylay a Lucy Adams yw 65 oed gan eu bod yn aelodau Buddiannau Gyrfa Cyfartalog y Cynllun Pensiwn. Ar gyfer y rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989 mae enillion yn agored i uchafswm terfyn blynyddol (£123,600 y flwyddyn ar gyfer 2009/10). Ni chymhwysir unrhyw uchafswm terfyn blynyddol i'r rhai a ymunodd ar neu cyn 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y tâl pensiynadwy hyd at derfyn a bennir.

Rhoddwyd amrywiaeth o drefniadau ar waith, ar gyfer aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a ymunodd ar neu wedi 1 Mehefin 1989, y mae eu cyflog pensiynadwy yn uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol, gan gynnwys trefniadau wedi eu hariannu a heb eu hariannu y tu allan i'r Cynllun Pensiwn. Ers 1 Ebrill 2006, disodlwyd y trefniadau hyn gan dâl ychwanegol arian parod a delir i bob Cyfarwyddwr ar gyflog pensiynadwy sy'n uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol. Gweler Tabl 3.

Gall unrhyw gyflogai sy'n rhan o'r cynllun sy'n cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i'r Lwfans Gydol Oes (£1.75miliwn ar gyfer 2009/10) ddewis eithrio o'r Cynllun Pensiwn a chael tâl arian parod ychwanegol yn lle hynny.

## Contractau cyflogaeth

Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o 12 mis ar y mwyaf, a gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol. Ar 31 Mawrth 2010, roedd tymor heb ddarfod pob cyfarwyddwr gweithredol yn 12 mis ar y mwyaf. Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.

### Buddiannau allanol

Gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Enwebiadau ymlaen llaw, gall aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol ddal un swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth, a chaniateir hyd at 15 diwrnod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Gall yr aelod gweithredol gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr. Gall cyfarwyddwyr gweithredol ddal swyddi y tu allan i'r BBC na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy hefyd.

Yn ystod y flwyddyn ni ddaliodd unrhyw gyfarwyddwr gweithredol swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth. Er mwyn gweld cofrestr buddiannau'r Bwrdd Gweithredol ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/running/executive/eb

Cydnabyddir bod Cyfarwyddwyr anweithredol yn debygol o gael swyddi cyfarwyddwyr eraill ac nid yw'r cyfyngiadau sy'n gymwys i gyfarwyddwyr gweithredol yn gymwys iddynt hwy.

### Busnesau Masnachol y BBC

Roedd Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide (is-gwmni masnachol y BBC) yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol am chwe mis o'r flwyddyn. Mae'n rhan o gynllun bonws blynyddol a chynllun cymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide, a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth. Nid ariennir y cynlluniau hyn gan ffi'r drwydded ac mae costau llawn cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a'r cynllun cymelldaliadau hirdymor wedi eu hunanariannu gan refeniw masnachol BBC Worldwide.

Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn gymwys i gael uchafswm bonws blynyddol o 55% o gyflog sylfaenol o dan y cynllun (cynnydd o 50% ym mis Ebrill 2009), a bennir yn bennaf yn ôl perfformiad yn erbyn targedau elw. Gellir gohirio hyd at 75% o fonws blynyddol y flwyddyn flaenorol i mewn i'r cynllun cymelldaliadau hirdymor.

Mae'r cynllun cymelldaliadau hirdymor yn gynllun cymelldaliadau arian parod a gynlluniwyd i gysoni cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol â strategaeth y busnes. Yr uchafswm a delir o dan y cynllun cymelldaliadau hirdymor yw 25% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol posibl ychwanegol o 100% o'r bonws blynyddol gohiriedig. Caiff dau fesur perfformiad eu defnyddio wrth benderfynu ar ddyfarniadau a wneir o dan y cynllun, yn cynnwys yr elfen gyfateb: Mesurir Twf Elw (pwysoliad o 75%) a thwf Adenillion ar Werthiannau (pwysoliad o 25%) dros gyfnod o dair blynedd a'u cymharu â grŵp cymharol o 15 o leiaf o gwmnïau cyfryngau rhyngwladol eraill[4].

Dewisir y grŵp cymharol am gymysgedd o fusnesau, diwydiant a chynrychiolaeth ddaearyddol ac mae'n cynnwys Aegis Group, British Sky Broadcasting Group, Informa, ITV, Pearson, WPP, Yell Group, Cablevision Systems Corp, Comcast A, Disney (Walt) Company, Eastman Kodak, Interpublic Group Cos, SBS Broadcasting, Pro-Sieben-Sat.1, Axel Springer (R), Havas Advertising, JC Decaux, M6 Metropole Television, Publicis Groupe, TF1, Vivendi Universal, Arnoldo Mondadori, Mediaset, RCS Mediagroup, Dentsu Inc, Fuji Television Network, Nippon Television Network Corp.

Mae'n rhaid i BBC Worldwide gael ei raddio o leiaf yng nghanol y grŵp cymharol cyn y bydd unrhyw ddyfarniad yn daladwy. Telir y swm uchaf os caiff ei raddio yn y chwartel uchaf neu'n uwch. Ceir graddfa taliadau llinell syth rhwng y ddau bwynt hyn. Dangosir y rhestr taliadau yn Nhabl 6.

Tabl 3

## Cydnabyddiaeth a roddwyd

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn isod:

| | | Ffi/cyflog sylfaenol[4] £000 | Bonws blynyddol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall[5] £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2009/10 £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2008/09 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, BBC People** | | | | | | | |
| Lucy Adams | Ymunodd 1 Mehefin 2009 | 267 | – | 12 | 49 | 328 | – |
| Stephen Kelly | Gadawodd 28 Chwefror 2009 | – | – | – | – | – | 396 |
| **Cyfarwyddwr, yr Adran Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd** | | | | | | | |
| Sharon Baylay | Ymunodd 5 Mai 2009 | 281 | – | 13 | 51 | 345 | – |
| **Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol** | | | | | | | |
| Jana Bennett | | 415 | – | 15 | 87 | 517 | 515 |
| **Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol** | | | | | | | |
| Mark Byford | | 475 | – | 13 | – | 488 | 485 |
| **Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth** | | | | | | | |
| Tim Davie[1] | | 365 | – | 15 | 72 | 452 | 403 |
| Jenny Abramsky | Ymddeolodd 30 Medi 2008 | – | – | – | – | – | 248 |
| **Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol** | | | | | | | |
| Erik Huggers | Ymunodd 1 Awst 2008 | 330 | – | 15 | 62 | 407 | 274 |
| Ashley Highfield | Gadawodd 30 Mehefin 2008 | – | – | – | – | – | 124 |
| **Prif Swyddog Ariannol** | | | | | | | |
| Zarin Patel | | 352 | – | 14 | 68 | 434 | 429 |
| **Cyfarwyddwr, BBC North** | | | | | | | |
| Peter Salmon | Ymunodd 1 Tachwedd 2009 | 156 | – | 6 | 31 | 193 | – |
| **Prif Swyddog Gweithredol, BBC Worldwide** | | | | | | | |
| John Smith[4] | Ymddiswyddodd 30 Medi 2009 | 200 | 141 | 7 | – | 348 | 480 |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol** | | | | | | | |
| Mark Thompson | | 668 | – | 7 | 163 | 838 | 834 |
| **Prif Swyddog Gweithredu** | | | | | | | |
| Caroline Thomson | | 335 | – | 21 | 63 | 419 | 413 |
| **Cyfanswm y cyfarwyddwyr gweithredol** | | **3,844** | **141** | **138** | **646** | **4,769** | **4,601** |

| | Ffi/cyflog sylfaenol[4] £000 | Bonws blynyddol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall[6] £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2009/10 £000 | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2008/09 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr anweithredol[7]** | | | | | | |
| Marcus Agius | 51 | – | – | – | 51 | 50 |
| Val Gooding[2] | 37 | – | – | – | 37 | 35 |
| Mike Lynch | 36 | – | – | – | 36 | 35 |
| David Robbie | 41 | – | – | – | 41 | 40 |
| Samir Shah | 36 | – | – | – | 36 | 35 |
| Robert Webb[3] | 83 | – | – | – | 83 | 40 |
| **Cyfanswm y Cyfarwyddwyr anweithredol** | 284 | – | – | – | 284 | 235 |
| **Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol** | 4,128 | 141 | 138 | 646 | 5,053 | 4,836 |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | | | | | 662 | 677 |
| **Cyfanswm** | | | | | **5,715** | **5,513** |

[1] Ar 1 Hydref 2008 penodwyd Tim Davie yn Gyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth. Cyn hyn bu'n Gyfarwyddwr yr Adran Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd.
[2] Penodwyd Val Gooding yn Gadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg 1/2/10.
[3] Ymddiswyddodd Robert Webb fel Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg 30/9/09. O 1 Hydref 2009 fe'i penodwyd yn Gadeirydd anweithredol BBC Commercial Holdings Limited a BBC Worldwide Limited. Er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol hyn cafodd ffioedd o £45,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2009/10.
[4] Ymddiswyddodd John Smith o Fwrdd y BBC ar 30/9/09. Mae'r cyflog sylfaenol a nodir ar gyfer y chwe mis pan oedd yn gyfarwyddwr gweithredol. £420,000 oedd y cyflog sylfaenol ar gyfer y flwyddyn. Cyfrifwyd y buddiannau ar sail pro rata. Mae'r taliad bonws a ddangosir yn cynrychioli taliad ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan, a hefyd buddsoddwyd swm cyfatebol i gynllun bonws gohiriedig 2010-2013. Cynyddodd uchafswm tâl o dan y cynllun cymelldaliadau hirdymor i 25% yn weithredol ar gyfer cynllun 2009-2012. Roedd cyfanswm y gydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn yn £823,000 fel y datgelwyd yn Arolwg Blynyddol BBC Worldwide.
[5] Cyflwynodd y BBC drefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, a chymerodd y cyfarwyddwyr hynny a nodir yn y tabl uchod ran yn y trefniant. Newidiwyd telerau ac amodau cyflogaeth y cyflogeion hynny a ddewisodd y trefniant aberthu cyflog ac o ganlyniad mae cyfraniadau pensiwn cyflogeion a wnaed drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi'u trin fel cyfraniadau'r cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith yr aberth cyflog er mwyn gallu eu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Cyfanswm y cyflog a aberthwyd gan gyfarwyddwyr gweithredol oedd £77,060 (2009: £84,704).
[6] Mae cydnabyddiaeth arall yn ymwneud â threfniadau pensiwn; rhoi symiau arian parod ychwanegol i gyfarwyddwyr yn amodol ar yr uchafswm terfyn blynyddol.
[7] Penodir Cyfarwyddwyr anweithredol am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau, ac eithrio'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, a benodir am gyfnod o dair blynedd i ddechrau.

Tabl 4

## Cynlluniau buddiannau diffiniedig

Dangosir manylion hawliadau buddiannau diffiniedig isod:

| Cyfarwyddwyr gweithredol | Oedran ar 31 Mawrth 2010 | Cynnydd/ (gostyngiad) mewn pensiwn cronedig dros flwyddyn £000 | **Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010 £000** | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010 £000 | **Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2009 000** | Cyfraniadau'r cyfarwyddwr (heb gynnwys cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog) £000 | Cynnydd/ (gostyngiad) mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r cyfarwyddwr £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lucy Adams[1] | 45 | 2 | **2** | 11 | **–** | – | 11 |
| Sharon Baylay[2] | 41 | 2 | **2** | 10 | **–** | – | 10 |
| Jana Bennett | 54 | 3 | **16** | 247 | **212** | – | 35 |
| Mark Byford | 51 | 9 | **215** | 3,682 | **3,406** | – | 276 |
| Tim Davie | 42 | 2 | **10** | 92 | **57** | – | 35 |
| Erik Huggers[3] | 37 | 2 | **4** | 19 | **7** | – | 12 |
| Zarin Patel | 49 | 3 | **24** | 284 | **220** | – | 64 |
| Peter Salmon[4] | 53 | 2 | **7** | 107 | **73** | – | 34 |
| John Smith[5] | 52 | (26) | **183** | 3,250 | **3,673** | – | (423) |
| Mark Thompson | 52 | 3 | **12** | 167 | **130** | – | 37 |
| Caroline Thomson | 55 | 6 | **73** | 1,460 | **1,475** | – | (15) |

[1] Penodwyd Lucy Adams yn gyfarwyddwr ar 1 Mehefin 2009, ac ymunodd â'r cynllun ar 1 Gorffennaf 2009. Mae'n aelod Buddiannau Cyfartalog Gyrfa sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth, ac felly nid oes ganddi hawl i bensiwn gohiriedig ar 31 Mawrth 2010. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson ag aelodau eraill, rydym wedi cyfrifo ac wedi prisio ei buddiannau pensiwn gohiriedig cronedig.

[2] Penodwyd Sharon Baylay yn gyfarwyddwr ar 5 Mai 2009 ac ymunodd â'r cynllun ar 1 Mehefin 2009. Mae'n aelod Buddiannau Cyfartalog Gyrfa sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth, ac felly nid oes ganddi hawl i bensiwn gohiriedig ar 31 Mawrth 2010. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson ag aelodau eraill, rydym wedi cyfrifo ac wedi prisio ei buddiannau pensiwn gohiriedig cronedig.

[3] Mae Erik Huggers yn aelod Buddiannau Cyfartalog Gyrfa oedd â llai na dwy flynedd o wasanaeth ar 31 Mawrth 2009, ac felly nid oedd ganddo hawl i bensiwn gohiriedig ar y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson ag aelodau eraill ar 31 Mawrth 2009 rydym wedi cyfrifo ac wedi prisio ei fuddiannau pensiwn gohiriedig cronedig ar 31 Mawrth 2009.

[4] Aelod Buddiannau Newydd yw Peter Salmon a benodwyd yn gyfarwyddwr ar 1 Tachwedd 2009, er iddo ymuno â'r cynllun ar 1 Hydref 2006. Mae'r ffigurau a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn iddo gael ei benodi'n gyfarwyddwr.

[5] Ymddiswyddodd John Smith fel cyfarwyddwr ar 30 Medi 2009 ond mae'n parhau'n aelod o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2010, felly prisiwyd ei bensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010.

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd i aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw daliadau o'r fath yn dderbyniadwy ganddynt.

Tabl 5

## Rhestr o daliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer BBC Worldwide

| Gradd perfformiad BBC Worldwide | Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor |
|---|---|
| Chwartel uchaf neu uwch | 20% o gyflog sylfaenol (25% ar gyfer Cynllun 2009-12), a swm cyfatebol o 100% o'r bonws gohiriedig |
| Canolrif | 10% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 50% o'r bonws gohiriedig |
| Islaw'r canolrif | Dim byd yn daladwy |

Nodiadau

1 Mae dosbarthu llinell syth yn gymwys rhwng pob un o'r pwyntiau talu uchod.

2 Fforffedir 50% o swm unrhyw fonws blynyddol gohiriedig hefyd os yw'r perfformiad yn is na'r chwartel isaf.

Tabl 6

## Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000 | Diwedd y cyfnod perfformiad | Dyfarniad cynllun cymelldaliadau hirdymor a dalwyd £000 | Dyfarniad a dalwyd sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig £000oedd | Cyfanswm a dalwyd £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | a+b+c |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007 i 2010 | 80 | Mawrth 2010 | 88 | 80 | 248 |

Tabl 7

## Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn 2011 hyd at 2012 ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000oedd | Diwedd y cyfnod perfformiad | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (targed) £000oedd | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (uchafswm) £000oedd | Dyfarniad posibl sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig (targed) £ 000oedd | Dyfarniad posibl sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig (uchafswm) £000oedd | Cyfanswm posibl (targed) £000oedd | Cyfanswm posibl (uchafswm) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | d | e | a+b+d | a+c+e |
| 2008 i 2011 | 88 | Mawrth 2011 | 44 | 88 | 44 | 88 | 176 | 264 |
| 2009 i 2012 | 69 | Mawrth 2012 | 44 | 110 | 34 | 69 | 147 | 248 |

Nodiadau

1. Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2008-2011 ar gyfer perfformiad sy'n is na'r chwartel isaf, fforffedir 50% o'r bonws gohiriedig.
2. Mae dyfarniad posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn seiliedig ar enillion cyfredol a chaiff ei dalgrynnu i'r 1,000 agosaf.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD GWEITHREDOL MEWN PERTHYNAS Â'R ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon wedi'u harchwilio.

Nodir manylion cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi arolwg gweithredol ac ariannol, datganiadau am gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol) a'r datganiad o gyfrifon y bwriada iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r BBC ac o'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan yr UE ('EU IFRS'), gan adlewyrchu'r ffaith bod y safonau hyn yn cael eu defnyddio'n helaeth yn y DU, yn cael eu mabwysiadu yn y sector cyhoeddus, ac y caniateir eu defnyddio o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Ni ddylai'r Bwrdd Gweithredol gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni bai ei fod wedi'i fodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y BBC ac o warged neu ddiffyg ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson.
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddarbodus.
- datgan a ydynt wedi'u paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE.
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan y cred y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio â'r Siarter. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol hefyd am gymryd y cyfryw gamau ag sy'n agored yn rhesymol iddo eu cymryd i ddiogelu asedau'r BBC ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gynnal gwefan y BBC ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol a oedd yn dal swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y rhestrir eu henwau a'u swyddogaethau yn yr adran ar Lywodraethu yn Rhan Dau o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

bod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, yn rhoi darlun cywir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a gwarged y Grŵp;

bod yr arolwg gweithredu ac ariannol yn cynnwys arolwg teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wyneba.


### Datganiad ynglŷn â datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol a oedd yn dal swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; a bod pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi eu cymryd fel aelod o'r Bwrdd Gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### Busnes gweithredol

Mae'r Datganiadau Ariannol yn dangos bod y BBC mewn sefyllfa rhwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2010, o ganlyniad i gydnabod diffyg ychwanegol o £1.6biliwn ar gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC. Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagolygon llif arian parod am gyfnod o fwy na blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac wedi arolygu'r rhagolygon hyn, ynghyd â ffactorau sensitif a ffactorau lliniaru yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad, mae sail busnes gweithredol wedi'i mabwysiadu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan y Bwrdd Gweithredol.



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
16 Mehefin 2010